# Hawliau Dynol: Bywydau Dynol

## Canllaw i'r Deddf Hawliau Dynol ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus




Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
www.equalityhumanrights.com

**Beth yw amcan y cyhoeddiad hwn?**

Amcan y cyhoeddiad hwn yw galluogi swyddogion awdurdodau cyhoeddus i ddeall sut mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol i'r hyn maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud. Mae'n darparu gwybodaeth hwylus ar yr oblygiadau sydd gan awdurdodau cyhoeddus dan y Ddeddf Hawliau Dynol, a sut mae hawliau dynol yn berthnasol i wahanol rolau.

**Ar gyfer pwy mae hwn?**

Cynlluniwyd y canllaw hwn i swyddogion ym mhob awdurdod cyhoeddus, o lywodraethau canolog i lywodraethau lleol, yr heddlu a lluoedd arfog, ysgolion ac ysbytai cyhoeddus, a chyrff eraill.

**Beth sydd oddi fewn?**

O'i grynhoi, mae'r canllaw hwn yn darparu:

- Gwybodaeth perthnasol i bobl sy'n gweithio ar bob lefel mewn awdurdod cyhoeddus
- Gwybodaeth ar ffynonellau, amcanion a chwmpas y Ddeddf Hawliau Dynol (Rhan 1)
- Eglurhad o bob hawl a sut y gall fod yn berthnasol i wahanol awdurdodau cyhoeddus (Rhan 2)
- Esiamplau o fywyd go iawn ac astudiaethau achos i ddangos sut mae hawliau dynol yn gweithio yn ymarferol (Rhan 2)
- Chwalwr jargon ac atebion i'r cwestiynau cyffredin (Rhan 3)
- Manylion ar ble i ganfod gwybodaeth bellach a chysylltiadau defnyddiol (Rhan 3)

**Pryd gafodd ei gyhoeddi?**

Cyhoeddwyd y canllaw hwn ym Mai 2014. Mae'n seiliedig ar lawlyfr i awdurdodau cyhoeddus *Human Rights: Human Lives (Hawliau Dynol: Bywydau Dynol)* a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2006.

**Pam fod y Comisiwn wedi ei gyhoeddi?**

Mae Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn hyrwyddo ac yn gorfodi'r deddfau sy'n gwarchod ein hawliau i degwch, urddas a pharch.

**Pa fformatau sydd ar gael?**

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffeil PDF (yn Gymraeg a Saesneg) ac fel ffeil Microsoft Word (eto yn Gymraeg a Saesneg) o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar sut i gyrchu gyhoeddiad y Comisiwn mewn fformat amgen, cysylltwch â correspondence@equalityhumanrights.com.

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Rhan 1: Cefndir** 5

Pwy ddylai ddefnyddio'r llawlyfr hwn a pham? 5

Beth yw hawliau dynol? 5

Beth yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol? 5

Beth yw'r Ddeddf Hawliau Dynol? 6

Pa effaith y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gael ar awdurdodau cyhoeddus? 8

Sut y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithio arnaf i? 8

**Rhan 2: Hawliau'r Confensiwn yn fanylach** 10

Erthygl 2 – Hawl i fywyd 10

Erthygl 3 – Gwahardd arteithio a thriniaeth annynol a diraddiol 14

Erthygl 4 – Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol 17

Erthygl 5 – Hawl i ryddid a diogelwch 19

Erthygl 6 – Hawl i achos llys teg 22

Erthygl 7 – Dim cosb heb gyfraith 29

Hawliau amodol: Erthyglau 8 i 11 31

Erthygl 8 – Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol 32

Erthygl 9 – Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd 39

Erthygl 10 – Rhyddid mynegiant 45

Erthygl 11 – Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu 48

Erthygl 12 – Hawl i briodi a sefydlu teulu 50

Erthygl 14 – Gwahardd gwahaniaethu 53

Protocol 1, Erthygl 1: Amddiffyn eiddo 57

Protocol 1, Erthygl 2: Hawl i addysg 59

Protocol 1, Erthygl 3: Hawl i etholiadau rhydd 62

**Rhan 3: Canllawiau a gwybodaeth** 64

Siartlif hawliau dynol 64

Egluro siart llif hawliau dynol 66

Cwestiynau a ofynnir yn aml 73

Deall y jargon 75

Sefydliadau a chysylltiadau perthnasol 76

Gwefannau defnyddiol 77


Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Jenny Watson a Mitchell Woolf yn eu llyfr, *‘Human Rights Act Toolkit’* (LAG: Llundain) sy’n sail i rai adrannau yn Rhan 3 y llawlyfr hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar iddyn nhw am eu caniatâd i’w ddefnyddio.

Mae’r canllaw hwn wedi’i seilio ar y llawlyfr ar gyfer awdurdodau cyhoeddus *‘Human rights: Human lives’,* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2006, © Hawlfraint y Goron 2006. Mae’r wybodaeth yn y llawlyfr hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored – http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Rhagair

Mae ein hawliau dynol yn diogelu rhyddid sylfaenol pawb yn y Deyrnas Unedig ac maen nhw'n gallu ein cynnal ni ym mhob agwedd o'n bywydau. Mae hawliau dynol yn cael eu diffinio'n glir ac yn cael eu gwarchod o dan gyfreithiau Prydeinig, Ewropeaidd a rhyngwladol.

Un o effeithiau'r deddfau hyn yw gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus, megis ysbytai, yr heddlu a chynghorau lleol i drin pawb ag urddas, parch ac yn deg. Effaith arall yw amddiffyn hawl pobl i leisio eu barn ynghylch eu syniadau'n agored ac i brotestio'n heddychlon os ydyn nhw'n anghytuno â gweithredoedd neu bolisïau'r llywodraeth.

Yn bwysig, mae ein deddfau hawliau dynol yn ein diogelu rhag gweithredu mympwyol a gormodol gan swyddogion cyhoeddus a allai arwain at golli bywyd neu ryddid, triniaeth ddiraddiol, neu fusnesu yn ein bywydau.

Y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yw un o'r darnau pwysicaf o ddeddfwriaeth i awdurdodau cyhoeddus. Mae'n rhaid i bawb sy'n cael eu cyflogi mewn awdurdodau cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Ddeddf hon. Drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n gydnaws â'r Ddeddf, bydd corff cyhoeddus nid yn unig yn cyfarfod â'i gyfrifoldebau ond hefyd yn gwneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl.

Os ydych chi'n gweithio mewn awdurdod cyhoeddus, mae'r canllawiau hyn ar eich cyfer chi. A ydych chi'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd neu'n datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd, bydd yn eich helpu chi i ystyried sut y gallai eich gwaith effeithio ar hawliau pobl eraill.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i wella eich dealltwriaeth o – a'ch gallu i ganfod ac ymdrin yn bositif gyda – materion hawliau dynol. Mae hefyd yn egluro o ble y daeth y Ddeddf Hawliau Dynol a pha hawliau sy'n cael eu gwarchod.

**Yn gryno, mae'r canllawiau hyn yn darparu**


- gwybodaeth berthnasol i bobl yn gweithio ar bob lefel ym mhob awdurdod cyhoeddus
- tarddiad, amcanion a sgôp y Ddeddf Hawliau Dynol (Rhan 1)
- eglurhad o bob hawl a sut y gallai fod yn berthnasol i wahanol awdurdodau cyhoeddus (Rhan 2)
- profiadau bywyd go iawn ac astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae hawliau dynol yn gweithio'n ymarferol (Rhan 2)
- chwalwr jargon ac atebion i gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml (Rhan 3)
- manylion ble i gael rhagor o wybodaeth a chysylltiadau defnyddiol (Rhan 3).

**Yn bwysig, nid yw’r canllawiau hyn yn cymryd lle**

- cyngor cyfreithiol priodol nac eglurhad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth hawliau dynol. Dylech gael cyngor cyfreithiol priodol os oes yn rhaid delio â phroblem benodol
- gwybodaeth fanwl, benodol i sector: canllawiau cyffredinol sydd yn y ddogfen hon er mwyn iddyn nhw fod yn berthnasol i amrywiaeth mor eang â phosibl o awdurdodau cyhoeddus.

Fe hoffem ni fynegi eich diolchgarwch i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder am gynhyrchu’r canllawiau gwreiddiol *‘Human rights: human lives’* ac am ei chefnogaeth gyda’r canllawiau diweddaraf hyn. Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi diweddaru’r canllawiau er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus i ddeall goblygiadau penderfyniadau diweddar gan lysoedd Prydain, yn ogystal â rhai’r Llys Hawliau Dynol Ewrop, ar eu gwaith.

Rydym yn gobeithio y bydd y rhain yn ddefnyddiol i chi ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi i ddiogelu a hyrwyddo’r hawliau sy’n perthyn i bawb ohonom.



Mark Hammond
Prif Weithredwr

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Rhan 1: Cefndir

## Pwy ddylai ddefnyddio'r llawlyfr hwn a pham?

Os ydych chi'n gweithio mewn awdurdod cyhoeddus, gall y llawlyfr hwn eich helpu i ddeall sut y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol i'r hyn rydych chi'n ei wneud a sut rydych chi'n gwneud hynny. Mae'r llawlyfr wedi'i baratoi i gyflwyno gwybodaeth i chi ar sut y mae hawliau dynol yn berthnasol i'ch swydd a pha gyfrifoldebau sydd ar awdurdodau cyhoeddus o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Ar ôl darllen hwn, rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo'n hyderus wrth ymdrin â materion hawliau dynol yn eich gwaith bob dydd, a ydych chi'n gweithio mewn llywodraeth ganol neu leol, yr heddlu neu'r lluoedd arfog, ysgolion neu ysbytai cyhoeddus neu mewn unrhyw awdurdod cyhoeddus arall.

## Beth yw hawliau dynol?

Hawliau dynol yw'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bawb. Mae syniadau ynghylch hawliau dynol wedi datblygu dros ganrifoedd lawer. Ond ar ôl yr Holocost a'r Ail Ryfel Byd y cryfhaodd y gefnogaeth ryngwladol. Er mwyn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol rhag gorfod dioddef y fath erchyllterau, mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Am y tro cyntaf, roedd y Datganiad Cyffredinol yn gosod allan yr hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae pob bod dynol yn eu rhannu.

## Beth yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?

Cafodd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol hefyd ei baratoi ar ôl yr Ail Ryfel Byd gan Gyngor Ewrop. Sefydlwyd Cyngor Ewrop fel grŵp o genhedloedd o'r un anian a oedd yn ymrwymo i amddiffyn hawliau dynol, democratiaeth seneddol a rheol gyfreithiol ac i wneud yn siŵr na fyddai erchyllterau a chreulondebau'r ail ryfel byd byth yn cael eu hailadrodd. Chwaraeodd y DU ran bwysig mewn paratoi a drafftio'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a chadarnhaodd y Confensiwn fis Mawrth 1951. Daeth y Confensiwn i rym fis Medi 1953.

Mae'r Confensiwn yn cynnwys cyfres o Erthyglau. Datganiad byr yw pob Erthygl yn diffinio hawl neu ryddid, a hefyd unrhyw eithriadau a ganiateir. Er enghraifft: Erthygl 3 – Gwahardd arteithio. Ni fydd unrhyw un yn cael ei arteithio neu'n cael ei drin neu ei gosbi'n annynol neu'n ddiraddiol. Mae'r hawliau sydd yn y Confensiwn yn berthnasol i bawb yn y gwladwriaethau sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn. Dylai unrhyw un sydd o'r farn fod y wladwriaeth wedi tramgwyddo ei hawliau dynol wneud pob ymdrech yn gyntaf i gael eu hachos wedi'i ddatrys yn y wladwriaeth honno, gan gynnwys drwy'r llysoedd. Os ydyn nhw o'r farn nad yw'r tramgwyddiad wedi'i setlo, mae hawl i fynd â'r achos i Lys Hawliau Dynol Ewrop, a gafodd ei sefydlu gan y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac sy'n cyfarfod yn Strasbwrg, Ffrainc.

## Beth yw'r Ddeddf Hawliau Dynol?

Daeth y Ddeddf Hawliau Dynol i rym yn y DU fis Hydref 2000. Mae'r Ddeddf yn galluogi pobl yn y DU i ddwyn achosion ynghylch eu hawliau dynol yn uniongyrchol i lys yn y DU. O'r blaen, doedden nhw ddim yn gallu dibynnu'n uniongyrchol ar hawliau'r Confensiwn yn llysoedd y DU. Mae hefyd yn darparu fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol i'w helpu i sicrhau bod yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn parchu hawliau dynol y rhai sy'n derbyn eu gwasanaethau, a allai eu helpu i rwystro problemau godi yn y lle cyntaf neu i allu eu datrys heb orfod mynd i'r llys.

Mae yna 16 o hawliau dynol sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau dynol, pob un wedi'i gymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid materion sy'n effeithio ar fywyd a marwolaeth, fel rhyddid rhag arteithio a lladd yn unig sy'n cael eu trafod ond hefyd bethau sy'n effeithio ar hawliau pobl yn eu bywyd bob dydd: beth y maen nhw'n gallu ei ddweud a'i wneud, eu credoau, eu hawl i achos llys teg a llawer iawn o hawliau sylfaenol eraill (mae yna eglurhad manwl o'r mathau o hawliau ar dudalen 10).

### Erthygl 1: Awdurdodaeth

Mae'r erthygl hon yn gosod dyletswydd ar y wladwriaeth i amddiffyn hawliau o dan y Confensiwn ond nid yw'n cael ei gynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol.

### Erthygl 2: Hawl i fywyd

Mae'n rhaid diogelu hawl pawb i fywyd o dan y gyfraith. Dim ond o dan rai amgylchiadau cyfyngedig iawn y mae'n dderbyniol i'r wladwriaeth ddefnyddio grym yn erbyn person sy'n arwain at ei farwolaeth. Er enghraifft, gall swyddogion yr heddlu ddefnyddio grym rhesymol i amddiffyn eu hunain neu bobl eraill.

### Erthygl 3: Gwahardd arteithio

Mae gan bawb hawl absoliwt i beidio â chael eu harteithio neu gael eu trin neu eu cosbi mewn ffordd sy'n annynol neu'n ddiraddiol.

### Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Mae gan bawb hawl absoliwt i beidio â chael eu trin fel caethweision neu gael eu gorfodi i weithio, neu berfformio llafur gorfodol, ac eithrio o dan rai mathau cyfyngedig o gyfrifoldebau sy'n cael eu nodi yn yr Erthygl (e.e. gweithio yn y carchar).

### Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch

Mae gan bawb hawl i beidio â chael eu hamddifadu o'u rhyddid ac eithrio mewn achosion cyfyngedig sy'n cael eu nodi yn yr Erthygl (er enghraifft, os ydyn nhw'n cael eu hamau neu eu dedfrydu am droseddu) a chyn belled â bod yna seiliau cyfreithiol yng nghyfraith y DU dros arestio neu garcharu.

### Erthygl 6: Hawl i achos llys teg

Mae gan bawb hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae hyn yn berthnasol i gyhuddiadau troseddol sy'n cael eu dwyn yn eu herbyn ac mewn achosion ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau sifil. Mae'n rhaid cynnal gwrandawiadau o flaen llys neu dribiwnlys annibynnol a diduedd sydd wedi'i sefydlu o dan y gyfraith. Mae'n bosibl eithrio'r cyhoedd o'r gwrandawiad os bydd angen gwneud hynny i warchod pethau megis diogelwch y wladwriaeth

neu drefn gyhoeddus. Rhagdybir bod person sy'n cael ei gyhuddo o drosedd gyfreithiol yn ddieuog nes ei brofi'n euog yn ôl y gyfraith ac mae'n rhaid gwarantu rhai hawliau gofynnol ynghylch sut y mae'r ymchwiliad troseddol a'r gwrandawiad yn cael eu cynnal.

### Erthygl 7: Dim cosbi heb gyfraith

Mae gan bawb hawl i beidio eu cael yn euog o drosedd yn codi o'u gweithrediadau nad oedd, ar adeg eu cyflawni, yn rhai troseddol. Mae pobl hefyd yn cael eu diogelu rhag cynyddu, yn ddiweddarach, y ddedfryd lymaf posibl am eu trosedd.

**Heblaw am hawl i fod â chredoau penodol, gellir cyfyngu ar yr hawliau yn Erthyglau 8 i 11 pan fo'n rhaid gwneud hynny i gyrraedd amcan pwysig. Mae'r amcanion penodol y gellir caniatáu cyfyngiadau ar eu cyfer yn cael eu dangos ym mhob Erthygl – maen nhw'n cynnwys pethau fel amddiffyn diogelwch neu iechyd cyhoeddus, atal troseddu neu amddiffyn hawliau pobl eraill.**

### Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Mae gan bawb hawl i barch i'w bywyd preifat a theuluol, i'w cartref ac i'w gohebiaeth. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu arnyn nhw.

### Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Mae rhyddid i bawb fod â llawer o wahanol farn, credoau a syniadau ac i ddilyn ffydd grefyddol. Dim ond o dan rai amodau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawl i'r credoau hyn.

### Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Mae gan bawb hawl i farn ac i fynegi'r farn honno ar eu pen eu hunain neu mewn grŵp. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r farn honno'n amhoblogaidd neu'n aflonyddu. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawl hwn.

### Erthygl 11: Rhyddid ymgynnull a chymdeithasu

Mae gan bawb hawl i ymgynnull â phobl eraill yn heddychlon. Mae ganddyn nhw hefyd hawl i gymysgu â phobl eraill, sy'n cynnwys hawl i ffurfio undeb llafur. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawliau hyn.

### Erthygl 12: Hawl i briodi

Mae gan ddynion a merched hawl i briodi ac i ddechrau teulu. Bydd y gyfraith genedlaethol yn dal i reoli sut ac ar ba oedran y gellir gwneud hynny.

### Erthygl 13: Hawl i gywiriad effeithiol

Mae'r erthygl hon yn rhoi hawl i gywiriad effeithiol am dorri hawliau eraill y Confensiwn. Nid yw wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol gan mai bwriad y Ddeddf ei hunan yw darparu cywiriad o'r fath drwy alluogi pobl i gymryd achosion cyfreithiol yn y llysoedd Prydeinig os ydynt yn ystyried fod eu hawliau eraill dan y Confensiwn wedi'u torri.

### Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Wrth gymhwyso hawliau eraill y Confensiwn, mae gan bobl hawl i beidio â chael eu trin yn wahanol oherwydd eu hil, crefydd, rhyw, barn wleidyddol neu unrhyw statws arall oni bai fod yna 'gyfiawnhad gwrthrychol' dros drin yn wahanol.

### Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo

(‘Protocol’ yw ychwanegiad diweddarach i’r Confensiwn).

Mae gan bawb hawl i fwynhau eu heiddo’n heddychlon. Ni all awdurdodau cyhoeddus, fel arfer, amharu ar eiddo neu nwyddau person na’r ffordd y maen nhw’n cael eu defnyddio heblaw o dan rai amodau penodol cyfyngedig.

### Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i addysg

Mae gan bawb hawl i beidio â chael ei wahardd o’r system addysg.

### Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd

Mae’n rhaid i etholiadau i gyrff deddfu (er enghraifft, y Senedd), fod yn rhydd ac yn deg a chael eu cynnal drwy bleidlais gudd. Efallai y gellir gosod rhai cymwysiadau ar bwy sydd â hawl i bleidleisio (er enghraifft, oedran penodol).

### Erthygl 1 o Brotocol 13: Ddiddymu dienyddio

Mae’r ddarpariaeth yn gwahardd dienyddio o dan bob achlysur.

Mae Rhan 2 yn trafod yn fanylach bob un o’r hawliau hyn (ac eithrio Erthygl 1, Erthygl 13 ac Erthygl 1 o Brotocol 13) a sut y maen nhw’n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus.

## Pa effaith y mae’r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gael ar awdurdodau cyhoeddus?

Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i drin pobl yn unol â’u hawliau o dan y Confensiwn (mae eglurhad manylach ar dudalennau 10-63). Gall unrhyw un sydd o’r farn fod awdurdod cyhoeddus wedi torri ei hawliau ddwyn eu cwyn o flaen llys neu dribiwnlys yn y DU.

Pryd bynnag y bydd yn bosibl, mae’n rhaid dehongli deddfwriaeth bresennol a’i chymhwyso mewn ffordd sy’n gydnaws â’r hawliau sy’n cael eu cynnwys yn y Ddeddf. Golyga hyn fod yn rhaid dehongli deddfwriaeth y mae swyddogion cyhoeddus yn ei ddefnyddio yn eu gwaith yn wahanol i sut yr oedd yn cael ei ddehongli cyn y daeth y Ddeddf i rym.

## Sut y mae’r Ddeddf Hawliau Dynol yn effeithio arnaf i?

Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu yn unol â hawliau’r Confensiwn ac felly mae’n rhaid i swyddogion cyhoeddus ddeall hawliau dynol a’u cadw mewn cof yn eu gwaith bob dydd. Mae hyn yn berthnasol a yw’r swyddogion yn darparu gwasanaeth yn uniongyrchol i’r cyhoedd neu’n paratoi polisïau neu weithdrefnau newydd. Gall deall hawliau dynol eu helpu i gymryd y penderfyniadau iawn.

Pan ddaw i benderfynu, mae’n rhaid, yn aml, cydbwyso hawliau un person yn erbyn hawliau pobl eraill neu yn erbyn anghenion y gymuned ehangach (mae rhagor o fanylion ynghylch hyn yn Rhan 3). Ond os bydd yn rhaid i chi gyfyngu ar hawliau rhywun, mae’n rhaid i chi wneud yn siŵr nad ydych chi’n gwneud hynny’n anghymesur. Rhaid i unrhyw gyfyngiad beidio â bod yn fwy nag sydd ei angen i gyrraedd yr amcan. Gelwir hyn yn ‘gymesuredd’.

Cofiwch bob amser fod rhai o hawliau'r Confensiwn yn absoliwt ac na ellir byth amharu arnyn nhw (er enghraifft, yr hawl i beidio cael eich arteithio neu driniaeth annynol neu ddiraddiol).

'Ble, ar ôl hyn i gyd, y mae hawliau dynol cyffredinol yn cychwyn? Mewn mannau bychan, agos at gartref – mor agos ac mor fach nes nad ydyn nhw i'w gweld ar unrhyw fap o'r byd. Eto, nhw yw byd y person unigol, y gymdogaeth y mae'n byw ynddi, yr ysgol neu'r coleg y mae'n eu mynychu, y ffatri, y fferm neu'r swyddfa y mae'n gweithio ynddi ... oni bai bod ystyr i'r hawliau hyn yno, ychydig o ystyr sydd iddyn nhw yn unman arall. Heb weithredu pendant ar y cyd gan ddinasyddion i'w cynnal yn agos at adref, ofer fydd chwilio amdanyn nhw yn y byd mawr.'

Eleanor Roosevelt, Cadeirydd Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol, 1948.

# Rhan 2: Hawliau'r Confensiwn yn fanylach

## Erthygl 2: Hawl i fywyd

Mae'n rhaid diogelu hawl pawb i fywyd o dan y gyfraith. Dim ond o dan rai amgylchiadau cyfyngedig iawn y mae'n dderbyniol i'r wladwriaeth ddefnyddio grym yn erbyn person sy'n arwain at ei farwolaeth, er enghraifft gall swyddog yr heddlu ddefnyddio grym rhesymol i amddiffyn ei hunan neu bobl eraill.

### Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

- 'Golyga'r 'hawl i fywyd' fod cyfrifoldeb ar y wladwriaeth i amddiffyn bywydau. Ystyr hyn, yn gyffredinol, yw bod yn rhaid i'r wladwriaeth beidio â chymryd bywydau dinasyddion.
- Fodd bynnag, mae yna dri o amgylchiadau cyfyngedig iawn pan na fyddai cymryd bywyd yn groes i Erthygl 2:
  - er mwyn amddiffyn person rhag trais anghyfreithlon
  - wrth arestio rhywun yn gyfreithlon neu rwystro rhywun sy'n cael ei garcharu'n gyfreithlon rhag dianc
  - wrth weithredu'n gyfreithlon i atal terfysg neu wrthryfel.

Fodd bynnag, hyd yn oed os yw'r hyn a wnaed gan awdurdod cyhoeddus yn disgyn i un o'r categorïau hyn, mae'n rhaid i unrhyw rym a ddefnyddir beidio â bod yn fwy nag sydd ei angen. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid iddo fod yn hollol gymesur i'r sefyllfa.

- Mae Erthygl 2 hefyd yn gofyn i'r wladwriaeth gymryd rhai camau positif i amddiffyn bywydau pobl o dan ei awdurdodaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid i gymryd bywyd fod yn drosedd o dan gyfraith y wladwriaeth ac mae'n rhaid cael system gorfodi'r gyfraith sy'n gyfrifol am ymchwilio, rhwystro a chosbi'r rhai sy'n euog o drosedd.
- Gall Erthygl 2 hefyd greu cyfrifoldeb mwy gweithredol i amddiffyn bywyd, er enghraifft, pan fydd awdurdod cyhoeddus yn ymwybodol fod yna fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i fywyd rhywun, neu pan yw person o dan ofal awdurdod cyhoeddus.
- Gall amddiffyn hawl i fywyd, o dan rai amgylchiadau, hefyd olygu cynnal ymchwiliad swyddogol effeithiol i farwolaethau – yn enwedig marwolaethau mewn sefydliadau'r wladwriaeth neu yn nalfeydd yr heddlu.

## A yw Erthygl 2 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 2 yn arbennig o berthnasol os ydych â rhan yn unrhyw un o'r canlynol:

- penderfyniadau polisi a allai danseilio neu fygwth bywyd rhywun neu roi ei fywyd mewn perygl
- gofalu am bobl eraill neu eu hamddiffyn rhag perygl
- ymchwilio i farwolaethau
- os oes gennych hawl i arestio
- os ydych yn swyddog yr heddlu, swyddog carchar neu'n swyddog parôl.
- os ydych yn amau fod bywyd rhywun mewn perygl.

## Beth sydd yn rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

Mae Erthygl 2 yn effeithio ar waith awdurdodau cyhoeddus mewn nifer o wahanol ffyrdd. Er enghraifft:

- Os yw awdurdod cyhoeddus yn ymwybodol o fodolaeth perygl gwirioneddol a sydyn i fwyd rhywun oherwydd gweithredoedd troseddol unigolyn arall, yna mae'n rhaid gweithredu i amddiffyn y person hwnnw.
- Os yw awdurdod cyhoeddus yn gofalu am rywun, er enghraifft, drwy ei roi mewn carchar neu mewn cartref, yna mae'n rhaid iddo gymryd camau priodol i sicrhau fod y person hwnnw'n ddiogel.
- Gallai amddiffyn hawl i fywyd hefyd olygu y dylai fod yna ymchwiliad swyddogol annibynnol i farwolaethau lle'r oedd gan awdurdod cyhoeddus eu rhan.
- Gellir sbarduno'r dyletswydd i ymchwilio hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle mae yna farwolaeth amheus neu anghyfreithlon.
- Os yw awdurdod cyhoeddus yn bwriadu gwneud rhywbeth a allai roi bywyd rhywun mewn perygl, mae'n rhaid i reolaeth a threfniadau'r hyn sy'n cael ei wneud sicrhau mai dim ond y grym lleiaf posibl sy'n cael ei ddefnyddio.
- Pan fydd gwaith awdurdod cyhoeddus ynghylch person y mae'n wybyddus ei fod yn beryglus, mae yna gyfrifoldeb i gymryd camau priodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag pobl o'r fath. Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau parôl a phrawf, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

## Erthygl 2 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***Osman v y Deyrnas Unedig (1998)***

Roedd athro wedi magu diddordeb amhriodol yn un o'i ddisgyblion, gan gynnwys ei ddilyn adref, ei gloi mewn ystafell ddosbarth, fandaleiddio ei gartref a gwneud i'w ffrind ysgol ddioddef. Adroddwyd am ymddygiad yr athro wrth y prif athro ac wrth yr heddlu. Yn ddiweddarach, ac yn annisgwyl, saethodd yr athro'r disgybl a'i dad, gan niweidio'r disgybl a lladd ei dad. Canfu Llys Hawliau Dynol Ewrop nad oedd yr heddlu wedi methu yn eu dyletswydd o dan Erthygl 2 i ddiogelu hawl y tad i fywyd. Doedd yna ddim digon o brawf fod yr athro'n fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i fywyd y gwyddai'r heddlu, neu y dylai'r heddlu fod yn gwybod, amdano. Ni ddylai'r dyletswydd i ddiogelu bywyd osod baich amhosibl neu anghymesur ar awdurdodau cyhoeddus.

### Astudiaeth achos:

***Paret v y Deyrnas Unedig (2002)***

Roedd merch yn dioddef o afiechyd dirywiol na ellid ei wella ac eisiau rheoli pa bryd a sut y byddai'n marw. Rhag marw'n ddi-urddas, drwy gaethdra wrth anadlu, roedd eisiau i'w gŵr ei helpu i farw a gofynnodd am sicrwydd na fyddai'n cael ei erlyn am fod â rhan yn ei marwolaeth. Penderfynodd Llys Hawliau Dynol Ewrop nad yw Erthygl 2 yn creu hawl i ddewis marwolaeth yn hytrach na bywyd. Felly, does yna ddim hawl i farw dan law trydydd person, na gyda help gan awdurdod cyhoeddus.

### Astudiaeth achos:

***Rabone ac Anor v Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Pennine Care (2012)***

Roedd merch gydag anhwylder iselder ailadroddus wedi ceisio lladd ei hunan sawl gwaith. Cafodd ei hasesu i ddechrau gan yr ysbyty fel un a oedd mewn perygl mawr o anafu ei hunan yn fwriadol ac o ladd ei hunan ond, ar ôl triniaeth, cafodd ei hasesu fel un mewn perygl cymedrol i fawr o niweidio'i hunan. Roedd ei thad yn bryderus yn ei chylch ac yn erfyn ar yr ysbyty i beidio â'i gadael i ddod adref nac i'w gollwng allan yn rhy fuan. Ar ôl hynny, gofynnodd y ferch am ysbaid gartref a chafodd ganiatâd i hynny am ddau ddiwrnod a dwy noson, yn groes i ddymuniadau ei rhieni. Pan oedd ar ysbaid gartref, lladdodd ei hunan. Penderfynodd y Goruchaf Lys fod dyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i gymryd camau rhesymol i'w diogelu rhag y perygl gwirioneddol ac uniongyrchol o hunan laddiad a'i fod wedi methu gwneud y cyfan y gallai ei wneud, yn rhesymol, i atal y perygl hwnnw.

### Astudiaeth achos:

***R (ar gais Amin) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (2003)***

Fis Mai 2000, cafodd carcharor 19 oed mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc ei lofruddio gan ddyn a oedd yn rhannu ei gell. Y mater yn yr achos oedd a oedd y Deyrnas Unedig wedi cydymffurfio â'i dyletswydd o dan Erthygl 2 i ymchwilio i amgylchiadau cyflawni'r drosedd. Dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi (yn ei swyddogaeth farnwrol, ac ar y pryd, y llys uchaf yn y DU) bod yn rhaid cynnal ymchwiliad llawn. Diben ymchwiliad o'r fath yw: Sicrhau, cyn belled â bo modd, fod y ffeithiau'n gweld golau dydd, fod ymddygiad beius a gwaradwyddus yn cael ei amlygu ac yn dod i sylw cyhoeddus, fod amheuaeth o ddrwgweithredu bwriadol (os nad oedd cyfiawnhad iddo) yn cael ei leddfu, fod ymarferion gweithdrefnau peryglus yn cael eu hunioni a bod y rhai sydd wedi colli perthynas yn cael o leiaf y bodlonrwydd o wybod bod gwersi wedi'u dysgu o'i farwolaeth a allai arbed bywydau rhai eraill.

**Astudiaeth achos:**

***R (JL) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (2008)***

Ceisiodd gŵr ifanc gyflawni hunanladdiad tra yn y ddalfa mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc. O ganlyniad, roedd yn dioddef o ddifrod difrifol a pharhaol i'w ymennydd. Gofynnodd y Gwasanaeth Carchardai i lywodraethwr wedi ymddeol ymchwilio i'r digwyddiad ond nid oedd yn ystyried bod angen cynnal ymchwiliad mwy manwl, annibynnol. Dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi (yn ei swyddogaeth farnwrol, ac ar y pryd, y llys uchaf yn y DU) y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol, er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 2, i farwolaethau neu bron farwolaethau yn y ddalfa sy'n arwain at niwed difrifol. Dylai ymchwiliadau o'r fath arwain at weithredu i rwystro a lleihau'r peryglon o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

# Erthygl 3: Gwahardd arteithio a thriniaeth annynol a diraddiol

Mae gan bawb hawl absoliwt i beidio â chael ei arteithio neu gael ei drin neu ei gosbi mewn ffordd sy'n annynol neu'n ddiraddiol.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae yna waharddiad absoliwt ar arteithio neu drin unrhyw berson yn annynol neu'n ddiraddiol. Mae yna gyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i atal triniaeth o'r fath, i ymchwilio i unrhyw honiadau o'r fath driniaeth ac i warchod unigolion bregus y maen nhw'n gwybod neu y dylen nhw wybod eu bod mewn perygl o gael eu trin felly.

### Geiriau ac ystyron allweddol

Bydd ymddygiad sy'n cael ei gyfrif yn unrhyw un o'r camdriniaethau canlynol yn torri Erthygl 3.

**Artaith** – achosi'n fwriadol boen neu ddioddefaint difrifol, meddyliol neu gorfforol, i gosbi neu i godi braw neu i gael gwybodaeth.

**Triniaeth annynol** – triniaeth sy'n llai difrifol nag arteithio ond sy'n dal i achosi poen neu ddioddefaint difrifol, yn gorfforol a / neu'n feddyliol.

**Triniaeth ddiraddiol** – triniaeth sy'n codi teimladau o ofn, gwewyr meddwl ac israddoldeb ac sy'n gallu sarhau ac iselhau'r dioddefwr.

I gael ei ystyried yn dor o Erthygl 3 mae'n rhaid i'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch gyrraedd o leiaf drothwy cydnabyddedig o greulondeb. Bydd a yw'n cyrraedd y trothwy hwnnw'n dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos, gan gynnwys oed ac iechyd y dioddefwr. Yn gyffredinol, y mwyaf bregus y dioddefwr, y mwyaf tebygol yw y bydd y trothwy creulondeb yn cael ei gyrraedd. Os nad yw'r cam-drin yn cyrraedd y trothwy hwnnw, efallai fod yna'n dal yn dor hawl dynol arall, megis Erthygl 8 (gweler tudalen 38).

## A yw Erthygl 3 yn berthnasol i'm gwaith i?

Nid yw'r amddiffyniad yn erbyn artaith neu driniaeth annynol neu ddiraddiol yn cael ei gyfyngu i garchardai, mae'n ymestyn i unrhyw un sydd wedi bod, neu sydd, mewn perygl o gael ei gam-drin yn ddifrifol gartref neu yn y gymuned wrth ddefnyddio gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd Erthygl 3 yn arbennig o berthnasol os yw eich swydd yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Gofalu am bobl eraill, yn enwedig rhai sy'n fregus oherwydd eu hoedran (ifanc neu hen) neu oherwydd unrhyw reswm arall, megis iechyd corfforol neu feddyliol,
- Gweithio yn rhywle lle y gallai rhywun gael ei roi, drwy amryfusedd, mewn sefyllfa sarhaus, er enghraifft, mewn cartref nyrsio neu ysbyty.
- Cadw pobl yn y ddalfa (gan gynnwys plant) neu ofalu am bobl yn y ddalfa
- Symud, estraddodi neu alltudio pobl o'r DU.
- Amddiffyn neu ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr trais domestig ac ymosodiadau rhywiol.

## Beth sydd yn rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Gwneud yn siŵr na fydd pobl yn cael eu harteithio neu'n cael eu trin neu eu cosbi'n annynol neu'n ddiraddiol. Mewn rhai achosion gallai hynny olygu darparu rhagor o adnoddau er mwyn rhwystro triniaeth annynol neu ddiraddiol (er enghraifft, i amddiffyn merched mewn perygl o drais domestig).
- Ymyrryd i atal arteithio neu drin neu gosbi'n annynol neu'n ddiraddiol gynted ag y daw hynny'n wybyddus, hyd yn oed os mai unigolyn preifat sy'n gwneud hynny.
- Cymryd camau i sicrhau nad yw person yn agored i gael ei arteithio neu ei drin neu ei gosbi'n annynol neu'n ddiraddiol, sy'n golygu na ddylai person gael ei symud, ei estraddodi na'i alltudio i wlad lle mae yna berygl gwirionedd y bydd yn cael ei drin yn y fath fodd. Gall llywodraethau gymryd camau i liniaru'r perygl drwy ffurfio cytundebau gyda'r gwledydd hynny.
- Ymchwilio i honiadau o artaith neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol.

## Erthygl 3 yn ymarferol

Yn 2011, datgelodd ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i brofiadau pobl hŷn yn derbyn gofal gartref nifer o ddigwyddiadau o gam-drin ac o esgeulustod difrifol, rhai yn debyg o gael eu cyfrif yn driniaeth annynol a diraddiol o dan Erthygl 3. Er enghraifft, dywedodd merch yr oedd ei mam yn dioddef o glefyd Huntingdon, fod ei mam wedi mynd yn hynod o denau a bod ei dillad yn llaith ac yn fudur oherwydd nad oedd yn cael digon o help gyda bwyta ac yfed.

Amlygodd ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu anabledd ddyletswydd pob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys y llysoedd, cynghorau, ysbytai ac ysgolion i gymryd mesurau i amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin. Mae'n darparu canllawiau ar sut i rwystro ac i ymateb yn effeithiol i gamdriniaeth.

**Astudiaeth achos:**

***OOO (ac eraill) v Comisiynydd Heddlu'r Metropolitan (2011)***

Dygwyd yr achos hwn gan bedair o ferched ifanc o Nigeria a gafodd eu dwyn i Loegr yn anghyfreithlon, eu gorfodi i weithio mewn amodau o gaethwasanaeth a chael eu cam-drin gymaint yn gorfforol ac yn emosiynol nes ei fod yn cael ei gyfrif yn driniaeth annynol a diraddiol. Dyfarnodd yr Uchel Lys nad oedd Heddlu'r Metropolitan wedi gwneud digon i amddiffyn dioddefwyr masnachu pobl a'i fod wedi methu yn ei ddyletswydd i ymchwilio o dan Erthygl 3 ar ôl derbyn cwynion credadwy o'r gamdriniaeth honedig. Cafodd y merched iawndal o £5,000 yr un.

**Astudiaeth achos:**

***R (C) v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder (2008)***

Sefydlwyd Canolfannau Hyfforddi Diogel i gadw pobl ifanc fregus yn eu harddegau yn y ddalfa. Tan fis Gorffennaf 2007, dim ond mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn rhaid gwneud hynny i rwystro dianc, niwed i eiddo neu anaf y gellid defnyddio ataliaeth gorfforol. Yna, cyflwynwyd rheolau newydd a oedd yn golygu y gellid defnyddio ataliaeth gorfforol o dan amodau 'pan fyddai angen hynny at ddibenion trefn a disgyblaeth dda'. Yn yr achos hwn, dileodd yr Uchel Lys y rheolau newydd ar sail eu bod yn torri Erthygl 3. Dyfarnodd yr Uchel Lys fod defnyddio ataliaeth gorfforol sy'n cynnwys achosi poendod yn fwriadol yn ddiraddiol ac yn torri ar urddas dynol yn groes i Erthygl 3. Ni ellid cyfiawnhau fod yn rhaid ei gael er mwyn sicrhau trefn a disgyblaeth dda. Pan fydd person yn cael ei amddifadu o'i ryddid ac yn dod yn ddibynnol ar y wladwriaeth, ac os yw'r person yn ifanc ac yn fregus, mae cyfrifoldeb arbennig ar y wladwriaeth i'w drin yn dosturiol.

## Enghraifft ymarfer:

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau ar y cyd ar gydraddoldeb a hawliau ar gyfer arolygwr y Comisiwn Ansawdd Gofal. Amcan y canllawiau yw sicrhau fod hawliau'r bobl sydd fwyaf mewn perygl o gael niwed yn cael eu cadw a'u parchu. Mae'n dangos beth y dylai arolygwyr chwilio amdano wrth fonitro darparwr gofal yn erbyn safonau. Mae'r canllawiau hefyd yn dangos i archwilwyr beth y dylen nhw ei wneud os ydyn nhw'n amau tor o ran hawliau dynol neu safonau.

http://www.equalityhumanrights.com/key-projects/care-and-support/guidance-for-care-quality-commission-inspectors/

# Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Mae gan bawb hawl absoliwt i beidio â chael ei drin fel caethwas neu gael ei orfodi i weithio, neu berfformio llafur gorfodol, ac eithrio rhai mathau cyfyngedig o rwymedigaethau sy'n cael eu nodi yn yr Erthygl (e.e. gweithio yn y carchar).

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

- Mae gan bawb hawl absoliwt i beidio â chael ei ddal mewn caethwasiaeth neu gaethiwed ac i beidio cael ei orfodi i weithio neu i wneud llafur gorfodol.
- Mae'r Erthygl yn datgan fod yna bedwar math o waith na ddylid ei ystyried yn llafur gorfodol.
  - gwaith sy'n cael ei wneud mewn dalfa gyfreithlon neu ar ryddhad amodol o'r ddalfa (h.y. gwaith mewn carchar neu wasanaeth cymunedol).
  - gwasanaeth milwrol gorfodol neu wasanaeth sifilaidd fel gwrthwynebydd cydwybodol
  - gwasanaeth cymunedol mewn argyfwng cyhoeddus

### Geiriau ac ystyron allweddol

- **Caethwasiaeth a chaethiwed** – mae cysylltiad agos rhwng y rhain, ond mae caethwasiaeth yn golygu bod yn eiddo i berson arall – fel nwydd – ac mae caethiwed yn golygu fel arfer bod yn rhaid byw ar eiddo person arall heb fod yna bosibilrwydd o allu newid y sefyllfa.
- **Gorfod gweithio neu lafur gorfodol** – pan fydd person yn cael ei orfodi i weithio neu berfformio gwasanaeth yn erbyn ei ewyllys a phan mae'r rheidrwydd i weithio yn anghyfiawn neu'n orthrymol, neu fod y gwaith yn golygu caledi y gellir ei osgoi. Gall gynnwys pob math o waith a gwasanaethau.

## A yw Erthygl 4 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 4 yn berthnasol yn enwedig os ydych:

- yn amau fod rhywun yn cael ei orfodi i weithio heb gydnabyddiaeth briodol ac o dan amodau anghyfiawn
- â hawl i wneud i bobl weithio mewn argyfwng.
- â hawl i reoleiddio cyflogwyr o ran pethau fel amodau gwaith ac iechyd a diogelwch.

## Beth sydd yn rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Sicrhau fod pob aelod o staff yn cael cydnabyddiaeth briodol am y gwaith y maen nhw'n ei wneud.
- Mae yna gyfrifoldeb penodol ar awdurdodau cyhoeddus i ymyrryd i atal caethwasiaeth, caethiwed, gorfod gweithio a llafur gorfodol gynted ag y daw'n ymwybodol ohono.
- Mae yna gyfrifoldeb penodol i gosbi ac erlyn yn effeithiol y rhai sydd â rhan mewn unrhyw weithred i gadw rhywun mewn caethwasiaeth, caethiwed neu orfod gweithio neu lafur gorfodol.

**Astudiaeth achos:**

### *R v Balira (2011)*

Dygodd y diffinydd, Mrs B, ferch 21 oed, Ms M i'r DU o Tanzania. Honnodd Ms M fod ei phasbort wedi cael ei gymryd oddi arni a bod Mrs B yn ei chadw fel caethferch yn ei fflat yn ne Llundain o dan amodau annioddefol. Honnodd Ms M hefyd ei bod yn cael ei gorfodi i rannu gwely gyda mab 12 oed Mrs B, ei bod yn dioddef ymosodiadau ciaidd ac yn cael ei churo'n rheolaidd. Ni chafodd Ms M ei thalu erioed am y gwaith roedd yn ei wneud. Cafodd Mrs B ei herlyn gynted ag y daeth yr awdurdodau i wybod am y sefyllfa. Cafodd rheithgor Mrs B yn euog o dan Adran Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 o'r trosedd o gadw merch ifanc fregus mewn caethiwed ac yn euog hefyd o'i gorfodi i weithio fel caethferch am chwe mis. Cafodd ei dedfrydu i chwe mis yn y carchar a'i gorchymyn i dalu £3,000 i Ms M fel iawndal.

**Astudiaeth achos:**

### *CN v y Deyrnas Unedig (2008)*

Teithiodd merch 23 oed i'r DU i ddianc oddi wrth y trais rhywiol a chorfforol yr oedd yn ei ddioddef yn Uganda. Daeth i mewn i'r DU ar basbort a fisa ffug roedd aelodau o'i theulu wedi eu cael ac yna cafodd ei gorfodi gan ei theulu i weithio yn y diwydiant gofal. Yn ei swydd olaf, cafodd ei rhoi i weithio yn gofalu am gwpwl oedrannus. Ni chafodd ei thalu am ei gwaith. Dywedwyd wrthi na ddylai siarad ag unrhyw un gan y gallai'n hawdd gael ei harestio neu gael niwed yn Llundain. Roedd ar alwad yn barhaus ddydd a nos. Dim ond awr neu ddwy un Sul y mis yr oedd hi'n ei gael i ffwrdd, ni chai deithio ar gludiant cyhoeddus ac roedd yn cael ei chadw yn nhŷ'r cwpl oedrannus bob amser gyda chyfarwyddiadau i beidio gadael na siarad â neb.

Methodd ei chais am loches ac ataliodd yr heddlu eu hymchwiliadau i'w honiadau ar y sail na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ei bod wedi cael ei masnachu. Yr adeg hynny, nid oedd yna drosedd perthnasol yng nghyfraith droseddol Lloegr ynghylch llafur gormodol na chaethiwed o'r fath yma. Cadarnhaodd Llys Hawliau Dynol Ewrop y gŵyn fod yna fethiant i ymchwilio i'w chwynion yn briodol a bod y methiant hwn wedi'i wreiddio'n rhannol yn y ddeddfwriaeth ddiffygiol nad oedd mewn gwirionedd yn gwneud caethiwed domestig yr oedd wedi cwyno amdano yn drosedd a hynny'n groes i Erthygl 4.

# Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch

Mae gan bawb hawl i beidio â chael ei amddifadu o'i ryddid ac eithrio mewn achosion cyfyngedig sy'n cael eu nodi yn yr Erthygl (er enghraifft, os ydyn nhw'n cael eu hamau neu eu dedfrydu am droseddu) a chyn belled â bod yna seiliau cyfreithiol yng nghyfraith y DU dros arestio neu gadw yn y ddalfa. Mae'r hawl hwn yn canolbwyntio ar ddiogelu hawliau unigolion rhag cael eu caethiwo'n fympwyol yn hytrach nag ar amddiffyn diogelwch personol. Felly, ni ddylai rhyddid a diogelwch gael eu hystyried ar wahân at ddibenion yr hawl penodol hwn.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

- Mae gan bawb hawl i ryddid a diogelwch ei berson. Mae hyn yn golygu hawl i beidio â chael ei 'arestio' neu ei 'gadw yn y ddalfa' hyd yn oed am gyfnod byr. Mae eithriadau i'r hawl hwn pan mae gan gadw yn y ddalfa sail gyfreithiol briodol yng nghyfraith y DU ac yn disgyn i un o'r categorïau canlynol o gadw yn y ddalfa a ganiateir o dan Erthygl 5.
  - ar ôl dedfryd mewn llys troseddol
  - am beidio ag ufuddhau gorchymyn llys neu reidrwydd cyfreithiol (er enghraifft, am beidio â thalu dirwy)
  - Er mwyn sicrhau fod person yn dod i'r llys os oes yna amheuaeth resymol ei fod wedi cyflawni trosedd, neu os yw'n rhesymol angenrheidiol i'w rhwystro rhag cyflawni trosedd neu ddianc ar ôl gwneud hynny.
  - er mwyn sicrhau fod plentyn yn derbyn yr oruchwyliaeth addysgol neu'n dod i'r llys
  - mewn perthynas â pherson sy'n feddyliol analluog, sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau, sy'n cysgu allan neu a allai ledaenu haint pe na byddai'n cael ei garcharu.
  - rhag dod i mewn i'r wlad yn anghyfreithlon neu ynghylch person y mae camau'n cael eu cymryd yn ei erbyn er mwyn ei anfon ymaith neu ei estraddodi.

## Hawliau eraill dan Erthygl 5

Mae Erthygl 5 hefyd yn egluro'r gweithdrefnau sy'n rhaid eu dilyn gan y rhai sydd â'r gallu i arestio neu gadw eraill yn y ddalfa. Mae'n rhoi'r hawl i'r person a gedwir:

- i gael gwybod yn brydlon beth yw'r rhesymau dros ei arestio a beth yw'r cyhuddiadau yn ei erbyn, mewn iaith y gall ei deall. Rhaid i'r wybodaeth gael ei roi mewn termau syml, sydd ddim yn dechnegol. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw fath o gadw yn y ddalfa (e.e. cadw cleifion â phroblemau iechyd meddwl), ac nid yw wedi ei gyfyngu i achosion o arestio troseddwyr a ddrwgdybir.
- i gael eu dwyn 'yn brydlon' o flaen barnwr neu swyddog barnwrol. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai sydd wedi troseddu'n unig
- i sefyll eu prawf am drosedd ymhen 'amser rhesymol'
- i herio cyfreithlondeb eu cadw o flaen corff barnwrol annibynnol a fydd yn rhoi penderfyniad cyflym ac yn gorchymyn eu rhyddhau os ceir eu bod yn cael eu cadw'n anghyfreithlon

- i hawlio iawndal os yw ef neu hi wedi ei arestio neu ei gadw yn y ddalfa'n groes i Erthygl 5.

Mewn achosion sy'n ystyried Erthygl 5, mae Llys Iawnderau Dynol Ewrop wedi gosod egwyddorion i gael eu cymhwyso mewn amrywiaeth o feysydd megis cadw yn y ddalfa berson sydd â salwch meddwl, neu fechnïaeth mewn achosion troseddol. Yn achos yr olaf, bydd yn rhaid i gyfraith y wladwriaeth, fel arfer, ganiatáu mechnïaeth cyn cynnal achos troseddol, oni bai:

- bod yna berygl na fydd y cyhuddedig yn mynychu'r prawf, ac na all y llys osod unrhyw amodau ar y fechnïaeth a fyddai'n sicrhau ei bresenoldeb
- bod yna berygl y bydd y cyhuddedig yn difa tystiolaeth, yn rhybuddio rhai eraill posibl a ddrwgdybir, cytuno'i stori gyda nhw, neu ddylanwadu ar dystion eraill
- bod yna resymau da i gredu y byddai'r person a gyhuddir yn troseddu ymhellach tra ar fechnïaeth, neu
- bod difrifoldeb y drosedd ac ymateb y cyhoedd iddi yn awgrymu y gallai achosi terfysg cyhoeddus.

## A yw Erthygl 5 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 5 yn berthnasol yn enwedig os ydych â rhan yn unrhyw un o'r canlynol:

- arestio neu gadw pobl
- cyfyngu ar ryddid pobl neu eu hamddifadu ohono
- adolygu cadw cleifion sy'n dioddef o salwch meddwl
- gweithdrefnau disgyblaeth filitaraidd.

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Sicrhau bod unrhyw arestiad yn gyfreithiol ac yn dod o dan un o'r eithriadau penodol i'r hawl i ryddid (a restrir uchod).
- Sicrhau nad yw unrhyw arestiad neu gadw yn eithafol o dan yr amgylchiadau penodol sydd o dan sylw.
- Cymryd pob cam rhesymol i ddod â rhywun dan amheuaeth o droseddu o flaen barnwr gynted ag y bo modd.
- Cymryd pob cam rhesymol i hyrwyddo hawl y person a gedwir yn y ddalfa i herio cyfreithlondeb eu cadw yno o flaen llys.
- Ceisio tystiolaeth ddibynadwy oddi wrth arbenigwr meddygol gwrthrychol ynglŷn â chadw yn y ddalfa ar sail iechyd meddwl.
- Dweud wrth y person sy'n cael ei gadw mewn modd syml, clir, sydd ddim yn dechnegol – a heb oedi – pam ei fod yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Os nad yw'n siarad Saesneg, yna rhaid cael cyfieithydd i gyfieithu i iaith mae'n ei deall.

## Erthygl 5 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***KB ac eraill v Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd (2002)***

Roedd KB ac eraill yn gleifion yn cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Gwnaeth pob un gais i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl am adolygiad o'u carchariad. Ym mhob achos, cafodd y gwrandawiad a

drefnwyd gan y Tribiwnlys ei ohirio dro ar ôl tro, gan arwain at oedi o hyd at 22 wythnos.

Gall oedi olygu caethiwo am amser nas gellir ei gyfiawnhau, gleifion, a fyddai, petai eu hachos wedi cael ei ystyried yn gynharach, wedi cael eu rhyddhau. Mae gohirio gwrandawiadau, yn enwedig os digwydd hyn dro ar ôl tro, yn achosi canlyniadau eraill: gofid a siom i glaf sy'n fregus yn feddyliol, y risg o niwed i'w berthynas ef neu hi â'r seiciatryddion a staff eraill yn yr ysbyty, a cholli ymddiriedaeth yn y system tribiwnlys.

Dadleuodd KB ac eraill bod eu hachosion yn nodweddiadol ac, ar y ffeithiau penodol yn ymwneud â'u hachosion, na ellid cyfiawnhau'r oedi roedden nhw wedi ei ddioddef. Ym mhob achos penderfynodd y llys na ellid cyfiawnhau'r oedi ym mhob cais ac nad oedd gwrandawiadau wedi'u cynnal ar fyrder yn unol â gofynion Erthygl 5.

## Enghraifft o ymarfer

Roedd nifer o gleifion iechyd meddwl nad oedd yn siarad fawr o Saesneg neu ddim o gwbl mewn adran seiciatrig mewn ysbyty Roedd aelodau o gynllun creu cyfeillion iechyd meddwl, dan arweiniad defnyddwyr, yn poeni am y ffaith nad oedd gwasanaeth cyfieithydd ar gael pan gafodd y cleifion eu dwyn yno gyntaf. Drwy ddefnyddio dadleuon hawliau dynol wedi eu seilio ar yr hawl i ryddid (o dan Erthygl 5) a'r hawl i beidio â chael eu gwahaniaethu ar sail ieithyddol (o dan Erthygl 14) llwyddodd eu dadl dros newid arfer yr ysbyty o beidio â darparu cyfieithydd. (Enghraifft gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain).

# Erthygl 6: Hawl i achos llys teg

Mae gan bawb hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae hyn yn berthnasol i gyhuddiadau troseddol sy'n cael eu dwyn yn eu herbyn ac mewn achosion ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau sifil. Mae'n rhaid cynnal gwrandawiadau o flaen llys neu dribiwnlys annibynnol a diduedd sydd wedi'i sefydlu o dan y gyfraith. Mae'n bosibl eithrio'r cyhoedd o'r gwrandawiad os bydd angen gwneud hynny i warchod pethau megis diogelwch y wladwriaeth neu drefn gyhoeddus. Rhagdybir bod person sy'n cael ei gyhuddo o drosedd gyfreithiol yn ddieuog nes ei brofi'n euog yn ôl y gyfraith ac mae'n rhaid gwarantu rhai hawliau gofynnol ynghylch sut y mae'r ymchwiliad troseddol a'r gwrandawiad yn cael eu cynnal.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae gan bawb hawl i brawf teg mewn achosion lle:

- mae yna anghydfod ynglŷn â 'hawliau neu gyfrifoldebau sifil' person, neu
- mae yna gyhuddiad troseddol yn cael ei ddwyn yn erbyn rhywun.

Mae'r hawl yn cynnwys:

- hawl i wrandawiad teg
- hawl i wrandawiad cyhoeddus (er bod yna amgylchiadau lle mae'n bosibl i eithrio'r cyhoedd a'r wasg, er enghraifft i amddiffyn plentyn neu ddiogelwch y wladwriaeth)
- hawl i wrandawiad o flaen tribiwnlys annibynnol a diduedd
- hawl i wrandawiad ymhen amser rhesymol.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

## Pa fath o achosion sy'n dod o dan Erthygl 6?

Mae ystyr penodol iawn i'r termau 'cyhuddiad troseddol' a 'hawliau neu gyfrifoldebau sifil' o dan Erthygl 6. Mae'n bwysig gwybod â pha fath rydych chi'n ymdrin oherwydd mae'r amddiffyniad a gynhigir o dan Erthygl 6 yn ehangach os yw 'cyhuddiad troseddol' yn cael ei ystyried. Nid yw'n hawdd penderfynu a yw cosb yn 'gyhuddiad troseddol' neu a yw anghydfod ynghylch 'hawliau neu gyfrifoldebau sifil' o dan Erthygl 6. Mae ambell anghydfod (er enghraifft anghydfod ynghylch rheoli mewnfudo) y tu allan i Erthygl 6 yn gyfan gwbl. Mae hwn yn faes sydd wedi codi nifer o achosion yn y llysoedd. Felly os ydych chi'n ymwneud â chosb o ryw fath ac nad ydych yn siŵr a yw Erthygl 6 yn berthnasol, neu a yw'r gosb yn un droseddol neu'n un sifil o dan yr Erthygl, yna dylech ofyn am gyngor pellach.

## Beth yw 'cyhuddiad troseddol'?

Mae unrhyw beth sy'n cyfrif fel cyhuddiad troseddol yng nghyfraith y DU bob amser yn droseddol o dan Erthygl 6. Er hynny, mae yna hefyd rai cosbau eraill, rhai heb gael eu galw'n 'gyhuddiadau troseddol' yng nghyfraith y DU (ac na sydd yn arwain at ddedfryd droseddol neu record droseddol), ond sydd yn cael eu hystyried yn rhai troseddol dan Erthygl 6. Mae hyn oherwydd nad yw dosbarthiad cosbau o dan gyfraith y DU o reidrwydd yn brawf o 'gyhuddiad troseddol' o dan Erthygl 6. Yr hyn sydd sy'n bwysig yw hyn – a yw natur y 'drosedd' sy'n arwain at y gosb, a pha mor ddifrifol y gallai'r gosb fod, yn ei gwneud yn debyg iawn i gyhuddiad troseddol. Er enghraifft, mae

cosb sy'n golygu fod person yn cael ei gadw person yn y ddalfa, efallai mewn achos o ddisgyblaeth filwrol neu'n dilyn dirmyg llys, yn debygol o gael ei ystyried yn 'droseddol' at ddibenion Erthygl 6. Yn yr un modd, gellir ystyried dirwy sy'n cael ei gosod i gosbi ac i rwystro pobl rhag gwneud rhai pethau penodol (megis osgoi treth neu gario mewnfudwyr anghyfreithlon i'r DU) hefyd yn droseddol at ddibenion Erthygl 6, hyd yn oed pan nad yw'n rhan o gyfraith droseddol y DU.

## Beth yw 'hawl neu gyfrifoldeb sifil'?

Mae hawliau a chyfrifoldebau sifil yn cynnwys nifer o hawliau a chyfrifoldebau sy'n cael eu cydnabod yng nghyfraith y DU, er enghraifft hawliau cytundebol, hawliau eiddo a'r hawl i dderbyn iawndal am weithrediadau anghyfreithlon y wladwriaeth. Unwaith eto, nid yw cyfraith y DU yn derfynol a phendant ynglŷn â'r mater oherwydd mae gan 'hawliau a rhwymedigaethau sifil' ei ystyr arbennig ei hunan o dan Erthygl 6 (mae hyn wedi esblygu trwy benderfyniadau Llys Iawnderau Dynol Ewrop). Yn ei hanfod mae'r term hwn yn disgrifio achosion sy'n ymwneud ag anghydfod rhwng personau preifat yn eu perthynas â'i gilydd – megis anghydfod yn ymwneud â chamweddau a chytundebau, anghydfod ynghylch cyfraith deuluol a chyflogaeth, cyfraith fasnachol ac eiddo. Mae hefyd yn cynnwys ambell anghydfod rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth ynglŷn â hawliau neu'r defnydd o bwerau gweinyddol sy'n effeithio ar hawliau preifat, er enghraifft cytundebau (gan gynnwys y rhan fwyaf o gytundebau cyflogaeth), penderfyniadau cynllunio ac anghydfod yn ymwneud ag eiddo. Mae Erthygl 6 hefyd yn cynnwys anghydfod rhwng unigolyn a'r wladwriaeth yn ymwneud â nawdd cymdeithasol, ac eithrio pan fo hyn yn golygu taliadau dewisol (gan nad yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel 'hawliau').

## Pa fath o achosion sy'n syrthio y tu allan i Erthygl 6?

Nid yw Erthygl 6 bob amser yn berthnasol i anghydfod ynglŷn â phenderfyniadau gweinyddol o dan ddeddfwriaeth mewnfudo, neu'n ymwneud â threth neu hawliau pleidleisio. Yn aml fe fydd y rhain yn disgyn y tu allan i rychwant Erthygl 6 yn llwyr, felly hefyd: hawliau a chyfrifoldebau cyfraith gyhoeddus; yr orfodaeth i dalu treth; hawliau gwleidyddol; ac agweddau penodol o gyflogaeth yn y gwasanaeth sifil (yn dibynnu ar destun yr anghydfod).

## Beth am apeliadau?

Nid yw Erthygl 6 yn gwarantu hawl i apelio ond mae gwarantau cyffredinol Erthygl 6 yn berthnasol i lefel gyntaf achosion, yn ogystal ag unrhyw apêl sydd ar gael. Ond efallai na fyddai rhai o'r hawliau mwy penodol, megis yr hawl i wrandawiad llafar neu wrandawiad cyhoeddus, yn gymwys yn llawn i apêl.

Os caiff achos ei benderfynu gan gorff anfarnwrol, megis awdurdod gweinyddol yn hytrach na llys, efallai na fydd yr achosion yn cyfarfod â'r safon lawn yn Erthygl 6. Ond efallai na fydd hyn o bwys os oes yna apêl yn dilyn o benderfyniad yr awdurdod hwnnw i lys neu dribiwnlys sydd yn cyfarfod â safon Erthygl 6 ar gyfer profion teg ac sy'n gallu ymdrin â holl agweddau'r achos. Does dim angen cynnal ail wrandawiad o ffeithiau'r achos, er enghraifft pan gynhaliwyd yr achos blaenorol yn gyhoeddus.

## Hawl mynediad i lys

Yn ogystal â sicrhau bod yr achosion yn cael eu cynnal yn deg, mae Erthygl 6 yn

rhoi'r hawl i chi ddwyn achos sifil i'r llys. Rhaid i'r system gyfreithiol gael ei sefydlu fel nad yw pobl yn cael eu heithrio o broses y llys. Ond nid yw'r hawl mynediad i lys heb derfynau ac mae Llys Iawnderau Dynol Ewrop wedi derbyn y gall y bobl ganlynol cael eu cyfyngu rhag dod ag achosion:

- ymgyfreithwyr sy'n dod ag achosion yn aml heb rinwedd
- methdalwyr
- personau o dan oed
- pobl y tu allan i derfyn amser neu gyfnod o gyfyngiad i ddod ag achos
- pobl eraill y mae yna fudd cyfreithiol dros gyfyngu ar eu hawl i gael mynediad at lys, ar yr amod nad yw'r cyfyngiad yn llymach na sydd raid.

## Yr hawl i resymau

Mae Erthygl 6 yn gyffredinol yn cynnwys hawl i benderfyniad rhesymegol, fel bod pobl yn gwybod sail y penderfyniad yn ddigon clir i benderfynu a allan nhw'i herio ymhellach.

## Beth am gymorth cyfreithiol?

Nid yw Erthygl 6 yn rhoi hawl cyffredinol i gymorth cyfreithiol i berson na all fforddio dwyn achosion ond efallai y bydd angen cymorth cyfreithiol mewn amgylchiadau arbennig er mwyn gwarantu hawl mynediad effeithiol i'r llys mewn achosion sifil (gweler manylion cymorth cyfreithiol mewn achosion cyfreithiol ar dudalen 33) Er nad oes disgwyl 'cydraddoldeb arfau' llwyr, rhaid i'r ddwy ochr gael cyfle rhesymol i gyflwyno'u hachos a gallai Erthygl 6 ofyn i gymorth cyfreithiol fod ar gael i bartïon mewn rhai achosion sifil, er enghraifft pan fo achosion yn hynod o gymhleth, neu mewn amgylchiadau pan mae rheidrwydd cyfreithiol i gael cyfreithiwr i'w cynrychioli. Mae'r cwestiwn a oes yn rhaid cael cymorth cyfreithiol i gael gwrandawiad teg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, er enghraifft cymhlethdod y gyfraith a'r gweithdrefnau, beth sydd yn y fantol i'r parti a'i allu i gynrychioli ei hunain. Mae'n dderbyniol cyfyngu ar gymorth cyfreithiol trwy ystyried amgylchiadau ariannol y parti a'r rhagolygon o lwyddiant.

## Beth mae'r hawl i wrandawiad teg yn ei olygu?

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu hawl y person i gyflwyno'i achos a'i dystiolaeth i'r llys (neu'r awdurdod gweinyddol sy'n gwneud y penderfyniad) o dan amgylchiadau nad yw'n ei roi o anfantais sylweddol o'i gymharu â'r parti arall yn yr achos. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i weld y defnydd sydd ym meddiant yr ochr arall, ac – os oes gwrandawiad – y gallu i groesholi tystion ar delerau sy'n gyfartal â rhai'r ochr arall. Hefyd mae gan dystion a dioddefwyr hefyd hawliau o dan y Confensiwn. Os ydyn nhw'n ifanc neu'n fregus rhaid i'r llys wneud popeth yn ei allu i'w hamddiffyn a chydnabod eu hawliau.

## Beth mae'r hawl i wrandawiad cyhoeddus yn ei feddwl?

Mewn egwyddor, mae'r hawl hwn yn golygu bod gan y cyhoedd yn gyffredinol a'r wasg hawl i gael mynediad i unrhyw wrandawiad o dan Erthygl 6. Ond nid yw peidio â chynnal gwrandawiad cyhoeddus ar lefel gyntaf achos ddim o reidrwydd yn torri amodau Erthygl 6. Er enghraifft, os mai'r awdurdod gweinyddol sy'n cymryd y penderfyniadau cyntaf mewn achos sifil, yna gallai fod yn ddigon cynnig gwrandawiad cyhoeddus yn y cyfnod apêl (gweler isod). Mewn unrhyw achos, gall yr hawl i wrandawiad cyhoeddus fod yn amodol ar gyfyngiadau penodol er lles

moesau, trefn gyhoeddus neu ddiogelwch y wladwriaeth eu os yw buddiannau rhai o dan 18 neu breifatrwydd y partïon yn galw am wahardd y cyhoedd a'r wasg. Er hynny, ni dim ond cyn belled ag y mae'n rhaid i amddiffyn y buddiannau hynny y dylid gwahardd y cyhoedd. Hyd yn oed pan fydd y cyhoedd wedi cael eu gwahardd o'r gwrandawiad, rhaid i ganlyniad yr achos gael ei wneud yn gyhoeddus, boed hynny'n cael ei ddarllen allan yn y llys neu ar ffurf ysgrifenedig. Mewn ystod gul o achosion diogelwch gwladol arbennig o sensitif (gweithdrefnau deunydd caeëdig) mae'n bosibl cadw'r cyhoedd allan o'r gwrandawiad a'r dyfarniad.

## Beth mae'r hawl i dribiwnlys annibynnol a diduedd yn ei olygu?

Mae'n rhaid i'r llys neu unrhyw gorff arall sy'n penderfynu achos fod yn annibynnol o'r partïon yn yr achos hwnnw. Mae'r modd mae aelodau o'r llys neu'r corff yn cael eu penodi, neu'r modd maen nhw'n cynnal achos arbennig, yn gallu effeithio ar eu hannibyniaeth.

Felly hefyd, rhaid i aelodau'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau fod yn ddiduedd, heb ddangos rhagfarn na gogwydd na rhoi unrhyw sail i amau a ydyn nhw'n bod yn ddiduedd. Weithiau bydd barnwr neu berson sy'n cymryd penderfyniadau gweinyddol wedi bod â chysylltiad â'r achos ymlaen llaw cyn penderfynu ar y canlyniad. Neu efallai bod ganddyn nhw gysylltiadau gydag un ochr neu'r llall, neu farn gref ar yr achos. Ond yn gyffredinol, nid yw cysylltiad blaenorol o angenrheidrwydd yn golygu nad yw'r barnwr a'r gwneuthurwr penderfyniadau yn ddiduedd. Os nad oes tystiolaeth o ogwydd, y prawf yw a oes yna unrhyw arwydd o ogwydd. Er enghraifft, ni ddylai barnwr neu wneuthurwr penderfyniadau sy'n penderfynu ar achos yn ddiweddarach fod yn ymwneud â'r apêl yn erbyn eu penderfyniad eu hunain oherwydd byddai hynny'n rhoi arwydd o ogwydd.

## A oes yn rhaid i wneuthurwyr penderfyniadau gydymffurfio â'r safonau hyn?

Nid oes raid, o angenrheidrwydd, i benderfyniadau gaiff eu gwneud gan awdurdodau gweinyddol, mewn achosion sy'n effeithio ar 'hawliau neu rwymedigaethau sifil', gydymffurfio â gofynion llawn Erthygl 6 (megis yr hawl i wrandawiad cyhoeddus), cyhyd ag y bod yna hawl i apelio i lys neu dribiwnlys sydd yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

Er hynny, mewn rhai achosion, efallai bod dyletswydd ar y gwneuthurwr penderfyniadau i weithredu'n lled-farnwrol, er enghraifft trwy gynnal gwrandawiad cyhoeddus mewn achos lle mae anghydfod rhwng y partïon ynghylch y ffeithiau. Hefyd mae yna rai mathau o benderfyniadau na ddylai awdurdod gweinyddol eu cymryd (hyd yn oed ar y lefel gyntaf oll), ond yn hytrach eu rhoi i lys. Er enghraifft, fel arfer dylai cyhuddiad troseddol gael ei brofi gan lys. Bydd y cwestiwn a oes rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau yn yr achos arbennig hwn gydymffurfio ag Erthygl 6 yn dibynnu ar ffeithiau'r sefyllfa.

## Beth mae'r hawl i brawf mewn amser rhesymol yn ei olygu?

Mae gan bobl hawl i gael eu hachos wedi ei glywed heb oedi gweithdrefnol gormodol. Bydd pennu a yw'r oedi'n ormodol yn dibynnu'n helaeth ar amgylchiadau'r achos, gan gynnwys:

- math o achos a'i gymhlethdod (er enghraifft, mae achosion troseddol ac

achosion teuluol yn ymwneud â phlant fel arfer â therfynau amser llym)

- ymddygiad a diwydrwydd y ddwy ochr yn yr achos
- ymddygiad a diwydrwydd y llys.

Mae hefyd yn werth nodi y bydd Llys Iawnderau Dynol Ewrop yn ystyried y rhesymau dros yr oedi ac mewn achosion blaenorol mae wedi gwahaniaethu rhwng 'llwyth gwaith difrifol', y gallai'r wladwriaeth fod yn gyfrifol amdano, ac ôl-groniad dros dro o waith yn y llysoedd sy'n cael ei ddatrys trwy weithredu adferol – yn enwedig os nad oedd yr ôl-groniad yn un y gellid ei ragweld. Ni fyddai diffyg adnoddau (er enghraifft gweithwyr cymdeithasol y llys neu farnwyr) yn cael eu hystyried yn esgus dros oedi eithafol.

## Hawliau ychwanegol mewn prawf troseddol

Mae'r rhain yn cynnwys:

- hawl y rhai a gyhuddwyd i gael gwybod yn brydlon am fanylion y cyhuddiad a wnaed yn eu herbyn ac mewn iaith y gallan nhw'i deall
- yr hawl i gyfieithydd am ddim mewn achos lle na all yr un a gyhuddwyd ddeall yr iaith a ddefnyddir
- yr hawl i gael eu hystyried yn ddieuog nes iddyn nhw gael eu profi'n euog, sy'n golygu fel arfer bod rhaid i'r erlyniad brofi bod y diffynnydd yn euog o'r drosedd
- hawl yr un a gyhuddir i beidio â dweud dim a allai eu cysylltu â throsedd, yr hawl a elwir yn aml yn 'hawl i beidio â dweud dim'. Ond, os bydd yr un a gyhuddir yn arfer yr hawl i beidio â dweud dim, gallai'r llys ddod i gasgliadau eu hunain pam eu bod wedi dewis cadw'n dawel. Felly does yna ddim hawl diamod i gadw'n dawel
- yr hawl i gael amser ac adnoddau digonol i baratoi achos yr amddiffyniad, gan gynnwys darparu cymorth cyfreithiol lle mae cyfiawnder yn gofyn am hynny, a'r hawl i gyfathrebu â chyfreithiwr mewn da bryd ar gyfer yr achos
- hawl y diffynnydd i'w amddiffyn ei hun yn bersonol neu gyda help cyfreithiol o ddewis y diffynnydd. Dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael os nad oes gan y diffynnydd ddigon o fodd i dalu am help cyfreithiol a'i fod yn angenrheidiol er lles cyfiawnder
- hawl y diffynnydd, fel egwyddor gyffredinol, i fod yn y llys yn ystod y prawf. Os yw'r diffynnydd yn y carchar, cyfrifoldeb awdurdodau'r carchar yw sicrhau eu bod yn y llys. Gall diffynyddion ildio'i hawl i fynychu'r llys, ond rhaid iddyn nhw wneud hyn o'i gwirfodd ac yn glir. Ond os yw diffynnydd yn fwriadol yn dewis bod yn absennol o'r llys pan fo'r achos yn cael ei gynnal, gall y llys barhau â'r achos, heb dorri amodau Erthygl 6 o angenrheidrwydd wrth wneud hynny
- hawl y diffynnydd i holi tystion yr erlyniad ac i alw a chroesholi tystion yr amddiffyniad dan yr un amodau.

## A yw Erthygl 6 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 6 yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n ymwneud â:

- prosesu budd-daliadau, dyfarniadau, hawlenni, neu drwyddedau os ydych chi'n delio gydag apeliadau a phenderfyniadau
- gweithdrefnau gwneud penderfyniadau yn y sector gyhoeddus, er enghraifft cynllunio, gofal plant, atafaelu eiddo

- gwaith llysoedd a thribiwnlysoedd
- erlyniadau, yn cynnwys y rhai gyflwynir gan awdurdod lleol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Cynnwys y gweithdrefnau angenrheidiol mewn unrhyw broses o ddyfarniadau, apeliadau neu benderfyniadau i sicrhau eu bod yn cyrraedd safon Erthygl 6.
- Sicrhau bod unrhyw berson sy'n rhan o broses cymryd penderfyniadau yn cael defnyddio cyfieithydd os oes angen.
- Os nad yw'r broses cymryd penderfyniadau gwreiddiol yn cydymffurfio â'r safon tegwch angenrheidiol (efallai oherwydd nad oedd yna wrandawiad cyhoeddus) yna dylid sicrhau bod yna broses apeliadau ar gael sy'n cydymffurfio â safon Erthygl 6.
- Rhoi rhesymau dros benderfyniad (yn y rhan fwyaf o achosion).
- Sicrhau bod y broses apeliadau ar gael yn hwylus, yn deg a'i bod yn hawdd ei deall.
- Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am yr achos, amser a'r adnoddau yn cael ei rannu er mwyn paratoi amddiffyniad neu apêl.

## Erthygl 6 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***Begum v Tower Hamlets LBC (2003)***

Cynigiodd y Cyngor lety i'r ceisydd, ond dywedodd hi ei fod yn annerbyniol. Cynhaliodd rheolwr ailgartrefu'r Cyngor adolygiad a phenderfynodd y dylai'r ceisydd fod wedi derbyn y fflat. Apeliodd y ceisydd ar y sail nad oedd wedi cael gwrandawiad o flaen tribiwnlys annibynnol, oherwydd nad oedd y rheolwr ailgartrefu'n annibynnol. Penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi (yn ei rôl farnwrol, ac ar y pryd, llys uchaf y DU) bod y penderfyniad neilltuo tai yn 'pennu hawliau dynol', ond ei bod wedi cael gwrandawiad teg o flaen tribiwnlys annibynnol, er nad oedd y rheolwr ailgartrefu'n annibynnol. Roedd holl weithdrefn yr adolygiad (penderfyniad y swyddog adolygu a'r apêl i'r Llys Sirol) wedi darparu'r amddiffyniadau oedd eu hangen dan Erthygl 6.

**Astudiaeth achos:**

***DG v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau (ESO) (2010)***

Apeliodd DG yn erbyn penderfyniad i wrthod iddo Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), penderfyniad a waned ar ôl archwiliad meddygol. Er i DG ofyn i Jobcentre Plus gysylltu â'i feddyg teulu (oedd hefyd yn gynrychiolydd a enwebwyd ganddo), ni ofynnwyd am dystiolaeth oddi wrth y meddyg teulu na gan weithiwr cymdeithasol DG. Yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, yn dilyn cyngor Jobcentre Plus, ildiodd DG ei hawl i wrandawiad llafar. Deliwyd â'r apêl ar bapur a chafodd ei daflu allan. Yn ystod yr apêl nesaf, o ystyried y cyngor gwael roddwyd gan Jobcentre Plus, anawsterau'r ceisydd yn codi o'i broblemau iechyd meddwl, a methiant yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r tribiwnlys i gyfathrebu â'i Feddyg Teulu, penderfynodd yr Uwch Dribiwnlys nad oedd DG wedi cael gwrandawiad teg o'i apêl yn ôl gofynion Erthygl 6.

## Enghreifftiau ymarfer:

Mae nifer o adrannau cynllunio wedi caniatáu cyfranogiad cyhoeddus mewn pwyllgorau cynllunio a newidiadau i weithdrefnau trwyddedu. (Daw'r enghraifft o ddogfen y Comisiwn Archwilio, *Human Rights – Importing Public Service Delivery (2003))*.

Mae cyngor bwrdeistref wedi gwella'i weithdrefnau ar gyfer apeliadau trwy benodi cadeirydd annibynnol. (Daw'r enghraifft o ddogfen y Comisiwn Archwilio, *Human Rights – Importing Public Service Delivery (2003))*.

# Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith

Mae gan bawb yr hawl i beidio â'i gael yn euog o drosedd yn dilyn gweithredoedd nad oedd yn droseddol pan gawson nhw'u cyflawni. Caiff pobl hefyd eu hamddiffyn yn erbyn unrhyw gynnydd diweddarach yn y ddedfryd hiraf posibl am drosedd.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

- Mae gan berson yr hawl i beidio â'i gael yn euog o drosedd yn ymwneud â gweithred neu anweithred a gyflawnwyd ar adeg pan nad oedd y fath weithred yn droseddol. Hefyd, all person ddim derbyn cosb sy'n fwy na'r gosb fwyaf oedd ar gael pan gafodd y drosedd ei chyflawni.
- Os, ar yr adeg y cafodd y weithred neu anweithred ei chyflawni, oedd y weithred yn groes i gyfraith gyffredinol cenhedloedd gwareiddiedig, yna efallai y caniateir erlyn a chosbi am y weithred honno. Roedd yr eithriad hwn yn caniatáu cosbi am droseddau rhyfel, bradwriaeth a chydweithredu gyda'r gelyn yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.

## A yw Erthygl 7 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 7 yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n ymwneud â:

- creu neu ddiwygio cyfraith droseddol
- erlyn troseddau
- camau disgyblu sy'n arwain at gosb, pan fo'r drosedd yn dod o dan gysyniad y Confensiwn o drosedd (gweler Erthygl 6 uchod).

## Beth ddylai awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Ystyried Erthygl 7 wrth greu/diwygio deddfwriaeth droseddol.
- Sicrhau bod troseddau'n cael eu diffinio'n glir yn y gyfraith.
- Sicrhau nad yw cyfreithiau troseddol a chosbau'n cael eu gosod yn ôl-weithredol.

## Erthygl 7 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***R v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, ex parte Uttley (2004)***

Ym 1995, cafwyd dyn yn euog o wahanol droseddau rhywiol, gan gynnwys trais rhywiol. Fe'i dedfrydwyd i 12 mlynedd o garchar. Fe'i rhyddhawyd ar ôl gwasanaethu dau draean o'i ddedfryd, o dan amodau trwydded nes cyrraedd tri chwarter cyfnod ei ddedfryd. Fodd bynnag, petai wedi'i gael yn euog a'i ddedfrydu adeg cyflawni'r troseddau, byddai'r darpariaethau cyfreithiol a oedd ar gael ar y pryd wedi rhoi hawl iddo gael ei ryddhau heb amodau. Dadleuodd fod gorfodi amodau'r drwydded yn golygu ei fod yn cael cosb drymach nag a fyddai wedi ei gael adeg cyflawni'r drosedd, a bod hyn yn torri ar yr hawl yn Erthygl 7. Anghytunodd Tŷ'r Arglwyddi (yn ei rôl farnwrol, ac ar y pryd, llys uchaf y DU). Penderfynasant na fyddai amodau Erthygl 7 yn cael eu torri

oni bai bod dedfryd a roddwyd i ddiffynnydd yn fwy na'r gosb fwyaf y gellid wedi'i gorfodi yn unol â'r gyfraith a oedd mewn grym adeg cyflawni'r drosedd. Nid oedd hyn yn gymwys yn yr achos hwn oherwydd, hyd yn oed ar ddyddiad y troseddau, y ddedfryd fwyaf difrifol am drais rhywiol oedd carchar am oes. Nid bwriad Erthygl 7 yw sicrhau cosbi'r troseddwr yn yr union ffordd ag y byddai wedi cael ei gosbi adeg y drosedd, dim ond sicrhau nad yw'n cael ei gosbi'n fwy llym na'r gosb fwyaf a oedd yn ar gael adeg y drosedd. Beth bynnag, nid oedd gorfodi amodau trwydded yn golygu bod y ddedfryd yn fwy difrifol nag a fuasai o dan y drefn gynharach.

# Hawliau amodol: Erthyglau 8 i 11

Ar wahân i'r hawl i arddel rhai credoau, gall yr hawliau yn Erthyglau 8 i 11 fod yn gyfyngedig lle bo angen hynny i gyflawni amcan pwysig. Mae'r union amcanion lle caniateir cyfyngiadau wedi eu cynnwys ym mhob Erthygl – maen nhw'n cynnwys pethau fel amddiffyn iechyd neu ddiogelwch cyhoeddus, atal troseddau ac amddiffyn hawliau pobl eraill.

# Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Mae gan bawb hawl i barch at eu bywyd preifat a theuluol, eu cartref a'u gohebiaeth. Dim ond dan amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawl hwn.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae gan bawb hawl i barch at eu bywyd preifat a theuluol, eu cartref a'u gohebiaeth.

Gall yr hawl hwn gael ei gyfyngu, cyn belled ag y bydd sail gyfreithiol gywir i'r ymyrraeth hwnnw, bod hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd a'i fod yn dilyn un o'r amcanion cyfreithiol canlynol:

- diogelwch y wladwriaeth
- diogelwch cyhoeddus
- lles economaidd y wlad
- atal anrhefn neu droseddau
- amddiffyn iechyd neu foesau
- amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Ond rhaid i'r ymyrraeth fod yn angenrheidiol (nid dim ond yn rhesymol) a dylai fod y 'gymesur' – hynny yw peidio â gwneud mwy na sydd ei angen i gyflawni'r amcan a ddymunir.

### Geiriau allweddol a'u hystyron

**Bywyd preifat** – Mae'r cysyniad o 'fywyd preifat' dan Erthygl 8 yn eang. Yn gyffredinol mae'r hawl i barch at fywyd preifat yn golygu bod gan berson hawl i fyw ei fywyd ei hunan gyda'r fath breifatrwydd personol ag sy'n rhesymol mewn cymdeithas ddemocrataidd, gan ystyried hawliau a rhyddid pobl eraill. Er enghraifft, mae'n amddiffyn pobl rhag ymyrraeth gan y cyfryngau.

Mae parch at urddas personol unigolion yn rhan o amddiffyniad eu bywyd preifat. Mae unrhyw ymyrraeth gyda chorff neu hunaniaeth seicolegol person neu'r modd maen nhw'n byw ei fywyd yn debygol o danseilio'u hurddas, gan, o bosibl, dorri ar hawliau Erthygl 8.

Mae'r hawl i barch at fywyd preifat dan Erthygl hefyd yn cynnwys materion o ymreolaeth a hunan benderfyniad a allai gynnwys, er enghraifft:

- y rhyddid i ddewis hunaniaeth rywiol
- y rhyddid i ddewis cysylltiadau personol
- y rhyddid i ddatblygu personoliaeth
- y rhyddid i ddewis sut i edrych ac i wisgo.

Gall hawl i fywyd preifat hefyd gynnwys yr hawl i gadw gwybodaeth bersonol, megis cofnodion swyddogol, ffotograffau, llythyrau, dyddiaduron, gwybodaeth feddygol neu broffil DNA, yn breifat a chyfrinachol. Mae unrhyw ddatgeliad o wybodaeth bersonol am rywun i berson neu gorff arall yn debygol o effeithio ar hawl person i fywyd preifat dan Erthygl 8. Oni bai bod yna reswm da, ni ddylai awdurdodau cyhoeddus gasglu na datgelu gwybodaeth fel hyn; os byddan nhw'n gwneud hynny, mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gwarchod

data a sicrhau bod y wybodaeth yn fanwl gywir.

Mae Erthygl 8 yn gosod terfynau ar y graddau y gall awdurdod lleol wneud pethau sy'n ymyrryd â phreifatrwydd person mewn perthynas â'u corff heb eu caniatâd. Gall hyn gynnwys gweithgareddau fel cymryd samplau gwaed a chynnal archwiliadau corfforol.

Mae Erthygl 8 hefyd yn gosod terfynau ar y rhan fwyaf o fathau o wyliadwriaeth, megis Teledu Cylch Cyfyng, tapio ffôn a gwyliadwriaeth trwy gyfrwng GPS.

Mewn rhai amgylchiadau, rhaid i'r wladwriaeth gymryd camau cadarnhaol i atal pobl eraill rhag ymyrryd mewn bywyd personol person. Er enghraifft, efallai dylai'r wladwriaeth gymryd camau i amddiffyn pobl rhag llygredd difrifol os yw'n effeithio'n ddifrifol ar eu bywydau.

**Bywyd teuluol** – Mae'r hawl i barch at fywyd teuluol yn cynnwys hawl i gael perthnasau teuluol wedi eu cydnabod gan y gyfraith. Mae hefyd yn cynnwys hawl i deulu fyw gyda'i gilydd a mwynhau cwmni ei gilydd. Mae'r cysyniad o 'fywyd teuluol' dan Erthygl 9 yn ehangach na'r teulu traddodiadol. O'r herwydd gall gynnwys y berthynas rhwng cwpwl di-briod (gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw), rhwng brodyr a chwiorydd, plentyn wedi ei fabwysiadu a rhiant a'i mabwysiadodd, nain neu daid ag ŵyr neu wyres, neu riant maeth a phlentyn maeth. Ni ddylai awdurdodau cyhoeddus ymyrryd ym mywyd teuluol person oni bai bod yr ymyrraeth yn gyfreithiol ac yn gymesur.

**Cartref** – Mae gan bawb yr hawl i fwynhau byw yn ei gartref heb i awdurdodau cyhoeddus ymyrryd neu eu hatal rhag mynd iddo neu fyw ynddo.

Mae gan bobl hefyd hawl i fwynhau eu cartrefi'n heddychlon. Does dim rhaid i berson fod yn berchen ar ei gartref i fwynhau'r hawliau hyn. Gall 'cartref' person gynnwys adeilad eu busnes.

Gall hawl i barch at gartref rhywun olygu, er enghraifft, bod rhaid i'r wladwriaeth gymryd camau cadarnhaol fel y gall pobl fwynhau eu cartref yn heddychlon, er enghraifft, trwy leihau sŵn awyrennau neu atal llygredd amgylcheddol difrifol.

**Gohebiaeth** – Mae Erthygl 8 yn cynnwys hawl i barch at ohebiaeth. Unwaith eto, mae'r diffiniad o 'ohebiaeth' yn eang, a gall gynnwys cyfathrebu trwy lythyr, ffôn, ffacs, neges destun neu e-bost.

## A yw Erthygl 8 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 8 yn berthnasol yn benodol os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- cael hawl i weld, trafod neu ddatgelu gwybodaeth bersonol
- mynediad i eiddo (gan gynnwys busnesau)
- darparu neu reoli tai
- gwyliadwriaeth neu ymchwiliad
- delio â theuluoedd neu blant
- rheoli ceiswyr lloches neu fewnfudwyr
- trafod materion amgylcheddol, fel rheoli gwastraff neu lygredd
- darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol.

## Beth sydd angen i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- ABod yn effro bob amser i bolisïau neu weithrediadau a allai ymyrryd â hawl person mewn perthynas â'u bywyd preifat a theuluol, eu cartref neu eu gohebiaeth.
- Ble bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau nad yw ei bolisïau neu ei benderfyniadau yn ymyrryd â hawl person i barch fywyd preifat a theuluol, at gartref a gohebiaeth.
- Os yw awdurdod cyhoeddus yn penderfynu y byddai'n anodd osgoi ag ymyrryd â hawliau Erthygl 8 person, bydd rhaid iddo wneud yn siŵr bod y polisi neu'r weithred yn angenrheidiol, yn dilyn un o'r amcanion cyfreithlon a hefyd yn gymesur â'r amcan hwnnw. Gellir gofyn i awdurdod cyhoeddus gyflwyno rhesymau dros ei benderfyniadau.
- Hefyd efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ystyried a oes yna sefyllfaoedd yn eu rhoi dan orfodaeth i gymryd camau pendant i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau Erthygl 8 person rhag ymyriad systematig gan drydydd partïon, er enghraifft, busnesau preifat.

## Erthygl 8 yn ymarferol

**Cydbwyso** – Mae Erthygl 8 yn un o hawliau'r Cytundeb sy'n gofyn i chi gydbwyso hawliau preifat person ac anghenion pobl eraill neu'r gymdeithas gyfan (gweler 'Cydbwyso hawliau un person â rhai'r gymdeithas' ar dudalen 70).

Gall yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol person, at gartref a gohebiaeth o dan Erthygl 8 fod yn berthnasol mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys:

- archwiliadau o gartrefi a'r defnydd o offer gwyliadwriaeth gudd, tebyg i ddyfeisiadau gwrando
- anghydfod cyfraith deuluol neu achosion lloches, lle mae yna berygl y bydd teulu'n cael ei wahanu
- hawliau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (hefyd mae datblygiadau diweddar mewn cyfraith ddomestig yn y maes hwn, megis y Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003 – sydd erbyn hyn yn rhan o'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010)
- hawliau pobl drawsrywiol (sydd, i raddau helaeth, yn rhan o'r gyfraith ddomestig drwy'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
- rhai agweddau o hawliau carcharorion, er enghraifft , hawl i dderbyn gohebiaeth bersonol
- hawl Sipsiwn a Theithwyr i barch at eu hunaniaeth a'u diwylliant
- hawliau pobl sy'n defnyddio gofal iechyd neu ofal cymdeithasol i gael eu trin â pharch at eu hurddas a'u hymreolaeth bersonol
- hawliau gweithwyr cyflog y sector gyhoeddus i breifatrwydd, gan gynnwys monitor e-byst a galwadau ffôn heb ganiatâd y gweithiwr
- gosod amodau côd gwisg orfodol afresymol neu orfodi profion cyffuriau ar weithwyr cyflog y sector gyhoeddus
- y defnydd o Gamerâu Cylch Cyfyng a chyfnewid eu data
- hawl yr unigolyn i wrthod triniaeth feddygol

- hawliau rhoddwyr wyau a sberm a phlant gaiff eu geni o ganlyniad i ffrwythloni artiffisial
- gallu'r cyfryngau i adrodd am fanylion bywydau preifat pobl enwog.

Fel yr eglurir uchod, bydd a yw hawliau Erthygl 8 yn cael eu torri yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos. Gall awdurdod cyhoeddus ymyrryd yn hawliau Erthygl 8 rhywun, os bydd hynny'n cael ei ganiatáu gan y gyfraith, ei fod yn hanfodol ac yn fodd cymesur o gyflawni un o'r amcanion dilys a bennir gan Erthygl 8(2).

**Astudiaeth achos:**

***Bwrdeistref Hillingdon, Llundain v Steven Neary (2011)***

Roedd hwn yn achos yn ymwneud â gŵr 21 mlwydd oed yn dioddef o awtistiaeth plentyndod ac anableddau dysgu dwys ac yn byw gyda'i dad, Mr Neary, a oedd hefyd yn gofalu amdano. Roedd Steven angen cefnogaeth ac arolygiaeth barhaus, a châi Mr Neary ei helpu gan becyn gofal helaeth a ddarparwyd gan Gyngor Hillingdon. Yn 2009, derbyniodd yr awdurdod lleol Steven gofal seibiant am ychydig ddyddiau, ond yn dilyn hyn, fe'i cadwyd yno am flwyddyn, er gwaethaf taerineb Mr Neary mai'r lle gorau i Steven oedd gydag ef.

Roedd y dyfarniad yn yr achos yn canolbwyntio ar anghyfreithlondeb caethiwo Steven dan Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), diddymu'r hawl i barch at breifatrwydd a bywyd teuluol dan Erthygl 8, a methu ag ystyried goblygiadau cadw Steven oddi wrth ei deulu am gyfnod hir.

Roedd un agwedd o dorri ar reolau Erthygl 8 wedi ei seilio ar fethiant y cyngor i wrando ar gwynion Mr Neary. Dywedodd y llys: 'Roedd agwedd Hillingdon yn golygu nad oedd modd archwilio'n llawn y sefyllfa roedd wedi ei chreu. Yn ystod yr wythnosau ar ôl derbyn Steven, llwyddodd i drechu gwrthwynebiad Mr Neary. Ni wrandawodd yn ddifrifol ar ei wrthwynebiadau ac roedd yr awgrym y gallai dynnu'r gefnogaeth yn ôl i Steven yn y cartref bob amser yn mynd i gael effaith andwyol. Unwaith y cafodd gwrthwynebiad Mr Neary ei dawelu, ni chafodd y cwestiwn a oedd Steven yn y lle cywir unrhyw asesiad cytbwys.

**Astudiaeth achos:**

### *Connors v y Deyrnas Unedig (2004)*

Roedd teulu wedi ymgartrefu ers tua 13 mlynedd ar safle oedd yn cael ei darparu gan y cyngor ar gyfer pobl â ffordd o fyw grwydrol. Yna penderfynodd y cyngor eu troi allan am achosi niwsans, gan ddefnyddio'r drefn troi allan diannod. Heriodd y teulu benderfyniad y cyngor ar y sail bod eu troi allan o'r safle'n doriad na ellir ei gyfiawnhau o'r hawliau yn Erthygl 8. Daeth y Llys i'r penderfyniad nad oedd y fframwaith gyfreithiol sy'n berthnasol i feddiannu lleiniau ar safleoedd Teithwyr awdurdodau lleol yn rhoi i'r teulu amddiffyniad gweithdrefnol o'u hawliau. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'w hanghenion a'u ffordd grwydrol o fyw oherwydd safle fregus Sipsiwn yn y gymdeithas. Ni ellir cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth a fyddai'n eu gwneud yn ddigartref oni bai bod y rhesymau'n ymwneud â lles y cyhoedd yn ddigon grymus. Dyfarnodd y Llys nad oedd y fath seiliau ac o'r herwydd roedd y penderfyniad yn torri Erthygl 8.

**Astudiaeth achos:**

### *AA v y Deyrnas Unedig (2011)*

Roedd y penderfyniad i alltudio dinesydd o Nigeria, oedd wedi treulio pedair blynedd yn y carchar ar ôl ei gyhuddo o drosedd ddifrifol, yn torri ar ei hawliau o dan Erthygl 8. Roedd ei ymddygiad ers cyflawni'r drosedd (pan oedd yn 15 oed) yn cael ei ddisgrifio fel 'rhagorol', gan gynnwys llwyddo i basio pynciau TGAU a lefel A, ennill gradd prifysgol a dod o hyd i swydd sefydlog. Daeth asesiad gwrthrychol i'r casgliad bod y risg y byddai'n aildroseddu'n isel. Roedd blynyddoedd ffurfiannol ei fywyd wedi cael eu treulio ym Mhrydain lle'r oedd y rhan fwyaf o'i deulu hefyd yn byw, ac ychydig iawn o gysylltiad oedd ganddo â Nigeria. Roedd hyn i gyd yn drech na'r rhesymau dros ei alltudio – difrifoldeb y drosedd a'r angen i amddiffyn y cyhoedd. Roedd y penderfyniad i'w alltudio'n ymyrraeth anghymesur â'i hawliau i fywyd teuluol a phreifat yn ôl Erthygl 8.

**Astudiaeth achos:**

### *Joseph Grant v y Deyrnas Unedig (2009)*

Yn ddinesydd o Jamaica, a oedd wedi byw ym Mhrydain am 34 mlynedd ers yn 14 oed, oedd â phedwar o blant Prydeinig ac ŵyr, nad oedd ac unrhyw gysylltiadau teuluol o bwys yn Jamaica, er hynny cafodd ei alltudio'n gyfreithiol. Roedd wedi cael ei gyhuddo a'i ddedfrydu am dros 50 o droseddau rhwng 1991 a 2006, ac, er na chafodd ei ddedfrydu i garchar am fwy na 12 mis am unrhyw un o'r troseddau hyn, cafodd gorchymyn i'w alltudio'i roi dan hawliau diamod yr Ysgrifennydd Cartref i orchymyn alltudio er lles y cyhoedd. Roedd graddfa a hyd y troseddau roedd wedi eu cyflawni, a'r risg y byddai'n cyflawni troseddau pellach, yn golygu bod y penderfyniad i alltudio'n gymesur, gan fod yn drech na'i hawl i fywyd teuluol a phreifat yn y DU.

**Astudiaeth achos:**

### *Onur v y Deyrnas Unedig (2009)*

Cafodd dinesydd o Dwrci, a gafodd hawl amhenodol i aros yn y DU, ei alltudio'n gyfreithlon ar ôl ei gael yn euog o gyfres o droseddau, gan gynnwys lladrad arfog, trosedd a arweiniodd at ei ddedfrydu i dros bedair blynedd o garchar. Er ei fod wedi byw gyda'i deulu yn y DU ers yn 11 oed, fod ganddo ddau o blant Prydeinig ac nad oedd ganddo fawr o gysylltiad â Thwrci, roedd difrifoldeb y lladrad a'r perygl y byddai'n aildroseddu'n drech na'r ymyrraeth â'i hawl i fywyd teuluol a phreifat yn ôl Erthygl 8.

**Astudiaeth achos:**

***Peck v y Deyrnas Unedig (2003)***

Ceisiodd dyn oedd yn dioddef o iselder gyflawni hunanladdiad trwy dorri ei arddyrnau yn y stryd. Ffilmiodd Camerâu Cylch Cyfyng y dyn yn cerdded i lawr y stryd gyda'i gyllell. Cafodd y lluniau'r camerâu wedyn eu cyhoeddi fel ffilm ac fel lluniau llonydd heb ei ganiatâd a heb guddio pwy oedd y gŵr. Penderfynodd Llys Iawnderau Dynol Ewrop , er nad oedd ffilmio a recordio'r digwyddiad o reidrwydd yn amharu ar ei breifatrwydd, fod datgelu lluniau'r Camerâu Cylch Cyfyng gan yr awdurdod lleol yn gyfystyr ag amhariad â'i hawl i fywyd preifat. Yn yr achos hwn doedd yna ddim rhesymau digonol i gyfiawnhau'r lluniau heb ganiatâd y dyn a heb guddio'i wyneb. Felly, roedd datgelu'r defnydd yn amhariad anghymesur â'i fywyd preifat.

## Enghraifft ymarfer:

Penderfynodd tîm anableddau awdurdod lleol ddarparu gweithwyr cynnal i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol. Aethpwyd â'r trigolion i nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol gan gynnwys ymweld â thafarndai a chlybiau. Gofynnodd un o'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, sy'n hoyw, i weithiwr cynnal fynd gydag ef i dafarn i hoywon ond gwrthododd rheolwr y cynllun ar y sail nad oedd unrhyw un o'i staff yn barod i fynychu lleoedd o'r fath. Yn dilyn hyfforddiant gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, sylweddolodd adfocad yn gweithio ar ran defnyddiwr y gwasanaeth y gellid hefyd defnyddio dadleuon hawliau dynol wedi eu seilio ar yr hawl i barch at fywyd preifat (Erthygl 8) i herio arferion o'r math hwn. (Darparwyd yr enghreifftiau gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain.)

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Mae gan bawb ryddid i arddel amrywiaeth eang o ddaliadau, credoau a meddyliau, ac i ddilyn ffydd grefyddol. Dim ond o dan rhai amgylchiadau y gellir cyfyngu ar yr hawl i arddel credoau hyn.

## Beth mae'r hawl yma'n ei olygu?

Mae rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd yn ofynion hanfodol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae amddiffyn yr hawl sylfaenol hon yn galw am gadw amrywiaeth a lluosogaeth mewn cymdeithas. Dylai awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am amddiffyn a chynnal yr hawl hwn geisio aros yn niwtral ac yn ddiduedd, gan hyrwyddo cyd-oddefgarwch yn hytrach na gwrthdaro rhwng y rhai sy'n arddel credoau gwahanol. Mae Adran 13 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn mynnu bod llysoedd a thribiwnlysoedd yn talu sylw penodol i bwysigrwydd hawliau Erthygl 9 pan fo cwestiwn yn codi ynghylch hawl sefydliad crefyddol i weithredu'r hwn.

## Pwy sy'n cael ei amddiffyn?

Nid yw testun Erthygl 9 mewn gwirionedd ddim yn diffinio pwy sydd neu nad sydd wedi eu hamddiffyn; mae'r dasg honno'n cael ei gadael i'r llysoedd ei phenderfynu ar sail achosion unigol.

Wrth ddehongli Erthygl 9, mae'r llysoedd domestig wedi dyfarnu bod yn rhaid i gred ddilys sy'n cael ei dal yn ddilys a diffuant gael fagu grym, difrifoldeb a chydlyniad ynghylch agwedd bwysig o fywyd neu ymddygiad dynol. Mae'r trothwy ar gyfer arddangos hyn wedi ei osod ar lefel gymedrol yn hytrach nag un sylweddol.

Mae Erthygl 9 yn amddiffyn credoau crefyddol ac anghrefyddol; mae'n cynnwys rhyddid crefyddol a rhyddid oddi wrth grefydd. Mae'n amddiffyn hawliau unigolion a grwpiau/sefydliadau sy'n rhannu'r un credoau neu rai tebyg – mae grwpiau/sefydliadau yn cael eu hamddiffyn fel endid ac yn eu cymhwyster cynrychioladol.

Mae amrywiaeth eang o gredoau, meddyliau a chydwybod yn cael eu hamddiffyn gan Erthygl 9. Gellir gweld tabl gydag enghreifftiau o gredoau y mae'r Llysoedd wedi penderfynu sy'n cael, neu ydynt yn cael, eu hamddiffyn o dan Erthygl 9 yn: http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/employing-people/religion-or-belief-guidance-employers

## Gorgyffwrdd gyda hawliau eraill.

Gwahaniaethir rhwng credoau sy'n cael eu hamddiffyn o dan Erthygl 9, syniadau a barnau sy'n cael eu cynnwys yn Erthygl 10 (rhyddid mynegiant), a daliadau a gynhwysir yn Erthygl 2 o Brotocol 1 (yr hawl i addysg), er y gall yr hawliau hyn orgyffwrdd yn ymarferol.

Mewn achosion penodol, gall Erthygl 9 hefyd orgyffwrdd gydag Erthyglau 8 (yr hawl i fywyd preifat a theuluol), 11, (yr hawl i ymgynnull), 12 (yr hawl i briodi) a 14 (gwahardd gwahaniaethu). Yn benodol mae Erthygl 14 yn cydnabod crefydd fel un o'r meysydd lle gwaherddir

gwahaniaethu ac mae 'unrhyw statws arall' yn Erthygl 14 yn cynnwys credoau anghrefyddol hefyd. (Gweler 'Gwahardd gwahaniaethu' ar dudalen 53.)

## Y gwahaniaeth rhwng coleddu ac arddangos credoau.

Wrth ddehongli Erthygl 9, mae'r llysoedd domestig a Llys Hawliau Dynaol Ewrop yn gwahaniaethu rhwng, yn gyntaf, yr hawl i arddel credoau ac, yn ail, yr hawl i arddangos y credoau hynny.

Mae'r hawl i berson arddel a newid credoau yn absoliwt, sy'n golygu na chaniateir amharu o gwbl â'r agwedd hon o Erthygl 9.

Bydd y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â hawl person i amlygu ei gredoau, sy'n hawl cyfyngedig. Gellir cyfiawnhau amharu ar hawl amlygu os bydd meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Gall amlygu credoau ddigwydd trwy addoli, dysgu, arfer a chynnal gwasanaethau yn gyhoeddus a phreifat. I gael amddiffyniad o dan Erthygl 9, mae'n rhaid cael cysylltiad digonol rhwng y gred a'r amlygiad ohoni, ond dynododd cyfraith achos diweddar yn Llys Hawliau Dynol Ewrop nad oes raid i'r ddau fod yn 'llwyr gysylltiedig'. Yn gyffredinol mae ymrwymiadau crefyddol cydnabyddedig ac arferion unigol yn ymwneud â chredoau fel arfer yn cael eu hamddiffyn o dan Erthygl 9.

Cyn cyfraith achos diweddar (*Eweida ac Eraill v y Deyrnas Unedig*), roedd y llysoedd o'r farn nad oedd yr hawl i amlygu cred yn cael ei amharu mewn amgylchiadau lle'r oedd gan yr unigolyn ddewis arall lle gallai gydymffurfio â'i gredoau – hyd yn oed pan oedd y dewis yn annheg, megis dewis ymddiswyddo i ganfod swydd fwy addas. Gwnaed eithriadau ar gyfer pobl nad oedd ganddyn nhw ddewis, ac a fyddai'n ei chael yn amhosibl neu'n eithriadol o anodd i gyflawni dyletswyddau trwy unrhyw fodd arall, megis carcharorion.

Yn ddiweddar penderfynodd Llys Iawnderau Dynol Ewrop wyro oddi wrth yr agwedd hon. Felly, erbyn hyn, gellir amharu ar Erthygl 9 hyd yn oed, er enghraifft, pan allai unigolyn ddewis dod o hyd i swydd neu ysgol arall a fyddai'n fodlon derbyn arddangos cred. Ni wyddys eto a fydd llysoedd domestig yn dilyn yr agwedd newydd hon mewn achosion yn y dyfodol.

## Cyfiawnhau amharu ar hawliau Erthygl 9

Er mwyn gallu cyfiawnhau amhariad o dan Erthygl 9(2), mae'n rhaid i'r amhariad â'r hawl i amlygu credoau person fod yn angenrheidiol, nid rhesymol yn unig, ac ni ddylai'r amhariad fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni amcan cyfreithiol. Y meini prawf penodol ar gyfer cyfiawnhau yw bod:

- bod gan yr amhariad sail gyfreithiol briodol
- ei fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd,
- a'i fod yn ateb un neu fwy o'r amcanion cyfreithiol cydnabyddedig canlynol: diogelwch cyhoeddus, amddiffyn trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau neu amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Mae'r hawl i arddangos credoau'n gyhoeddus weithiau'n gofyn cydbwyso anghenion unigolyn gydag ystyriaethau cystadleuol unigolion/grwpiau neu sefydliadau eraill, y gymuned ehangach neu'r gymdeithas gyfan.

Wrth asesu a ellir cyfiawnhau amharu ar hawliau Erthygl 9, mae'r Llysoedd wedi rhoi cryn dipyn o ryddid i'r awdurdodau cyhoeddus. O'i gymharu â hawliau dynol cyfyngedig eraill, nid yw'r trothwy presennol i gyfiawnhau amharu ag Erthygl 9 yn uchel iawn. Yn ymarferol, mae llawer yn dibynnu ar yr amgylchiadau perthnasol pob achos a faint o bwys sy'n cael ei roi ar bob ystyriaeth arall.

## Y ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol

Ers 2003, mae darpariaethau gwrth-wahaniaethu domestig ynghylch crefydd neu gred wedi cyd-fynd â hawliau Erthygl 9. Mae'r darpariaethau gwrth-wahaniaethu hynny erbyn hyn yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gwahardd aflonyddu ac erlid yn anghyfreithlon a gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol oherwydd crefydd neu gred mewn nifer o sefyllfaoedd, megis gwaith, addysg, wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth weithredu swyddogaethau cyhoeddus.

Gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol wedi ei seilio ar grefydd neu gred o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu amharu ar hawliau gwrthwahaniaethol, os yw'n gymesur ac yn gyfreithlon.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth briodol, wrth weithredu eu swyddogaethau, i ddileu ymddygiad sydd wedi ei wahardd, gan hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da (sy'n cael ei alw fel arfer yn ddyletswydd cydraddoldeb y sector gyhoeddus). Mae angen gweithredu mwy penodol hefyd, megis gosod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb (ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr). Mae crefydd neu gred yn un o'r nodweddion sy'n cael ei reoli gan yr ymrwymiadau cadarnhaol hyn.

Mae rhai grwpiau crefyddol, er enghraifft Iddewon a Sikhiaid, hefyd wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd nodweddion gwarchodedig eu hîl.

Mae yna rai eithriadau i'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## A yw Erthygl 9 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 9 yn berthnasol os ydych yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- gwneud neu arfer swyddogaethau cyhoeddus
- cyflenwi neu ddarparu gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd
- penodi a chyflogi pobl
- hyfforddi, dysgu neu addysg
- cynnal dyletswyddau a seremonïau crefyddol.

Nodir isod enghreifftiau o ba bryd y gallai Erthygl 9 (ac Erthygl 14) fod yn hynod o berthnasol:

- rhagweld a, lle bo hynny'n bosibl, cyfarfod ag anghenion gweithwyr a'r disgyblion sy'n gofyn am amser o'r ysgol ar gyfer gwyliau crefyddol
- gosod rheolau ynglŷn â gofynion gwisg yn y gwaith neu mewn sefydliadau addysg
- cyfarfod â gofynion dietegol neu rai crefyddol eraill carcharorion
- adolygu polisïau i benderfynu i ba raddau, mewn sefyllfaoedd penodol, y gall pobl fynegi a hyrwyddo eu credoau eu hunain.

- gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu dyletswyddau gwaith
- cynnal tyngu llwon, neu gofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau
- penderfynu sut mae gwasanaethau i'r cyhoedd yn cael eu darparu.

## Erthygl 9 yn ymarferol

I ddilyn ymarfer da, argymhellir y dylai awdurdod cyhoeddus adolygu polisïau, arferion neu benderfyniadau sy'n amharu ar hawl person i amlygu crefydd neu gred. Yn ddelfrydol dylid cynnal asesiad rhagweithiol, er enghraifft, i fodloni dyletswydd cyfartaledd y sector cyhoeddus, er y gellir cynnal adolygiad fel ymateb i fater a godwyd gan unigolyn.

Byddai cynnal deialog adeiladol yn helpu i wella cyd ddealltwriaeth a fyddai, yn ei dro, yn helpu i gymryd penderfyniadau cytbwys, gwrthrychol, y gellir eu cyfiawnhau. Byddai ddeialog o'r fath hefyd o help i beidio rhagdybio heb reswm ynghylch materion unigol sy'n cael eu codi ac ynghylch y credoau o dan sylw.

Dylai awdurdod cyhoeddus geisio dygymod â chrefydd neu gredo unigolyn os yn bosibl. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'n gweithredu mewn modd a allai amharu'n anghyfreithlon â hawl unigolyn i amlygu ei grefydd neu ei gred, a / neu amharu ar hawliau perthnasol eraill.

O dan rhai amgylchiadau, bydd angen asesiad pellach i gydbwyso ystyriaethau cystadleuol, megis yr effaith ar yr unigolyn, yr effaith ar eraill (megis staff, disgyblion/ myfyrwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth eraill) â'r costau neu'r amhariad ar y busnes. Bydd asesiad effeithiol yn nodi'n llawn ac yn ystyried yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael cyn mynd ymlaen i werthuso ble y dylai'r cydbwysedd iawn gael ei daro yn amgylchiadau pob achos.

Os ar ôl cynnal asesiad o'r fath, mae awdurdod cyhoeddus yn penderfynu y dylai ymyrryd â hawliau rhywun i amlygu crefydd neu gredo, dylai sicrhau bod y penderfyniad yn angenrheidiol, yn dilyn un neu ragor o'r amcanion cydnabyddedig cyfreithiol a'i fod yn gymesur i'r amcan hwnnw o dan Erthygl 9. Byddai'n ddoeth cofnodi'r broses benderfynu a rhesymu rhag ofn i'r penderfyniad gael ei herio.

**Astudiaeth achos:**

***Eweida v y Deyrnas Unedig (Ionawr 2013)***

Roedd penderfyniad British Airways i atal Nadia Eweida, aelod o staff oedd yn Gristion, rhag gwisgo croes wrth ei swydd gwasanaeth cwsmeriaid yn anghymesur ac roedd yn torri, heb gyfiawnhad, ei hawl yn ôl Erthygl 9 i amlygu ei chredoau yn y gwaith. Er nad oedd yna reidrwydd crefyddol arni i wisgo croes weladwy ac y gallai fod wedi cael swydd arall fyddai'n caniatáu iddi wneud hynny, daeth Llys Iawnderau Dynol Ewrop i'r casgliad bod gormod o bwysau wedi ei roi ar ddelwedd gorfforaethol y cyflogwr yn yr achos yma a dim digon ar hawl Ms Eweida i wisgo croes weladwy. Doedd caniatáu gwisgo croes weladwy ddim yn effeithio'n sylweddol ar ddelwedd gorfforaethol British Airways.

**Astudiaeth achos:**

### *Ladele v y Deyrnas Unedig (Ionawr 2013)*

Cafodd cofrestrydd priodas oedd yn Gristion a oedd yn gwrthod, oherwydd ei chredo grefyddol, â chynnal seremonïau partneriaethau sifil i gyplau o'r un rhyw, ei diswyddo ac fe hawliodd bod ei chyflogwr (cyngor Islington) wedi gweithredu'n groes i'w hawliau Erthygl 9, ymhlith haeriadau eraill. Gwrthododd llysoedd domestig a Llys Hawliau Dynol Ewrop ei honiadau. O ran Erthygl 9 penderfynwyd, pan fo hawliau eraill yn berthnasol, fod y gellid cyfiawnhau defnydd y cyflogwr o'i bolisi corfforaethol o 'gydraddoldeb ac urddas' i wrthod esgusodi'r aelod o staff o'r dyletswyddau penodol hynny. Nid oedd y cyflogwr wedi mynd y tu hwnt i'r disgresiwn helaeth sydd gan gyflogwyr i daro cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau cystadleuol. Cafodd y ddadl y dylai cyflogwr Ms Ladele fod wedi derbyn ei gwrthwynebiad o ran cydwybod hefyd ei wrthod.

**Astudiaeth achos:**

### *Begum v Prifathro a Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dinbych (2006)*

Roedd ysgol wedi cynnig nifer o ddewisiadau o wisg ysgol i ddisgyblion, ar ôl ymgynghori â mosgiau lleol ac nid oedd penderfyniad diweddarach yr ysgol honno i atal merch o ddisgybl Mwslemaidd rhag gwisgo ffurf o wisg waharddedig i'r ysgol (jilbab – sy'n edrych fel côt hir) ddim yn torri ar hawliau amlygu Erthygl 9 y disgybl, yn ôl Tŷ'r Arglwyddi.

Daeth y mwyafrif yn Nhŷ'r Arglwyddi (yn eistedd fel llys, ac ar y pryd y llys uchaf yn y DU) i'r casgliad nad oedd unrhyw amharu wedi bod ar hawl Erthygl 9 y disgybl i amlygu ei chrefydd yn yr achos hwn, gan ei bod wedi dewis ysgol lle 'roedd y fath bolisi'n bodoli a bod yna ysgolion eraill cyfagos y gallai fod wedi dewis eu mynychu ac a fyddai wedi caniatáu gwisgo'r jilbab, a'u galluogi i gydymffurfio â'i chredoau crefyddol.

**Astudiaeth achos:**

***R (Ghai) v Cyngor Dinas Newcastle upon Tyne (2010)***

Roedd gwahardd amlosgi mewn coelcerth angladdol yn yr awyr agored (yn wahanol i amlosgi mewn i adeilad sy'n gyfreithiol dan y Ddeddf Amlosgi 1902 a'r rheoliadau perthnasol) yn ymwneud â, ac yn amharu ar hawliau Erthygl 9 Mr Ghai fel Hindŵ. Roedd gan y gred bod angen ei amlosgi yn y modd y dymunai Mr Ghai pan fyddai farw gysylltiad ddigon agos â Hindwiaeth ac roedd yn fwy na mater o draddodiad.

Ar ôl ystyried a gwrthod y gwahanol ddewisiadau eraill yn hytrach nag amlosgi yn yr awyr agored fyddai'n dod o dan y Ddeddf Amlosgi, penderfynodd y Llys Apêl i ddiffinio'r gair 'adeilad' yn eang eang iawn fel y byddai'n cynnwys strwythurau arbennig fyddai'n hwyluso amlosgi yn yr awyr agored.

Roedd hyn yn caniatáu'r math o amlosgi oedd yn ateb gofynion crefyddol Mr Ghai (yn gyson â'u hawliau amlygu yn ôl Erthygl 9) ac oedd hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith ddomestig berthnasol.

**Astudiaeth achos:**

***R (Surayanda) v Gweinidogion Cymru (2007)***

Cafodd y penderfyniad i ladd bustach cysegredig (oedd yn eiddo i deml Hindŵaidd) a oedd yn dioddef o ddiciâu gwartheg (bTB), ar adeg pan oedd mesurau'n cael eu cymryd i reoli lledaeniad y clefyd yn yr ardal ei ystyried yn rhywbeth y gellid ei gyfiawnhau o dan Erthygl 9 gan y Llys Apêl.

Roedd ymyriad dwys a difrifol â chymuned benodol â hawl Erthygl 9 i amlygu eu cred yn yr angen i amddiffyn bywyd wedi ei orbwyso gan ystyriaethau cystadleuol eraill. Yn benodol roedd yr amcanion cyfreithiol i leihau effaith economaidd bTB, cynnal amddiffyniad iechyd y cyhoedd ac amddiffyn lles iechyd anifeiliaid yn gorbwyso hawliau Erthygl 9 y gymuned. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith bod y weithred wedi ei phennu gan y gyfraith, yn golygu bod y penderfyniad i ladd y bustach yn cael ei gyfiawnhau dan Erthygl 9.

Mae mwy o fanylion am y diffiniad o grefydd neu gredo mewn cydraddoldeb a chyfraith hawliau dynol i'w cael ar http://www.equalityhumanrights.com/your-rights/equal-rights/religion-and-belief and http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/employing-people/religion-or-belief-guidance-employers

# Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Mae gan bawb hawl i fod â daliadau a mynegi eu barn ar eu pen eu hunain neu mewn grŵp. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r daliadau'n amhoblogaidd neu'n peri pryder. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawl hwn.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae gan bawb hawl i fod â barn a daliadau, ac i glywed syniadau a derbyn gwybodaeth heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a hynny ar draws ffiniau. Mae'r hawl hefyd yn cynnwys hawl i fynegi barn. Er hyn, dyw'r Erthygl ddim yn atal taleithiau rhag gofyn am drwyddedu mentrau darlledu teledu neu sinemâu.

Gan fod yr hawl hwn yn cynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau, gall fod yn amodol ar ffurfiau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau, ond rhaid i'r rhain fod ar sail gyfreithiol gywir. Ac yn ogystal â hyn, rhaid i'r ymyrraeth fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd gan ddilyn un o'r amcanion cyfreithiol cydnabyddedig canlynol:

- lles diogelwch cyhoeddus, diogelwch cenedlaethol neu gywirdeb tiriogaethol
- atal anrhefn neu droseddau
- amddiffyn iechyd neu foesau
- amddiffyn enw da neu iechyd eraill
- atal datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol
- cynnal awdurdod a natur ddiduedd y farnwriaeth.

Ond rhaid i'r ymyrraeth fod yn angenrheidiol (nid rhesymol yn unig) ac ni ddylai wneud mwy na sydd ei angen i gyflawni'r amcan a ddymunir.

Mae Adran 12 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn gofyn i lysoedd a thribiwnlysoedd dalu sylw arbennig i bwysigrwydd hawliau Erthygl 10 wrth ystyried a ddylid caniatáu unrhyw iawn a allai effeithio arfer yr hawliau hynny.

### Geiriau allweddol a'u hystyron

**Mynegiad** – Gall 'Mynegiad' gynnwys meddu ar ddaliadau neu farnau, siarad yn uchel, cyhoeddi erthyglau neu lyfrau neu daflenni, darlledu ar y radio neu'r teledu, cynhyrchu gweithiau celf, cyfathrebu trwy gyfrwng y rhyngrwyd, rhai mathau o wybodaeth fasnachol a nifer o weithgareddau eraill. Gall hefyd gynnwys yr hawl i dderbyn gwybodaeth oddi wrth eraill, fel bod gennych chi hawliau fel siaradwr ac fel aelod o gynulleidfa. Gallwch fynegi eich hun mewn ffyrdd efallai na fydd pobl eraill yn eu hoffi, neu hyd yn oed eu cael yn dramgwyddus neu'n ysgytiol. Er hynny, byddai iaith dramgwyddus sy'n sarhau grwpiau hiliol neu ethnig penodol yn enghraifft o le y gellid gosod cyfyngiad neu fynegiad cyfreithiol.

## A yw Erthygl 10 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 10 yn berthnasol yn enwedig os ydych yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- gwaith darlledu, y cyfryngau neu'r wasg
- rheoli cyfathrebiadau neu'r rhyngrwyd

- ysgrifennu areithiau neu siarad yn gyhoeddus
- penderfyniadau'n ymwneud â darparu gwybodaeth, er enghraifft i bobl yn y ddalfa
- rheoleiddio neu blismona gwrthdystiadau gwleidyddol.

## Beth ddylai awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Bod yn effro bob amser i bolisïau neu weithrediadau a allai amharu ar hawl person i ryddid mynegiant.
- Lle bo hynny'n bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau nad yw ei bolisïau neu ei benderfyniadau'n amharu ar hawl person i ryddid mynegiant.
- Os yw awdurdod cyhoeddus yn penderfynu bod yn rhaid amharu ar hawliau Erthygl 10 rhywun, dylai sicrhau bod y polisi neu'r weithred yn angenrheidiol, yn dilyn un o'r amcanion cyfreithiol cydnabyddedig a bod hynny'n gymesur â'r amcan hwnnw. Efallai y bydd gofyn i'r awdurdod cyhoeddus gyflwyno rhesymau am ei benderfyniadau.

## Erthygl 10 yn ymarferol

Gall yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 fod yn berthnasol i feysydd megis gwrthdystiadau neu ymgyrchoedd gwleidyddol, gweithredu diwydiannol a staff sy'n 'chwythu'r chwiban'. Mae hefyd wedi bod yn bwysig iawn i'r cyfryngau. Mae hawliau'r wasg dan Erthygl 10 wedi gwrthdaro yn erbyn hawliau enwogion i breifatrwydd o dan Erthygl 8 mewn nifer o achosion amlwg. Hefyd, mae'r cysylltiad rhwng Erthygl 10 a'r gyfraith droseddol wedi derbyn sylw mewn nifer o achosion.

### Astudiaeth achos:

***Observer a'r Guardian v y Deyrnas Unedig (1991)***

Cyhoeddodd y *Guardian* a'r *Observer* ddyfyniadau o lyfr Peter Wright, Spycatcher, oedd yn cynnwys deunydd yn honni bod MI5 wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau anghyfreithlon. Llwyddodd y Llywodraeth i sicrhau gorchymyn llys i rwystro unrhyw gyhoeddi pellach nes bod achosion ynghylch tor cyfrinachedd wedi dod i ben. O'r herwydd, cafodd y llyfr ei gyhoeddi mewn gwledydd eraill ac yna yn y DU. Cwynodd y Guardian bod parhau â'r gorchymyn llys yn torri amodau Erthygl 10.

Penderfynodd Llys Iawnderau Dynol Ewrop er bod y gorchymyn llys yn gyfreithlon, gan ei fod er lles diogelwch y wladwriaeth, ond, unwaith roedd y llyfr wedi'i gyhoeddi, doedd yna ddim digon o reswm dros barhau â'r gwaharddiad ar ei gyhoeddi. Dylai'r gorchymyn llys fod wedi ei wyrdroi ar ôl i'r wybodaeth beidio â bod yn gyfrinachol.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

**Astudiaeth achos:**

### *Sunday Times v y Deyrnas Unedig (1979)*

Roedd y *Sunday Times* yn bwriadu cyhoeddi erthygl yn archwilio'r cefndir i gyflwyno'r cyffur thalidomid i'r farchnad Brydeinig a'r setliad oedd yn yr arfaeth o'r achosion yn erbyn y gwneuthurwyr gan blant a anafwyd gan y cyffur. Llwyddodd y Llywodraeth i sicrhau gorchymyn llys yn atal ei gyhoeddi ar y sail y byddai'n ddirmyg llys. Cwynodd y Sunday Times bod y gorchymyn llys yn torri amodau Erthygl 10.

Penderfyniad y Llys Iawnderau Dynol Ewrop oedd bod Erthygl 10 nid yn unig yn gwarantu rhyddid y wasg i hysbysu ond hefyd hawl y cyhoedd i gael eu hysbysu. Roedd o'r farn bod amodau Erthygl 10 wedi cael eu torri gan fod, yn achos y ffeithiau penodol hyn, budd y cyhoedd mewn rhyddid mynegiant yn bwysicach na chynnal awdurdod y farnwriaeth.

**Astudiaeth achos:**

### *Independent News and Media Ltd v A (2010)*

Gwnaeth Independent News and Media Limited gais i fynychu achos cyfreithiol y Llys Gwarchod oedd yn ymwneud â gŵr ifanc talentog iawn oedd ag anableddau dwys a oedd yn effeithio ar ei allu i reoli ei faterion ei hun, a gŵr yr oedden nhw a phapurau newydd eraill eisoes wedi cyhoeddi nifer o erthyglau ynglŷn â'i yrfa.

Mae Rheolau'r Llys Gwarchod 2007 yn gwahardd cyhoeddi gwybodaeth am weithrediadau neu wrandawiadau yn gyhoeddus, oni bai 'fod yna reswm da' dros orchymyn i'r gwrthwyneb, er mwyn gwarchod preifatrwydd unigolion bregus.

Wrth ystyried Erthygl 10, daeth y Llys Apêl i'r casgliad ei bod yn bosibl cymhwyso'r pryderon dilys am breifatrwydd gyda'r dyheadau cyfreithlon am hysbysrwydd. Nododd nad yw'r egwyddor na all Erthygl 10 roi hawl i gasglu gwybodaeth yn hawl absoliwt a phan fo'r wybodaeth o dan sylw'n cynnwys tystiolaeth a roddwyd mewn llys barn, gellir defnyddio Erthygl 10 o leiaf pan fo'r cyfryngau'n ceisio'r wybodaeth er mwyn ei ledaenu'n ehangach oherwydd ei fod er lles y cyhoedd.

Yma cafodd 'rheswm da' ei fodloni fel: (i) roedd yr ymatebydd yn hysbys i'r cyhoedd a bod yr holl wybodaeth oedd â hawl i'w gyhoeddi eisoes yn y maes cyhoeddus; a (ii) bod y Llys yn gallu diogelu preifatrwydd wrth ymdrin â'r materion yn yr achos.

# Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ag eraill

Mae gan bawb hawl i ymgynnull gyda phobl eraill mewn modd heddychlon. Mae ganddyn nhw hefyd yr hawl i gymdeithasu â phobl eraill sy'n cynnwys yr hawl i ffurfio undeb llafur. Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gellir cyfyngu ar yr hawliau hyn.

## Beth mae'r hawl yma'n ei olygu?

Mae gan bawb hawl i ymgynnull gyda phobl eraill mewn modd heddychlon a'r hawl i gymdeithasu â phobl eraill gan gynnwys yr hawl i ffurfio undeb llafur. Mae gan bawb hefyd hawl i beidio ag ymgynnull nac ymuno â chymdeithas os mai dyna'u dewis.

Gall yr hawl hwn gael ei gyfyngu os bydd y fath ymyrraeth â sail gyfreithiol briodol, ei fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocratig a'i fod yn dilyn un o'r amcanion cyfreithiol canlynol:

- diogelwch y wladwriaeth
- diogelwch cyhoeddus
- atal anrhefn neu droseddau
- amddiffyn iechyd neu foesau
- amddiffyniad hawliau a rhyddid eraill.

Ond rhaid i'r ymyriad fod yn angenrheidiol (nid yn rhesymol yn unig) ac ni ddylai wneud mwy na sydd ei angen i gyflawni'r amcan a ddewiswyd.

### Geiriau allweddol a'u hystyron

**Rhyddid i ymgynnull** – Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd statig, gorymdeithiau, gorymdeithiau cyhoeddus, a gwrthdystiadau. Rhaid i'r hawl gael ei arfer yn heddychlon, heb fygythiad o drais, ac yn unol â'r gyfraith.

**Rhyddid i gymdeithasu** – Mae hawl person i ryddid i gymdeithasu yn cynnwys: hawl i ffurfio plaid wleidyddol (neu gymdeithas anwleidyddol megis undeb llafur neu grŵp gwirfoddol arall); hawl i beidio ag ymuno a pheidio â bod yn aelod o'r fath gymdeithas neu o grŵp gwirfoddol arall. Mae hyn yn golygu na ellir gorfodi unrhyw i ymuno â chymdeithas neu undeb llafur, er enghraifft. Byddai unrhyw orfodaeth o'r fath yn torri amodau Erthygl 11.

## A yw Erthygl 11 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 11 yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n cymryd rhan yn unrhyw un o'r canlynol:

- gwneud penderfyniadau ynglŷn â phrotestiadau, gwrthdystiadau neu orymdeithiau
- cysylltiadau diwydiannol
- creu polisïau.

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

Bod yn effro bob amser i bolisïau neu weithrediadau a allai ymyrryd â hawl person i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu ag eraill.

Lle bo hynny'n bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau bod ei bolisïau neu ei benderfyniadau'n hyrwyddo protest heddychlon heb amharu ar ryddid person i ymgynnull yn heddychlon a chymdeithasu ag eraill.

Os bydd awdurdod cyhoeddus yn penderfynu bod rhaid ymyrryd â hawliau person o dan Erthygl 11, dylai sicrhau bod y polisi neu'r gweithredu'n angenrheidiol, yn dilyn un o'r amcanion cyfreithiol a'i fod yn gymesur â'r amcan hwnnw. Gellir gofyn i awdurdod cyhoeddus gyflwyno rhesymau am ei benderfyniadau.

## Erthygl 11 yn ymarferol

**Cyfyngiadau** – Mae gan y wladwriaeth hawl i gyfyngu ar hawliau Erthygl 11 aelodau o'r lluoedd arfog, yr heddlu a'r gwasanaeth sifil, cyhyd ag y gellir cyfiawnhau'r cyfyngiadau hyn. Mae hyn wedi ei seilio ar y syniad ei bod yn amcan cyfreithiol cymdeithas ddemocrataidd y dylai'r bobl yma fod yn wleidyddol niwtral, ac felly bod cyfiawnhad mewn eu rhwystro rhag cael eu cysylltu'n agos ag achos gwleidyddol.

### Enghraifft ymarfer

Mae'r heddlu yn cydnabod eu hymrwymiad cyfreithiol i hyrwyddo gwrthdystio cyhoeddus.

Ym Mis Awst 2010, roedd yr 'English Defence League' yn bwriadau protestio yn Bradford. Roedd gwrth-brotest gan 'Unite Against Fascism' hefyd wedi ei threfnu. Doedd rhai pobl leol ddim yn croesawu'r brotest ac eisiau ei gwahardd. Ofnid trais, gan fod protestiadau blaenorol gan EDL wedi arwain at wrthdaro treisgar.

Roedd gan Heddlu Gorllewin Swydd Efrog ddyletswydd i warchod y brotest oni bai fod yna dystiolaeth glir y byddai trais yn digwydd. Fe hwyluson nhw'r brotest trwy gynnal asesiad effaith hawliau dynol, gan gysylltu â phobl, yn enwedig y gymuned Fwslemaidd yn Bradford, gan drafod yr hawl i brotest heddychlon. Er nod oedd rhai pobl yn y gymuned yn fodlon ar y dechrau, fe sylweddolon nhw fod rhaid i'r heddlu ganiatáu'r brotest, a bu cydweithrediad rhyngddyn nhw a'r heddlu i geisio darbwyllo pobl ifanc i beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol o gwmpas y brotest.

# Erthygl 12: Hawl i briodi a sefydlu teulu

Mae gan ddynion a merched hawl i briodi a chychwyn teulu. Mae'r gyfraith genedlaethol yn dal i reoli sut ac ar ba oed y gall hyn ddigwydd.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae gan ddynion a merched hawl i briodi a sefydlu teulu cyhyd â'u bod o oed priodi, a bod y briodas yn un a ganiateir o dan y gyfraith genedlaethol. Nid yw Erthygl 12 ddim yn mynnu bod y wladwriaeth yn rhoi hawl i gyplau o'r un rhyw briodi . Mae gan wladwriaethau hawl i ddefnyddio'i disgresiwn eang i gydnabod priodasau un rhyw yn gyfreithiol os mai dyma yw eu dymuniad. Os yw gwladwriaethau'n dewis caniatáu priodasau un rhyw fe fydd yn rhaid iddyn nhw sicrhau nad oes yna unrhyw wahaniaethu na ellir ei gyfiawnhau rhwng cyplau un rhyw a chyplau o ryw gwahanol sy'n dewis priodi. Gall cyfraith genedlaethol reoleiddio ffurf, amodau a'r gallu i briodi ond rhaid i'r wladwriaeth beidio â gorfodi cyfyngiadau sy'n amharu ar hanfod gwirioneddol yr hawl.

Mae Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn ailddatgan hawliau, rhyddid ac egwyddorion a gydnabyddir yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd, ac sy'n berthnasol i sefydliadau a chyrff yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal ac i Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd pan maent yn gweithredu oddi fewn i gwmpas cyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd yr hawliau eu seilio ar yr hawliau sylfaenol a'r rhyddid sy'n cael eu cydnabod gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, traddodiadau cyfansoddiadol Aelod-wladwriaethau'r Undeb a chonfensiynau rhyngwladol eraill mae'r Undeb Ewropeaidd neu ei Aelod-wladwriaethau'n rhan ohonyn nhw. Mae Erthygl 9 y Siarter wedi diweddaru geiriad yr hawl i briodi i gynnwys achosion lle mae deddfwriaeth genedlaethol yn cydnabod trefniadau heblaw priodas fel sail i sefydlu teulu, h.y. nid priodas yw'r unig ffordd i sefydlu bywyd teulu sydd â hawl i gael ei amddiffyn rhag ymyrraeth oddi wrth y wladwriaeth. Ym Mhrydain, mae amddiffyniad hefyd i unedau teuluol heblaw parau priod a phartneriaethau sifil un rhyw. Er hynny, mae Llys Iawnderau Dynol Ewrop wedi penderfynu yn *H v Ffindir* (2012) nad yw hyn yn effeithio ar y sefyllfa gyffredinol dan Erthygl 12 y Confensiwn sy'n nodi y gall gwladwriaethau, ond nad oes raid iddyn nhw, wneud darpariaethau ar gyfer priodi cyplau o'r un rhyw, a dyna hefyd yr achos dan hawliau perthnasol eraill y Confensiwn megis Erthygl 8 ac 14 (gweler hefyd ddyfarniad y llys yn *Schalk & Kopf v Awstria (2010)*).

## A yw Erthygl 12 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Erthygl 12 yn berthnasol yn enwedig os ydych yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- cofrestru priodasau neu bartneriaethau sifil
- gwneud penderfyniadau ar driniaeth ffrwythlondeb
- gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwy all ddod i mewn i, ac aros yn y DU.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

Os yw awdurdod cyhoeddus yn cymryd penderfyniad sy'n effeithio ar hawl rhywun i briodi, ymrwymo i bartneriaeth sifil neu sefydlu teulu, yna rhaid bod yn hynod o ofalus a sicrhau bod y penderfyniad yn unol â'r gyfraith berthnasol.

## Erthygl 12 yn ymarferol

### Pobl drawsrywiol

Yn achos *Goodwin v y DU* (2002), dadleuodd yr ymgeiswyr bod y ffaith bod llywodraeth y DU i gydnabod yn gyfreithiol eu bod wedi newid rhyw yn barhaol yn gyfystyr ag amhariad ar eu hawl i fywyd teuluol oherwydd na allen nhw, yn gyfreithiol, briodi rhywun o'r rhyw arall. Penderfynodd y llys y cafodd eu hawliau Erthygl 12 (ac Erthygl 8) eu tramgwyddo heb gyfiawnhad. Mae'r Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004 erbyn hyn yn caniatáu i bobl trawsrwyiol gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhyw newydd, ac ar ôl derbyn cydnabyddiaeth, briodi person o'r rhyw arall. Yn *R & F v y Deyrnas Unedig (2006)* a *Parry v y Deyrnas Unedig (2006)*, penderfynodd y llys nad yw'r gofyniad i ddod â phriodas i ben unwaith bydd un aelod ohoni yn newid rhyw (ac mai effaith hynny yw newid o berthynas o un rhwng dau o wahanol ryw i berthynas rhwng dau o'r un rhyw) yn torri ar ofynion Erthygl 12. Gan nad oedd yna gonsensws yn datblygu ynglŷn â'r diffiniad o briodas ar draws y 47 gwladwriaeth a'i llofnododd, a bod arferion yn amrywio'n helaeth rhyngddyn nhw (gyda dim ond ychydig yn cydnabod priodasau unrhyw), ni allai'r llys orfodi gofynion priodas unffurf; yr awdurdodau cenedlaethol sydd yn y sefyllfa orau i asesu ac ymateb i anghenion cymdeithas yn y cyd-destun arbennig hwn.

### Priodas gyfunryw

Cafodd y ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 17 Gorffennaf 2013 a gwnaeth y Llywodraeth drefniadau fel bod priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw wedi digwydd ers diwedd Mawrth 2014.

Dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r Ddeddf yn berthnasol a derbyniodd deddfwriaeth gyffelyb yn ymwneud â'r Alban Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014. Mae'r Ddeddf:

- yn caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi mewn seremonïau sifil
- yn caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi mewn seremonïau crefyddol, os yw'r sefydliad crefyddol wedi 'optio i mewn' i gynnal y fath seremonïau
- yn amddiffyn y sefydliadau crefyddol hynny a'u cynrychiolwyr sy'n dymuno peidio â chynnal priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw rhag her gyfreithiol lwyddiannus
- yn galluogi partneriaid sifil i newid eu partneriaeth i briodas, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny
- yn galluogi unigolion priod i newid eu rhyw gyfreithiol heb orfod dod â'u priodas i ben.

Bydd y trefniadau i ganiatáu newid partneriaethau sifil i briodasau a chaniatáu pobl sy'n newid eu rhyw yn gyfreithiol i ddal i fod yn briod, yn dod i rym tua diwedd 2014.

## Astudiaeth achos:

### *O'Donoghue ac Eraill v y Deyrnas Unedig (2010)*

Penderfynwyd bod cynllun gan y llywodraeth oedd yn codi tâl ar rai mewnfudwyr i briodi, ond nid pe byddai'r briodas yn Eglwys Loegr, yn wahaniaethol. Bwriad y cynllun tystysgrif cymeradwyaeth yn wreiddiol oedd ymdrin â phriodasau ffug.

Roedd Mr Iwu, dinesydd o Nigeria oedd yn byw yng Ngogledd Iwerddon am briodi ei bartner, Ms O'Donoghue. Roedd y ddau yn Gatholigion mewn gair a gweithred. Er mwyn priodi mewn Eglwys Gatholig, roedd rhaid i Mr Iwu gael caniatâd oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a thalu £295 gan ei fod dod o dan y rheolau mewnfudo.

Penderfynodd Llys Iawnderau Dynol Ewrop fod yr hawl i briodi o dan Erthygl 12 wedi'i dorri. Roedd y broses ymgeisio yn ei gwneud yn glir nad oedd y rheolau hyn yn berthnasol i gyplau oedd am briodi yn Eglwys Loegr, hefyd doedd y broses ddim yn ystyried amgylchiadau achosion unigol i benderfynu a oedd y briodas yn un ffug. Dyfarnwyd fod y cynllun yn gwahaniaethu ar sail crefydd ac ni allai'r llywodraeth gynnig unrhyw gyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol am y gwahaniaeth mewn triniaeth.

Diddymodd y Llywodraeth y cynllun ar 9 Mai 2011.

# Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Wrth gymhwyso hawliau eraill y Confensiwn, mae gan bobl hawl i beidio â chael eu trin yn wahanol oherwydd eu tras, crefydd, rhyw, barn gyfreithiol neu unrhyw statws arall, oni bai fod yna 'gyfiawnhad gwrthrychol' dros eu trin yn wahanol.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

Mae gwahaniaethu'n golygu trin pobl yn wahanol i eraill nid yn unig oherwydd nodwedd arbennig (tras, rhyw, tueddfryd rhywiol, ac ati). Mae yna ddau fath o wahaniaethu. Gelwir hyn yn wahaniaethu uniongyrchol. Mae triniaeth sy'n ymddangos yn niwtral yn creu anfantais anghymesur i bobl gyda nodweddion arbennig, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn rhannu'r un nodweddion, yn cael ei alw'n wahaniaethau anuniongyrchol. Mae Erthygl 14 Llys Iawnderau Dynol Ewrop yn rhoi hawl i bobl i gael eu hamddiffyn yn erbyn y ddau fath o wahaniaethu mewn perthynas â phob hawl arall sy'n cael eu gwarantu yn y Confensiwn. Mae'n golygu fod gan bawb yr un hawl i fanteisio ar yr hawliau hynny. Mae hyn yn golygu hefyd na ellir gwrthod iddyn nhw fanteisio i'r un graddau a phobl eraill ar sail eu 'statws' personol.

## Sut mae Erthygl 14 yn gweithio?

Dim ond ar gyfer amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn wahanol wrth arfer eu hawliau Confensiwn eraill y mae Erthygl 14 yn gweithio. Nid yw'n rhoi hawl gyffredinol i bobl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn wahanol ym mhob maes o'u bywyd (mae'r fath amddiffyniad i'w gael yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn achos rhai materion a drafodir yn Erthygl 14, ond nid bob un). Mae strwythur Erthygl 14 yn golygu bod angen i berson ddangos bod ffeithiau'r achos yn dod o dan sgôp Confensiwn cyn y gellir defnyddio'r amddiffyniad di-wahaniaethu. Er hynny, does dim rhaid i'r person hwnnw hawlio fod yna doriad gwirioneddol o'r hawl cyn gallu dibynnu ar Erthygl 14. Does dim ond rhaid iddyn nhw ddangos bod cynnwys hawl y Confensiwn yn berthnasol.

## Ar ba sail y caiff gwahaniaethu ei wahardd?

Mae Erthygl 14 yn rhoi'r canlynol fel enghreifftiau o seiliau gwahaniaethu nad yw'r Erthygl yn eu caniatáu:

- rhyw
- tras
- lliw
- iaith
- crefydd
- barn wleidyddol neu farn arall
- tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol
- cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol
- eiddo
- genedigaeth.

Er hynny, yn bwysig iawn, mae Erthygl 14 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail 'statws arall' hefyd. Mae hyn yn golygu nad yw'r categorïau yn rhai caeedig. Gellid defnyddio 'statws arall' felly i amddiffyn pobl ar sail, er enghraifft:

- tueddfryd rhywiol
- a yw person wedi ei eni y tu fewn neu'r tu allan i briodas

- anabledd
- statws priodasol
- oed
- aelodaeth o undeb llafur
- digartrefedd.

## A yw triniaeth wahaniaethol yn dderbyniol o gwbl?

Nid yw triniaeth wahaniaethol bob amser yn gwahaniaethu os oes cyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol drosto. Gall fod yn gyfreithlon trin pobl yn wahanol yn ôl eu statws personol – er enghraifft mae'n gyfreithiol gosod cyfyngiadau ar gyflogi pobl o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os yw grwpiau gwahanol yn cael eu trin yn wahanol, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ddangos ei fod yn ceisio cyflawni amcan cyfreithlon a bod y driniaeth wahaniaethol yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r amcan. Dim ond rhesymau da fydd yn cael eu derbyn, ac os oes gwahaniaeth mewn triniaeth ar sail rhyw neu dras, rhaid bod yna resymau cryf iawn drosto. Gelwir hyn yn gyfiawnhad.

Mae yna sawl ffordd y gall Erthygl 14, ar y cyd â hawl arall o dan y Confensiwn, gael ei gymhwyso ar gyfer sefyllfaoedd a allai fod yn wahaniaethol.

Er enghraifft:

- Efallai nad yw'r wladwriaeth yn torri hawl person i addysg os nad yw'n darparu math arbennig o addysg. Ond os yw'r wladwriaeth yn ei ddarparu i fechgyn ond nid i ferched, neu i bobl sydd ond yn siarad iaith arbennig ac nid unrhyw iaith arall, gallai hyn fod yn gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawl i addysg. Os felly, gallai'r bobl sy'n cael eu heffeithio ddibynnu ar eu hawliau o dan Erthygl 14 (peidio â gwahaniaethu) ar y cyd â Phrotocol 1, Erthygl 2 (addysg).
- Mae'n annhebygol o fod yn doriad ar yr hawl i barch at eich eiddo os yw'r wladwriaeth yn gosod math o dreth arbennig arno – mae Protocol 1, Erthygl 1 yn benodol yn cadw hawl y wladwriaeth i asesu a chasglu trethi. Ond os yw'r wladwriaeth yn codi treth ar rai pobl ond nid ar bobl eraill yn yr un sefyllfa, yna gallai hynny fod yn doriad o Erthygl 14 mewn perthynas â'r hawl i barch at eiddo. Os felly, gallai'r bobl sy'n cael eu heffeithio ddibynnu ar eu hawliau o dan Erthygl 14 (peidio â gwahaniaethu) ar y cyd â Phrotocol 1, Erthygl 1 (eiddo).

Defnyddiwyd Erthygl 14 yn llwyddiannus o dan y Ddeddf Iawnderau Dynol ar ran cwpwl hoyw oedd yn dymuno cael eu trin yr un modd â chwpwl heterorywiol fel bod un partner yn olynu un arall dan denantiaeth (gweler astudiaeth achos).

## A yw Erthygl 14 yn berthnasol i'm gwaith i?

Mae Erthygl 14 yn berthnasol i bawb sy'n gweithio mewn awdurdodau cyhoeddus. Bydd yn berthnasol pan fydd unrhyw un o hawliau'r Confensiwn ar waith – yn enwedig o dan unrhyw amgylchiadau lle mae gwahanol grwpiau'n cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol.

## Beth mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Lle mae hynny'n bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau nad yw'n bosibl i unrhyw bolisïau neu benderfyniadau arwain at wahaniaethu ar unrhyw sail.
- Os oes raid trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, dylid sicrhau bod yna gyfiawnhad gwrthrychol dros drin yn wahanol.
- Dylai awdurdod cyhoeddus asesu ei bolisïau a'i weithrediadau sy'n berthnasol i'r hawliau o dan y Confensiwn i nodi unrhyw effaith gwahaniaethol. O ran y nodweddion sy'n cael eu hamddiffyn gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae hynny'n yn gorgyffwrdd â'i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Dylai awdurdod cyhoeddus ddogfennu ei benderfyniadau gan ei bod yn bosib y gofynnir iddo gyflwyno rhesymau am y penderfyniadau hynny.

## Erthygl 14 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***R (L ac eraill) v Cyngor Dinas Manceinion ac achos arall (2001)***

Roedd Cyngor Dinas Manceinion yn talu llai o lwfansau i ofalwyr maeth oedd yn aelodau o'r teulu nac i ofalwyr oedd yn edrych ar ôl plant heb fod yn perthyn iddyn nhw. Roedd dau deulu oedd â phlant maeth o'u teulu eu hunain yn honni bod y taliadau mor annigonol fel eu bod yn amharu ar les y plant. Roedden nhw hefyd yn dadlau bod y taliadau'n gwahaniaethu; roedd y ffaith nad oed y cyngor yn seilio ei amcangyfrifon ar anghenion ariannol y teuluoedd yn dangos nad oedden nhw wedi ystyried y gallai fod yna berygl o dorri hawl Erthygl 8 (yr hawl i fywyd preifat a theuluol). Dyfarnodd y llys fod yn rhaid i awdurdod lleol, o dan Erthygl 8, gymryd 'pob cam positif addas' i alluogi plant i fyw gyda'u teuluoedd, os nad oedd ystyriaethau ynghylch lles y plant yn arwain at gasgliad gwahanol. Roedd talu lwfansau maeth yn dod o fewn y dyletswyddau positif hyn ac ni ddylid eu tal mewn modd sy'n gwahaniaethu. Roedd yna wahaniaeth anghymesur mewn trin ar sail 'statws teuluol', ac nid oedd y cyngor yn gallu cyfiawnhau hyn. Roedd hynny'n golygu bod y polisi'n groes i Erthygl 8 ac Erthygl 14.

**Astudiaeth achos:**

***Ghaidan v Godin-Mendoza (2004)***

Roedd Mr Godin-Mendoza yn rhannu fflat â'i bartner o'r un rhyw, a'r partner hwnnw oedd tenant y fflat. Pan fu farw'r tenant hawliodd y perchennog feddiant. Dyfarnodd barnwr y llys sirol na allai Mr Godin-Mendoza olynu i denantiaeth y fflat dan y Ddeddf Rhent 1977. Gallai olynu i denantiaeth sicr fel aelod o deulu'r tenant gwreiddiol – ond roedd hynny'n statws llai manteisiol. Gwyrdrôdd y Llys Apêl y penderfyniad hwn o blaid Mr Godin-Mendoza, ac fe apeliodd y perchennog. Roedd Tŷ'r Arglwyddi (yn eistedd fel llyw, ac ar y pryd, y llys uchaf yn y DU) o'r farn bod y dehongliad o'r Ddeddf Rhent gyd-fynd â'r hawl i barchu cartref person sy'n cael ei warantu o dan Erthygl 8 a rhaid i'r dehongliad beidio â bod yn wahaniaethol ac ni ddylai wahaniaethu ar sail tueddiadau rhywiol oni bai y gellid cyfiawnhau hyn. Yn yr achos hwn doedd gan y gwahaniaethu ddim amcan cyfreithiol a doedd dim rheswm reswm da drosto – roedd yr ystyriaethau polisi cymdeithasol sy'n berthnasol i bobl briod hefyd yr un mor berthnasol ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Roedd y gwahaniaethu o'r fath yn torri Erthygl 14, o'i darllen ar y cyd ag Erthygl 8. Defnyddiodd y llys ei bwerau i ddehongli o dan y Ddeddf Hawliau Dynol i ganiatáu darllen y Ddeddf Rhent mewn modd a oedd yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn – hynny yw, fel petai'r person mewn partneriaeth un rhyw sy'n goroesi yn bartner y tenant gwreiddiol. Cafodd apêl y perchennog ei gwrthod.

# Protocol 1, Erthygl 1: Amddiffyn eiddo

Mae gan bawb hawl i fwynhau eu heiddo mewn heddwch. Fel arfer ni all awdurdodau cyhoeddus ymyrryd ag eiddo neu nwyddau peron neu'r modd y maen nhw'n cael eu defnyddio heblaw o dan amgylchiadau cyfyngedig penodol.

## Beth mae'r hawl yma'n ei olygu?

Mae yna dair elfen i amddiffyn eiddo dan Brotocol 1, Erthygl 1:

- mae gan berson yr hawl i fwynhau eu heiddo mewn heddwch.
- all awdurdod cyhoeddus ddim cymryd yr hyn sy'n eiddo i rywun
- all awdurdod cyhoeddus ddim gosod cyfyngiadau ar ddefnydd person o'i eiddo.

Er hynny, ni fyddai awdurdod cyhoeddus yn torri'r hawl hwn pe byddai yna gyfraith yn dweud y gall ymyrryd â, amddifadu, neu gyfyngu ar ddefnydd person o'i eiddo, a'i bod yn angenrheidiol iddo wneud hynny er lles y cyhoedd. Er lles y cyhoedd y mae'r Llywodraeth yn codi arian ac yn cosbi troseddau, felly nid yw hawliau person dan Brotocol 1, Erthygl 1 yn cael eu hamharu trwy orfod talu trethi neu ddirwyon. Mae'r Erthygl yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus i greu cydbwysedd rhwng budd cyffredinol a hawliau perchnogion eiddo unigol.

Mae'r amddiffyniad yn ymestyn i fusnesau yn ogystal ag i unigolion.

## Pryd gall y wladwriaeth ymyrryd â defnydd person o'i eiddo neu ei gymryd ymaith?

Mae gan berson yr hawl i ddefnyddio, datblygu, gwerthu, dinistrio neu ymdrin â'i eiddo mewn unrhyw ffordd y myn. Mae'r hawl i amddiffyn eiddo'n golygu na all awdurdodau cyhoeddus ymyrryd â'r modd y mae person yn defnyddio'i eiddo oni bai fod yna sail gyfreithiol gywir i'r ymyrraeth hwn ac y gellir cyfiawnhau'r fath ymyrraeth.

Er enghraifft, os oes gan awdurdod cyhoeddus gynlluniau i adeiladu ffordd dros dir rhywun, rhaid bod ganddo gyfreithiau sy'n caniatáu hyn. Hefyd rhaid bod ganddo weithdrefn i sicrhau cydbwysedd teg rhwng lles y cyhoedd wrth adeiladau'r ffordd, a hawl yr unigolyn i'w dir. Fel arfer nid yw yn deg amddifadu person o dir oni bai bod y person hwnnw'n cael iawndal digonol amdano. Efallai bod yn rhaid amharu ar fwynhad heddychlon person o'i eiddo er lles y cyhoedd – er enghraifft, efallai na ellir osgoi prynu eiddo person drwy orfodaeth, neu efallai y byddai rhywfaint o sŵn traffig ffordd yn amharu ar gartref person.

### Geiriau allweddol a'u hystyron

Mae ystyr eang i **Nwyddau ac eiddo**, gan gynnwys tir, tai, prydlesi, arian ac eiddo personol. Mae hefyd yn cynnwys pethau annirweddol, megis cyfranddaliadau, ewyllys da mewn busnes, patentau a rhai mathau o drwyddedau, yn cynnwys y rhai sy'n caniatáu i bobl i arfer crefft neu

broffesiwn. Mae hawliau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol hefyd, yn gyffredinol, yn cael eu pennu'n eiddo.

## A yw Protocol 1, Erthygl 1 yn berthnasol i'm gwaith i?

Bydd Protocol 1, Erthygl 1 yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n ymwneud â:

- gwaith mewn unrhyw faes sy'n gallu amddifadu pobl o'u nwyddau neu eu heiddo
- cymryd penderfyniadau ynglŷn â chynllunio, trwyddedu neu ganiatáu i bobl arfer crefft neu broffesiwn
- cymryd penderfyniadau ynglŷn â budd-daliadau nawdd cymdeithasol
- prynu gorfodol.

## Beth ddylai awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Os yn bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau nad yw polisïau neu benderfyniadau'n amharu ar fwynhad heddychlon o nwyddau, yn cyfyngu ar y defnydd o nwyddau nac yn mynd â nwyddau i ffwrdd.
- Pan na ellir osgoi hynny, yna rhaid i'r ymyriad fod yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol er lles y cyhoedd.
- Os yw awdurdod cyhoeddus yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol ymyrryd â nwyddau pobl, rhaid bod yna gyfiawnhad gwrthrychol a rhesymol dros wneud hynny.
- Gellid gofyn i awdurdod cyhoeddus i gyflwyno rhesymau dros ei benderfyniadau.
- Dylai awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i ddiogelu'r hawl i eiddo, yn ogystal ag ymatal rhag ymyrryd ag eiddo.

## Protocol 1, Erthygl 1 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***Sainsbury's Supermarkets Ltd v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau (2001)***

Cyflwynodd awdurdod lleol orchymyn prynu gorfodol mewn perthynas â datblygiad arfaethedig ar ddarn o dir. Cafodd hyn ei herio gan gadwyn o archfarchnadoedd oedd yn berchen ar ran o'r tir hwnnw a oedd yn bwriadu ei ddatblygu ei hunan. Dyfarnodd y llys bod y penderfyniad i brynu gorfodol yn creu cydbwysedd teg rhwng lles y cyhoedd a budd masnachol yr archfarchnad ac yn gydnaws, felly, ag Erthygl 1 o Brotocol 1.

**Astudiaeth achos:**

***Davies ac Anor v Cyngor Bwrdeistref Crawley (2001)***

Mabwysiadodd yr awdurdod lleol gynllun masnachu ar y stryd oedd yn golygu gwahardd masnachu ar rai o'i strydoedd ac yn codi tâl am fasnachu ar eraill. Roedd hyn yn effeithio ar fusnes Mr Davies gan ei fod yn berchen ar fan symudol yn gwerthu byrbrydau, oedd yn masnachu ar stryd a nodwyd fel un lle'r oedd masnachu'n cael ei wahardd. Cynigiodd yr awdurdod lleol gyfle i Mr Davies symud i stryd lle'r oedd masnachu yn cael ei ganiatáu ond lle'r oedd angen talu ffi am fasnachu. Unwaith eto penderfynwyd bod y cyngor wedi dod o hyd i gydbwysedd teg, gan fod angen lliniaru'r tagfeydd traffig ar y stryd dan sylw.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Protocol 1, Erthygl 2: Hawl i addysg

Mae gan bawb yr hawl rhag cael ei wrthod gan y system addysg.

## Beth mae'r hawl hwn yn ei olygu?

- Mae gan berson yr hawl rhag cael ei wrthod gan y system addysg sy'n bodoli eisoes.
- Mae gan rieni hawl i sicrhau bod eu credoau crefyddol neu athronyddol yn cael eu parchu pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn darparu addysg neu ddysg i'w plant.

## Cyfyngiadau ar yr hawl i addysg

Nid yw'r hawl cyffredinol i addysg yn hawl llwyr i berson gael dysgu beth bynnag a fyn, ble bynnag a fyn a gall y llywodraeth ystyried anghenion ac adnoddau'r gymuned. Ar y wladwriaeth y mae'r dyletswydd ac nid ar unrhyw sefydliad domestig penodol. Er enghraifft, os gall disgybl sydd wedi ei ddiarddel gael addysg effeithiol yn rhywle arall, ni fydd ei hawl o dan y Confensiwn wedi'i dorri.

Hefyd, mae llywodraeth y DU wedi gwneud eithriad arbennig i'r Erthygl fel nad yw'r egwyddor o addysg sy'n cydymffurfio â chredoau crefyddol ac athronyddol y rhieni yn gymwys 'ond i'r graddau mae'n gyson â'r ddarpariaeth o hyfforddiant ac addysg effeithiol, gan ochel rhag gwariant cyhoeddus afresymol'. Mae hyn yn golygu efallai na fydd gan riant hawl i'r math drutaf o addysg os oes yna ddewisiadau rhatach ar gael. Rhaid i'r llywodraeth neu'r awdurdod addysg lleol gydbwyso'u hangen i barchu daliadau crefyddol ac athronyddol rhieni â'r terfynau mae'n eu gosod ar wario. Ni all rhieni atal ysgolion rhag dysgu pynciau fel addysg rhyw os ydyn nhw'n bethau rhesymol i'r ysgol eu dysgu, a chyn belled nad yw hynny'n ceisio cyflyru'r plant. Er hynny, gall rhieni dynnu eu plant allan o ddosbarthiadau addysg rhyw.

## Cosbau mewn ysgolion

Nid yw'r hawl i addysg yn atal ysgolion rhag gosod mesurau disgyblu ar blant, cyn belled nad yw hynny'n torri unrhyw hawl arall o dan y Confensiwn (er enghraifft camdriniaeth sy'n groes i Erthygl 3). Bydd yn rhaid i ysgol sy'n gosod cosb ar ddisgybl ddangos bod y fath gosb yn dilyn amcan dilys (megis cosbi twyllo neu sicrhau cydymffurfiad â rheolau'r ysgol), a'i bod yn gymesur.

Gall y cosbau a osodir gynnwys gwaharddiad dros dro neu waharddiad parhaol, cyn belled â bod gan ddisgybl fodd i gael addysg amgen y wladwriaeth, sy'n cydymffurfio â daliadau crefyddol ac athronyddol y rhieni.

## A yw Protocol 1, Erthygl 2 yn berthnasol i'm gwaith i?

Gall fod yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- dysgu neu weinyddu mewn ysgol
- darparu addysg heb ei seilio mewn ysgol
- addysg bellach ac uwch
- polisi addysg

- ariannu ysgolion neu ffurfiau eraill o addysg
- asesiadau anghenion addysgol arbennig.

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Lle mae hynny'n bosibl, dylai awdurdod cyhoeddus geisio sicrhau nad yw ei bolisïau neu ei benderfyniadau'n amharu ar hawl i addysg.
- Gellir gofyn i awdurdod cyhoeddus gyflwyno rhesymau dros ei benderfyniadau.
- Dylai awdurdodau lleol weithredu i sicrhau'r hawl i addysg, yn ogystal ag ymatal rhag ymyrryd â'r hawl honno.

## Protocol 1, Erthygl 2 yn ymarferol

**Astudiaeth achos:**

***A v Cyngor Sir Essex a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (2010)***

Roedd A yn dioddef o awtistiaeth, anymataliad dwbl a ffitiau epileptig aml. Roedd wedi bod yn mynychu ysgol arbennig, ond gofynnwyd i'w rieni ei symud oddi yno, gan nad oedd yr ysgol yn gallu ymdopi â'i ymddygiad. Nid oedd yr awdurdod lleol yn gallu darparu tiwtor cartref oedd yn gymwys i ateb ei ofynion. Argymhellodd asesiad meddygol ei fod yn cael lle mewn sefydliad preswyl ond oherwydd oedi wrth asesu, mewn dod o hyd i leoliad ac yna gwaith adeiladu, aeth 18 mis heibio cyn i A ddechrau yn yr ysgol newydd.

Dyfarnodd y Goruchaf Lys bod yr hawl dan Erthygl 2, Protocol 1 yn golygu hawl i fynediad effeithiol heb wahaniaethu o ran y darpariaethau addysgol y mae'r wladwriaeth yn eu darparu. Yn achos plentyn ag Anghenion Addysgol Arbennig, nid yw'r plentyn hwnnw'n colli ei hawl oni bai nad yw'n cael manteisio ar y darpariaethau y mae'r wladwriaeth yn eu cynnig ar gyfer plant o'r fath blant. Er efallai bod yr awdurdod lleol wedi methu, yn ystod y cyfnod o 18 mis o dan sylw, i gydymffurfio â'i ddyletswyddau dan Ddeddf Addysg 1996 trwy beidio â darparu addysg arwyddocaol i A, nid oedd hynny'n golygu ei fod wedi torri rheolau'r Erthygl. Prinder adnoddau oedd yn gyfrifol ei bod wedi cymryd cyhyd i ganfod ysgol oedd yn ateb yr anghenion.

**Astudiaeth achos:**

***Simpson v y Deyrnas Unedig (1989)***

Collodd rhieni, ar ôl symud o ardal un awdurdod lleol i un arall, arian y wladwriaeth oedd yn talu am addysg disgybl ysgol dyslecsig mewn ysgol breifat annibynnol yr oedd ei rieni wedi'i dewis. Cyflwynodd yr awdurdod lleol newydd ddatganiad newydd o anghenion arbennig oedd yn pennu y dylai'r plentyn dan sylw gael cynnig addysg mewn ysgol gyfun addas yn cael ei hariannu gan y wladwriaeth a allai ateb anghenion addysgol arbennig y plentyn.

Nododd y llys ei bod yn bolisi'r wladwriaeth integreiddio plant anabl i system addysg yr ysgolion, yn hytrach na'u gwahanu. Wrth ddod i'r casgliad y dylai'r gŵyn gael ei gwrthod o dan yr hawl i addysg, nododd: 'Er y dylai'r awdurdodau hyn ystyried barn y rhieni a'r disgyblion, ni ellir dweud bod brawddeg gyntaf Erthygl 2 o Brotocol 1... yn gofyn am osod plentyn dyslecsig mewn ysgol arbenigol breifat, gyda'r wladwriaeth yn talu'r ffioedd, os oes lle ar gael mewn ysgol y wladwriaeth sydd ag adnoddau dysgu arbennig ar gyfer plant anabl.'

O'r herwydd, gall rhieni plant ag anghenion arbennig ddadlau bod gan eu plentyn angen adnoddau arbennig ar a gallai bod yn rhaid i awdurdodau addysg barchu hyn. Ond, nid yw hynny'n yn hawl absoliwt, ac mae gan yr awdurdodau ddisgresiwn sut i ddefnyddio adnoddau prin. O dan y Ddeddf Hawliau Dynol gall awdurdodau, yn gyfreithiol, geisio integreiddio plentyn ag anghenion arbennig mewn ysgol prif ffrwd addas, hyd yn oed os nad dyma'r ateb y mae'r rhieni'n ei ddymuno.

# Protocol 1, Erthygl 3: Hawl i etholiadau rhydd

Rhaid i etholiadau i ddewis aelodau gorff deddfwriaethol (er enghraifft y Senedd) fod yn rhydd ac yn deg, a rhaid eu cynnal drwy bleidlais gudd. Mae'n bosibl y bydd rhai amodau'n cael eu gosod ynglŷn â phwy sy'n gymwys i bleidleisio (er enghraifft yr oedran isaf).

## Beth mae'r hawl yma'n ei olygu?

Rhaid cynnal etholiadau rhydd yn rhesymol gyson a rhaid eu cynnal trwy bleidlais gudd. Rhaid hefyd eu cynnal dan amodau sy'n sicrhau y gall pobl fynegi'n rhydd pwy maen nhw eisiau eu hethol. Gall y wladwriaeth osod rhai cyfyngiadau ar y modd y caiff etholiadau eu cynnal. Gall y wladwriaeth hefyd benderfynu pa fath o system etholiadol i'w defnyddio, megis y drefn 'y cyntaf i'r felin' neu gyfranogaeth gyfrannol.

Mae'r hawl i etholiadau rhydd dan Brotocol 1, Erthygl 3 yn berthnasol i'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio o dan y cyfreithiau domestig yn unig, a dim ond mewn rhai etholiadau. Er enghraifft, mae'n cynnwys Senedd San Steffan, y cynulliadau datganoledig a'r Senedd Ewrop, ond nid yw'n cynnwys etholiadau lleol. Hefyd, mae Erthygl 16 o'r Confensiwn yn pennu nad oes dim yn Erthyglau 10, 11 neu 14 sydd i gael ei gymryd i atal gwladwriaeth rhag gosod cyfyngiadau ar weithgaredd gwleidyddol y rhai nad ydyn nhw'n ddinasyddion.

## A yw Protocol 1, Erthygl 3 yn berthnasol i'm gwaith i?

Gall fod yn berthnasol yn enwedig os ydych chi'n ymwneud â:

- defnyddio pwerau cymryd penderfyniadau ynghylch hawliau pleidleisio neu'r hawl i sefyll mewn etholiad
- trefnu etholiadau.

## Beth sy'n rhaid i awdurdod cyhoeddus ei wneud?

- Rhaid i awdurdod cyhoeddus barchu hawliau unigolion i bleidleisio .
- Lle bo hynny'n bosibl, rhaid i awdurdod cyhoeddus alluogi'r rhai sydd â'r hawl i bleidleisio i ddefnyddio'u pleidlais os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.
- Mae disgwyl i awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod etholiadau'n cael eu cynnal yn rhydd ac yn deg.

## Protocol 1, Erthygl 3 yn ymarferol

### Astudiaeth achos

Yn etholiad cyffredinol mis Mai 2010, roedd nifer o bobl wedi methu pleidleisio oherwydd bod ciwiau hir mewn gorsafoedd pleidleisio, ac yn ôl y gyfraith yr oedd yn rhaid i'r gorsafoedd hynny gau'n brydlon am 10 pm. Cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol adolygiad ar y trefniadau mewn gorsafoedd pleidleisio. Daeth yn amlwg, mewn rhai ardaloedd, fod y cynllunio'n wael, dim digon o staff ac nad oedd y darpariaethau wrth gefn yn gweithio. Gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Ymhlith y rhain roedd argymhellion y dylai awdurdodau lleol adolygu eu cynlluniau ar gyfer cynnal etholiadau i sicrhau na fydd problemau tebyg yn codi yn y dyfodol.

## Hawliau Carcharorion i Bleidleisio

Nid oes gan garcharorion dan ddedfryd o garchar yn y DU hawl i bleidleisio.

Yn 2005, barnodd Uchel Siambr Llys Hawliau Dynol Ewrop fod gwaharddiad y DU ar yr holl garcharorion sy'n bwrw eu tymor rhag pleidleisio yn groes i Erthygl 3 o Brotocol Rhif 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol. Nodir bod carcharorion yn gyffredinol yn parhau i fwynhau'r hawliau a'r rhyddiadau sylfaenol a warentir o dan y Confensiwn, ar wahân i'r hawl i ryddid, ac nad oedd carcharorion yn fforffedu eu hawliau Confensiwn o gwbl yn unig oherwydd eu statws fel rhai sydd wedi'u dedfrydu i garchar.

Barn llywodraethau dros y blynyddoedd yw na ddylid caniatáu i garcharorion a oedd yn euog o drosedd digon difrifol i gyfiawnhau carchar gael pleidleisio. Yn 2011, ymyrrodd y Llywodraeth yn achos hawliau pleidleisio carcharor Eidalaidd, *Scoppola v. yr Eidal (Rhif.3).* Gwnaeth y Twrnai Cyffredinol ymyriad llafar yn yr Uchel Siambr, gan ddatgan barn gadarn y DU mai mater gwleidyddol i aelod-wladwriaethau oedd a ddylai carcharorion gael pleidlais ai peidio ac y dylai Llys Hawliau Dynol Ewrop barhau â'i bolisi o roi dehongliad 'cwmpas eang werthfawrogiad'.

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd yr Uchel Siambr ei dyfarniad yn *Scoppola v yr Eidal (Rhif.3)*. O ran ymyrraeth y DU, ailddatganodd yr Uchel Siambr fod y difreinio, yn gyffredinol ac yn awtomatig, bob carcharor sydd mewn carchar yn anghydnaws ag erthygl 3 o brotocol Rhif 1 ond derbyniodd ddadl Llywodraeth y DU y dylai aelod-wladwriaethau gael disgresiwn eang ar sut i reoleiddio gwahardd carcharorion rhag pleidleisio.

Roedd y penderfyniad yn golygu bod gan Lywodraeth y DU chwe mis i gyflwyno cynigion i ddiwygio'r gyfraith. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fesur drafft ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu ar 22 Tachwedd 2012, sy'n cyflwyno tri opsiwn: parhau â'r gwaharddiad cyffredinol, caniatáu pleidlais yn dibynnu ar hyd y ddedfryd gyda gwaharddiad ar ôl chwe mis neu bedair blynedd.

Gofynnodd y Llywodraeth i Gyd Bwyllgor Seneddol gael ei sefydlu i wneud archwiliad cyn deddfwriaeth ar y Mesur drafft ac i wneud argymhellion.

Cyhoeddodd y Cyd Bwyllgor ei adroddiad ar 18 Rhagfyr 2013. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth gyflwyno Mesur a ddylai ddarparu: y dylai pob carcharor sy'n cyflawni dedfryd o 12 mis neu lai gael yr hawl i bleidleisio ym mhob etholiad seneddol a lleol yn y Deyrnas Unedig ac mewn etholiadau Ewropeaidd; ac y dylai carcharorion fod â'r hawl i wneud cais 6 mis cyn y dyddiad sydd wedi'i amserlennu ar gyfer eu rhyddhau, i gael cofrestru i bleidleisio yn yr etholaeth ble maent i gael eu rhyddhau.

Mae'r Llywodraeth yn ystyried argymhellion y Pwyllgor.

# Rhan 3: Canllawiau a gwybodaeth

## Siartlif hawliau dynol

Cynlluniwyd y siartlif hwn i'ch helpu wrth gymhwyso hawliau dynol yn y gweithle. Bydd yn arbennig o berthnasol pan fyddwch yn cyfyngu ar hawl – naill ai drwy gydbwyso un hawl yn erbyn un arall, neu pan fyddwch yn cydbwyso hawliau'r unigolyn yn erbyn buddiannau'r cyhoedd. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau neu bolisïau sydd heb eu profi.

Mae mwy o fanylion ar y cwestiynau yn y siart llif i'w gweld ar y tudalennau dilynol. Unwaith y byddwch wedi darllen y rhain a deall yn iawn y cwestiynau yn y siart llif, bydd yn rhywbeth defnyddiol i atgoffa a chyfeirio'n ôl ato wrth gymryd penderfyniadau ynghylch hawliau dynol.

### 1

1.1 Beth yw teitl y polisi/penderfyniad?
1.2 Beth yw nod y polisi/penderfyniad?
1.3 Pwy fydd yn cael ei effeithio gan y polisi/penderfyniad?

### 2.1

A fydd y polisi/penderfyniad yn effeithio ar hawliau unrhyw un o dan y Confensiwn?

Na → Gadael y siartlif

Bydd → 2.2

### 2.2

A fydd y polisi/penderfyniad yn arwain at gyfyngu ar hawl

Na → Gadael y siartlif

Bydd → 3.1

### Gadael y siartlif

Does dim rhaid parhau gyda'r rhestr wirio hon…ond…

- byddwch yn ofalus rhag ofn bod yna unrhyw bosibilrwydd y gallai eich polisi wahaniaethu yn erbyn unrhyw un yn ymarfer ei hawliau o dan y Confensiwn.
- efallai y dylech ddal i gael cyngor cyfreithiol – os oes amheuaeth, cysylltwch â'ch cyfreithiwr
- gallai pethau newid, ac efallai y bydd yn rhaid i chi ail asesu'r sefyllfa.

### 3.1

A yw'r hawl yn un absoliwt?

Ydyw → Mae'n debyg nad yw'r polisi/penderfyniad yn cyd-fynd â hawliau dynol.

Ydyw → 3.2

### 3.2

A yw'r hawl yn un cyfyngedig?

Na → 4 Mae'r hawl yn un amodo

Ydyw → 3.3

### 3.3

A fydd yr hawl yn cael ei gyfyngu dim ond i'r graddau sy'n cael ei gynnwys yn yr Erthygl berthnasol o'r Confensiwn?

Bydd → Mae'r polisi/penderfyniad yn debyg o fod yn gydnaws â hawliau dynol

### 4 Mae'r hawl yn un amodo

4.1 Oes yna sail gyfreithiol dros y cyfyngiad?
4.2 A oes yna amcan dilys i'r cyfyngiad

AC

4.3 A yw'r cyfyngiad yn un sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocratig

AC

4.4 Ydych ch'n siŵr nad ydych chi'n 'defnyddio gordd i dorri cneuen'?

Ydyw → Mae'r polisi/penderfyniad yn debyg o fod yn gydnaws â hawliau dynol

Na → Mae'n debyg nad yw'r polisi/penderfyniad yn cyd-fynd â hawliau dynol.

---

Mae'r polisi/penderfyniad yn debyg o fod yn gydnaws â hawliau dynol

Ond → Cael cyngor cyfreithiol

---

Mae'n debyg nad yw'r polisi/penderfyniad yn cyd-fynd â hawliau dynol.

---

### Cael cyngor cyfreithiol

Beth bynnag yw'r atebion i'r cwestiynau hyn, unwaith y bydd yna amharu ar hawliau dynol drwy gyfyngu, dylech ofyn am gyngor cyfreithiol. A dylech gael cyngor cyfreithiol bob amser os yw eich polisi'n debyg o wahaniaethu yn erbyn unrhyw un sy'n ymarfer ei hawliau o dan y Confensiwn.

# Egluro siart llif hawliau dynol

## 1. Penderfynu ar bolisi a gweithredu

Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys yr elfennau sylfaenol. Maen nhw'n sicrhau bod yr holl wybodaeth ynghylch y polisi neu'r penderfyniad newydd mewn un lle yn y sefydliad os bydd angen i rywun arall yn y sefydliad wybod amdano, efallai i gynnig help neu gyngor ychwanegol.

1.1 Beth yw teitl y polisi/penderfyniad?

Mae hwn yn gwestiwn i roi label clir ar y polisi/penderfyniad fel y gellir cyfeirio ato heb ddryswch.

1.2 Beth yw amcan y polisi/penderfyniad?

Yma dylech ddangos nod sylfaenol y polisi/penderfyniad. Beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni? Gallech dorri'r adran hon i lawr yn dair adran:

- Pam mae'r polisi/penderfyniad yn cael ei lunio?
- Pam y mae ei angen?
- Beth yw ei ddiben?

1.3 Pwy fydd yn cael ei effeithio gan y polisi/penderfyniad?

I ateb hyn, dylech edrych yn ôl ar yr amcan yr ydych yn ceisio ei gyflawni a meddwl pa grwpiau o bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio. Erbyn hyn, mae'n bwysig ateb y cwestiwn hwn oherwydd bydd yn eich helpu yn y cam nesaf pan fydd gofyn i chi benderfynu a oes gan y polisi/penderfyniad unrhyw beth i'w wneud â hawliau dynol. Bydd gwybod pwy sy'n cael eu heffeithio gan y polisi/penderfyniad yn eich helpu chi i ateb y cwestiwn hwn. Er enghraifft, os ydych yn delio â theuluoedd, gallai hyn eich atgoffa y dylid ystyried a yw'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, sy'n cael ei amddiffyn yn erthygl 8, yn berthnasol.

## 2. Effeithiau hawliau dynol

2.1 A fydd y polisi/penderfyniad yn effeithio ar hawliau unrhyw un o dan y Confensiwn?

Yma, rydym yn eich cynghori i gael golwg ar Ran 2 (tudalen 10) y canllaw hwn ac ystyried, o gofio pob hawl, a yw eich polisi/penderfyniad yn disgyn i unrhyw un o'r meysydd sy'n dod o dan hawliau'r Confensiwn.

### Gadael y siartlif (DN rhowch yr adran hon mewn 'blwch')

Os byddwch yn penderfynu nad oes unrhyw hawliau Confensiwn yn cael ei effeithio, does dim angen parhau i ddilyn y siart llif. Fodd bynnag, mae yna dri phwynt arall i'w nodi:

- Yn gyntaf – byddwch yn ofalus rhag ofn bod yna unrhyw bosibilrwydd y gallai eich polisi wahaniaethu yn erbyn unrhyw un sy'n cael ei warchod o dan y Confensiwn.
- Yn ail – er mai bwriad y rhestr wirio hon yw eich helpu i nodi unrhyw effaith a allai godi o ran hawliau dynol, efallai y bydd angen cael cyngor cyfreithiol. Er enghraifft, gallai'r polisi/penderfyniad fod yn ddadleuol neu efallai na fyddwch yn hollol sicr a yw hawliau dynol wedi'u trafod yn llawn.
- Yn drydydd – hyd yn oed os ydych yn penderfynu nad yw'r polisi/penderfyniad yn amharu ar hawliau unrhyw un o dan y Confensiwn, efallai y bydd pethau'n newid ac efallai y bydd angen i chi ailasesu'r sefyllfa.

2.2 A fydd y polisi/penderfyniad yn arwain at gyfyngu ar hawl?

Os byddwch yn penderfynu y gallai eich penderfyniad polisi amharu ar un neu ragor o hawliau'r Confensiwn, y cam nesaf yw edrych ar natur y cysylltiad hwn. A fydd y polisi/penderfyniad yn cyfyngu ar unrhyw un neu ragor o'r hawliau sy'n cael eu heffeithio? Os felly, dylech gofnodi sut mae hynny'n digwydd.

Dylech gofio nad yw ymyrryd â hawl bob amser yn golygu gweithredu nad yw'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn yn unig; gall hefyd olygu peidio â gweithredu pan os oes yna gyfrifoldeb cadarnhaol ar awdurdodau cyhoeddus i warchod hawl.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich asesiad ac yn penderfynu, er bod y polisi'n effeithio ar hawl, na fydd y polisi hwnnw'n arwain at unrhyw gyfyngu ar yr hawl hwnnw, neu nad oes yna gyfrifoldeb positif arnoch chi i weithredu'n wahanol, yna gallwch adael y siartlif, o gofio'r pwyntiau a nodir uchod yn y blwch 'Ymadael â'r siart llif'.

Os, fodd bynnag, y byddwch yn penderfynu bod perygl y byddai hawliau'r Confensiwn yn cael eu cyfyngu, dylech symud i'r adran nesaf.

## 3. Mathau o hawliau

3.1 A yw'r hawl yn hawl absoliwt?

Os yw'r hawl yr ydych yn bwriadu cyfyngu arni yn un absoliwt, allwch chi ddim ei chyfyngu, a bydd unrhyw ymgais i wneud hynny'n anghydnaws â'r Confensiwn. Mae gwahardd arteithio a thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol (Erthygl 3), caethwasiaeth a llafur gorfodol (erthygl 4) a chyfreithiau ôl-weithredol (Erthygl 7) yn hawliau absoliwt na ellir cyfyngu arnyn nhw mewn unrhyw ffordd. Mae'r un peth yn wir am yr hawl i arddel credoau penodol (y rhan gyntaf o Erthygl 9) a diddymu'r gosb eithaf (Protocol 13).

3.2 A yw'r hawl yn hawl gyfyngedig?

Os yw'r hawl a ydych yn bwriadu cyfyngu arni yn un gyfyngedig, efallai ei bod yn gyfyngedig o fewn y telerau a nodir yn yr Erthygl berthnasol. Bydd y telerau gwahanol ar gyfer hawliau gwahanol, sy'n cael eu hegluro yn Rhan 2 y canllaw hwn. Er enghraifft, ceir chwe achos lle y caniateir cyfyngu'n gyfreithlon ar hawl i ryddid a diogelwch a nodir yn erthygl 5. Mae'r rhain i'w gweld yn yr adran sy'n trafod erthygl 5 yn Rhan 2 o'r canllaw hwn (gweler tudalen 19). Un enghraifft yw ar ôl dyfarnu'n euog gan Lys cymwys. Ceir rhai hawliau hefyd lle nad oes unrhyw grybwyll o gyfyngiad yn nhestun y Confensiwn, ond bod cyfyngiadau treiddio i mewn drwy benderfyniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop. Er enghraifft, mae'r llysoedd wedi cynnwys rhai cyfyngiadau ar hawl i bleidleisio ac i ymgeisio am swydd (Protocol 1, Erthygl 3).

3.3 A fydd yr hawl yn gyfyngedig yn unig i'r graddau a nodir yn Erthygl berthnasol y Confensiwn?

Os byddwch yn penderfynu eich bod yn ceisio cyfyngu ar naill ai hawl absoliwt neu hawl gyfyngedig, cewch ymadael â'r siart llif ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, dylech wedyn symud ymlaen i ystyried eich polisi / penderfyniad ymhellach oherwydd naill ai ni fydd yn cydymffurfio â'r Confensiwn (os yw'n cyfyngu ar hawl absoliwt), neu dylech sicrhau bod darpariaeth ar gyfer eich cyfyngiad yn nhestun yr Erthygl (os yw'n cyfyngu ar hawl gyfyngedig). Efallai y bydd angen i chi gymryd cyngor cyfreithiol ar y pwynt hwn.

Os ydych yn cyfyngu ar hawl amodol, yna bydd angen i chi barhau i ddefnyddio'r siart llif.

## 4. Hawliau amodol

Yn achos hawliau amodol, nid yw'r ffaith bod polisi/penderfyniad yn cyfyngu ar yr hawl o reidrwydd yn golygu y bydd yn anghydnaws â'r Confensiwn. Os oes gan gyfyngiad nod cyfreithlon, megis diogelwch y cyhoedd, ac nad yw'r cyfyngiad ei hun yn mynd ymhellach nag sy'n gwbl angenrheidiol i ddiogelu'r nod hwn, yna mae'n debygol y bydd yn gydnaws â'r Confensiwn. Mae'r Confensiwn yn cydnabod bod sefyllfaoedd lle mae'n rhaid caniatáu i wladwriaeth benderfynu beth sydd er budd gorau ei dinasyddion, ac sy'n galluogi gwladwriaeth, neu awdurdod cyhoeddus sy'n gweithredu ar ran y wladwriaeth, i gyfyngu ar hawliau pobl yn unol â hynny.

Bydd y cwestiynau canlynol yn eich helpu i benderfynu a yw eich polisi/penderfyniad yn dod o fewn y categori hwn o gyfyngiadau derbyniol ai peidio.

4.1 A oes sail gyfreithiol i'r cyfyngiad?

Rhaid i unrhyw gyfyngiad gael sail gyfreithiol glir. Rhaid bod y cyfyngiad wedi ei osod yn y gyfraith, neu mewn rheolau neu ganllawiau, a rhaid ei fod yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y bobl a allai gael eu heffeithio yn cael gwybod amdano. Bydd hyn yn eu galluogi i newid eu hymddygiad mewn da bryd os bydd gofyn iddyn nhw wneud hynny. Gallai hynny hysbysebu canllawiau neu reolau eraill yn gyhoeddus, efallai drwy'r rhyngrwyd, drwy sefydliadau partneriaid eraill, neu drwy weithio traws-asiantaeth.

4.2 A oes nod cyfreithlon i'r cyfyngiad ?

Os ydych chi'n cyfyngu ar hawliau, bydd yn rhaid i chi enwi pa nod cyfreithlon rydych chi'n ceisio ei gyflawni. Nod cyfreithlon yw un sy'n cael ei ddangos yn nhestun yr erthyglau eu hunain, megis diogelwch y cyhoedd, diogelu trefn gyhoeddus, diogelwch y wladwriaeth neu amddiffyn hawliau neu ryddid pobl eraill.

Mae rhestr o nodau cyfreithlon ar gyfer cyfyngu ar hawliau yn yr adrannau ar bob erthygl yn Rhan 2 y canllaw hwn.

Os nad yw'r nod y mae arnoch eisiau ei gyflawni yn un o'r rhai a restrir yn nhestun yr Erthygl, mae'n debygol na fydd y cyfyngiad yn gyfreithlon. Dylech ofyn am gyngor cyfreithiol.

4.3 A oes angen y cyfyngiad mewn cymdeithas ddemocrataidd?

Er mwyn i gyfyngiad fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, mae'n rhaid bod cysylltiad rhesymegol rhwng y nod cyfreithlon sydd i'w gyflawni a'r polisi/penderfyniad sy'n cyfyngu ar hawliau person. Nid yw'n ddigon cyflwyno nod cyfreithlon os, mewn gwirionedd, na fydd y cyfyngiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyrraedd y nod hwnnw.

4.4 ydych chi'n siŵr nad ydych yn defnyddio gordd i dorri cneuen?

Ni ddylai polisi/penderfyniad fod yn cyfyngu mwys nag y mae angen iddo ei wneud er mwyn cyflawni ei amcan. Dyma yw 'cymesuredd'. Er enghraifft, yn aml caiff bolisi / penderfyniad sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pawb yn ddiwahân ei ystyried yn anghymesur, gan nad yw'n ystyried amgylchiadau unigol, a hawliau unigol bob person yr effeithir arno. Bydd yn gorfodi cyfyngiadau mewn amgylchiadau pan nad oes eu hangen mewn gwirionedd.

Edrychwch ar yr amcanion rydych wedi'u nodi ym mharagraff un yr adran hon, a blwch 1 o'r siart llif, a gofynnwch i chi eich hun ai dim ond drwy'r polisi/penderfyniad

yr ydych yn ei gynnig y gellir cyflawni'r amcanion. Gofynnwch i chi eich hun a oes yna unrhyw ffordd arall sy'n llai cyfyngedig ond a allai ddal i.

Os oes yna ffordd arall sy'n llai cyfyngedig o gyrraedd y canlyniad a ddymunir, ond eich bod yn penderfynu peidio â dewis y ffordd honno, bydd angen i chi fod yn barod egluro pam eich bod wedi cymryd y dewis hwnnw. Bydd yn rhaid i'ch rhesymau fod yn rhai da.

## Ymadael â'r siart llif

Hyd yn oed os byddwch yn dod i'r casgliad nad yw'r polisi/penderfyniad yn torri un o Erthyglau eraill y Confensiwn, dylech ystyried a yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un sy'n dymuno arfer ei hawliau o dan y Confensiwn, yn groes i Erthygl 14. Mae manylion pellach o'r materion i'w hystyried mewn perthynas ag Erthygl 14 yn nhudalen 53. Dylech ystyried yr amrywiaeth o gwsmeriaid, y staff a defnyddwyr gwasanaeth y sydd gan eich sefydliad. Rhaid i chi ystyried a yw'r cyfyngiad yn berthnasol i grŵp penodol neu ddosbarth o bobl sy'n cael eu diffinio gan statws a drafodir mewn perthynas ag Erthygl 14 (gweler tudalen 53) yn unig. Dylid nodi unrhyw effaith wahaniaethol, hyd yn oed os yw'n anfwriadol. Mae angen ystyried effaith anuniongyrchol hefyd, er enghraifft, os yw cyfyngiad mewn egwyddor yn gymwys i bawb ond yn cael effaith arbennig o drwm ar grŵp penodol neu ddosbarth penodol a fyddai'n ei chael yn anos i gydymffurfio.

Os ydych yn penderfynu y byddai eich cyfyngiad yn cael effaith anghyfartal ar fwynhau neu ddiogelu hawliau'r Confensiwn, bydd angen i chi benderfynu a oes yna gyfiawnhad i'r driniaeth wahaniaethol. Mae'r dull yma braidd yn debyg i'r hyn a ddefnyddir ynghylch hawliau amodol (gweler uchod). Mae angen ystyried:

- a yw'r driniaeth yn wahaniaethol er mwyn cyflawni nod cyfreithlon?
- a yw'r driniaeth wahaniaethol yn gymesur â'r nod hwnnw (h.y. a oes ffordd sy'n llai gwahaniaethol o gyflawni'r nod)?

Os mai'r ateb i'r cwestiynau hyn yw 'ydyw', yna mae'n debygol y bydd modd cyfiawnhau triniaeth wahaniaethol.

Bydd yr astudiaethau achos yn yr adran berthnasol yn Rhan 2 yn eich helpu wrth i chi weithio drwy hyn.

## Pwyntiau i'w cofio

Bydd yn ddefnyddiol cadw'r pwyntiau canlynol yn y cof wrth ddarllen y canllaw hwn, a hefyd wrth gymhwyso hawliau dynol yn y gweithle:

- Er bod rhai hawliau a roddir gan y Confensiwn yn absoliwt (er enghraifft yr hawl i beidio â dioddef arteithio neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol), yn gyffredinol ni ellir defnyddio hawliau un person i ragori ar hawl y cyhoedd yn gyffredinol i gael eu cadw'n ddiogel rhag perygl gwirioneddol o gael anaf difrifol neu golli bywyd.
- Efallai y bydd mwy nag un hawl yn berthnasol i sefyllfa benodol.
- Cofiwch bob amser y gallai fod yna ganllawiau cyfredol eraill a allai hefyd fod yn berthnasol i'r penderfyniad neu'r polisi yr ydych yn ei lunio, ac ystyriwch sut y mae'n ffitio.
- Os ydych yn ansicr, neu fod y mater yn hynod gymhleth, dylech ystyried cael cyngor cyfreithiol. Cofiwch ofyn am gyngor cyfreithiol bob amser os ydych yn bwriadu ymyrryd â hawliau'r

Confensiwn mewn ffordd sy'n cyfyngu, neu os oes gennych unrhyw bryder y byddai cydymffurfio â hawliau dynol yn rhoi nodau polisi pwysig eraill megis diogelwch y cyhoedd mewn perygl.

## Cydbwyso hawliau un person yn erbyn rhai'r gymuned

Nid yw'r ffaith bod y polisi/penderfyniad yn cyfyngu ar un o hawliau'r Confensiwn yn golygu o angenrheidrwydd y bydd yn anghydnaws â'r Confensiwn. Cyfrifoldeb sylfaenol y wladwriaeth – sy'n deillio o Erthygl 2 y Confensiwn ei hun – yw cymryd camau priodol i warchod diogelwch ei dinasyddion. Dylai'r wladwriaeth hefyd ystyried buddiannau cyffredinol eraill y gymuned. Felly er bod rhai o hawliau'r Confensiwn yn absoliwt (er enghraifft yr hawl i beidio â dioddef arteithio neu driniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol), mae eraill naill ai wedi eu cyfyngu neu wedi eu cymhwyso yn y modd a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Yn benodol, gellir cyfyngu'r hawliau yn erthyglau 8 i 11 os bydd angen, ac y byddai hynny'n gymesur, er mwyn cyflawni nod cyfreithlon. Cyn belled â bod nod cyfreithlon i gyfyngiad o'r fath, megis diogelwch y cyhoedd, ac nad yw cyfyngiad ynddo'i hun yn mynd ymhellach nag sydd raid i ddiogelu'r nod hwn, yna mae'n debygol y bydd yn gydnaws â'r Confensiwn. Yn y ffordd hon mae'r Confensiwn yn cydnabod bod rhai sefyllfaoedd lle y caniateir i wladwriaeth gyfyngu ar hawliau'r unigolyn er mwyn y budd gorau'r gymuned ehangach.

## Tri math o hawl

Nid yw pob un o hawliau'r Confensiwn yn gweithredu yn yr un modd. Mae rhai yn 'absoliwt' ac eraill yn 'gyfyngedig' neu'n 'amodol' eu natur.

**Hawliau absoliwt:** Ni chaiff gwladwriaethau optio allan o'r hawliau hyn o dan unrhyw amgylchiadau – hyd yn oed yn ystod rhyfel neu argyfwng cyhoeddus. Nid oes unrhyw gyfiawnhad posibl ar gyfer ymyrraeth â'r rhain ac ni ellir eu cydbwyso yn erbyn budd y cyhoedd. Enghreifftiau o hawliau absoliwt yw gwahardd arteithio a thriniaeth annynol neu ddiraddiol yn Erthygl 3, a gwahardd caethwasiaeth yn Erthygl 4 (1).

**Hawliau cyfyngedig:** Mae'r rhain yn hawliau nad ydynt yn cael eu cydbwyso yn erbyn hawliau pobl eraill, ond sydd yn gyfyngedig o dan amgylchiadau penodol. Un enghraifft yw'r hawl i ryddid a diogelwch yn erthygl 5.

**Hawliau amodol:** Mae'r rhain yn hawliau y gellir eu newid er mwyn amddiffyn hawliau pobl eraill neu fudd y cyhoedd.

Dim ond os yw'r wladwriaeth yn gallu dangos cyfiawnhad dros hynny y gellir ymyrryd â hawliau amodol:

- bod y cyfyngiad yn gyfreithlon – mae hyn yn golygu ei fod yn unol â'r gyfraith, a rhaid i'r gyfraith fod wedi'i sefydlu, yn hawdd ei defnyddio ac yn ddigon clir
- bod gan y cyfyngiad nod cyfreithlon – rhaid i'r cyfyngiad fod yn unol â nod a ganiateir ac a nodir yn yr Erthygl berthnasol. Dim ond ar nod cyfreithlon, pendant ac sydd wedi'i ddatgan y gall awdurdodau cyhoeddus ddibynnu wrth gyfyngu ar yr hawl hwnnw. Dyma rai o'r buddiannau gwarchodedig: diogelwch y wladwriaeth; diogelu iechyd a moesau; atal troseddu; ac amddiffyn hawliau pobl eraill
- bod y cyfyngiad yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd – rhaid i'r cyfyngiad gyflawni angen cymdeithasol dwys a rhaid iddo fod yn gymesur â'r angen hwnnw.

## Cymesuredd

Mae'r egwyddor o gymesuredd yn ganolog i sut mae dehongli hawliau amodol, er nad yw'r gair ei hun yn ymddangos yn unrhyw le yn nhestun y Confensiwn.

Efallai y gellir deall yr egwyddor orau yn y dywediad 'Peidiwch â defnyddio gordd i dorri cneuen'. Wrth gymryd penderfyniadau a allai effeithio ar unrhyw un o'r hawliau amodol, rhaid i awdurdod cyhoeddus ymyrryd cyn lleied â phosibl â'r hawl, gan fynd ddim ond mor bell ag sydd ei angen i gyflawni'r nod a ddymunir.

Gallai fod yn ddefnyddiol gofyn y cwestiynau canlynol i benderfynu a yw gweithred gyfyngedig yn gymesur ai peidio:

- Beth yw'r broblem y mae'r cyfyngiad yn ceisio ei datrys?
- A fydd y cyfyngiad mewn gwirionedd yn arwain at leihau'r broblem honno?
- A oes ateb arall ar gael sy'n llai cyfyngedig, ac a geisiwyd ei roi ar waith?
- A yw'r cyfyngiad yn golygu bod polisi'n berthnasol i bawb neu a yw'n caniatáu i achosion gwahanol gael eu trin yn wahanol?
- A roddwyd digon o sylw i hawliau a buddiannau'r rheini sy'n cael eu heffeithio?
- A oes trefniadau diogelu ar gael yn erbyn gwallau neu gamdriniaeth?
- A yw'r cyfyngiad o dan sylw yn dinistrio gwir hanfod yr hawl hwnnw o dan y Confensiwn?

Mae'r astudiaeth achos canlynol, sy'n seiliedig ar yr achos o ' *R (A, B, X a Y) v East Sussex County Council (2003)*, yn dangos yr egwyddorion hyn.

### Astudiaeth achos

Roedd gan awdurdod lleol bolisi bod yn rhaid i staff gofal ddefnyddio teclyn i godi offer neu bobl mewn sefyllfaoedd penodol, ar y sail bod codi â llaw yn fygythiad i iechyd a diogelwch ei weithwyr. I ddwy chwaer ddifrifol anabl, a oedd yn byw mewn tŷ wedi ei addasu, roedd y polisi'n cyfyngu ar eu gallu i symud o gwmpas eu cartref neu i ddilyn gweithgareddau y tu allan iddo. Nid oedd y partïon yn dadlau nad oedd polisi'r awdurdod lleol yn gyfreithlon, ond nododd y llys yr egwyddorion cyfreithiol y dylai'r awdurdod lleol ei ddilyn wrth gymhwyso'r polisi i'r chwiorydd. Ystyriwyd i ba raddau yr oedd yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i ganiatáu codi a chario â llaw er mwyn diogelu hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth o dan erthygl 8 o'r Confensiwn (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), ac ar yr un pryd i ofalu nad oedd yna berygl annerbyniol i'w gweithwyr. Yr oedd hyn yn gofyn am bwyso a mesur gofalus, gan edrych ar anghenion a hawliau defnyddwyr gwasanaeth ac ar anghenion a hawliau gweithwyr gofal. Bydd sefyllfaoedd lle mae codi â llaw, er bod yna berygl gwirioneddol y gallai gweithiwr gofal gael anaf, bod yn rhaid darparu gofal priodol sy'n parchu urddas y defnyddwyr gwasanaeth.

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop hefyd wedi derbyn bod yna feysydd y mae awdurdodau cenedlaethol mewn sefyllfa well na'r Llys i benderfynu beth sydd orau i'r rhai o fewn eu hawdurdodaeth, ac felly i gymhwyso hawliau'r Confensiwn yn eu ffordd eu hunain. Mae hyn yn arbennig o wir mewn amgylchiadau pan fydd

yn rhaid cydbwyso hawliau yn erbyn diogelwch y wladwriaeth neu, er enghraifft, anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach. Cyfeirir at hyn fel 'ymyl gwerthfawrogiad'. Mae'n dibynnu ar natur yr hawl dan sylw ac i ba raddau y mae'r farn yn amrywio ymysg y gwledydd sydd wedi arwyddo eu cytundeb i'r Confensiwn ar y mater, a fydd y Llys yn caniatáu ymyl llydan neu gul o werthfawrogiad ai peidio.

Yn ei dro mae hyn yn golygu y gall penderfyniadau'r Llys newid dros y blynyddoedd i adlewyrchu amodau cyfnewidiol yn y gwladwriaethau sy'n rhan o'r Confensiwn – dyma paham y gelwir y Confensiwn yn 'offeryn byw'. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dyfarnu fod arfer neu bolisi o fewn 'ymyl gwerthfawrogiad' gwladwriaeth, gallai hyn newid yn y dyfodol os bydd consensws newydd yn datblygu mewn digon o wledydd.

Er bod yr 'ymyl gwerthfawrogiad' yn dangos agwedd Llys Hawliau Dynol Ewrop at benderfyniadau a wneir gan wladwriaethau unigol, mae llysoedd yn y DU wedi datblygu dull tebyg o weithredu wrth ystyried penderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus yn y DU. Caniateir gradd o ryddid i awdurdodau cyhoeddus wrth gymryd penderfyniadau, yn enwedig pan fo'r awdurdod cyhoeddus mewn gwell sefyllfa na'r llys i asesu'r mater (er enghraifft, materion yn ymwneud â pholisi cymdeithasol neu ddyrannu adnoddau). Fodd bynnag, bydd y llysoedd yn fwy parod i ymyrryd ar faterion fel gwahaniaethu neu weithdrefnau teg.

## Cyfrifoldebau positif

Mae'r rhan fwyaf o'r Confensiwn yn ymwneud â phethau na ddylai'r wladwriaeth eu gwneud, ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar wladwriaethau i ymatal rhag ymyrryd â hawl. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y Confensiwn yn effeithiol mae'r Llys wedi penderfynu bod nifer o hawliau hefyd yn gosod cyfrifoldebau cadarnhaol ar wladwriaethau. Mae'r rhain yn golygu fod yn rhaid i'r wladwriaeth gymryd camau i atal tramgwyddo hawl. Er enghraifft, gall Erthygl 2 greu cyfrifoldeb cadarnhaol i gymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd, pan ddaw awdurdod cyhoeddus yn ymwybodol o fygythiad gwirioneddol sydd ar fin digwydd i beryglu bywyd rhywun, neu pan fo person o dan ofal awdurdod cyhoeddus. Oherwydd y Ddeddf Hawliau Dynol, gallai fod cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu'n bositif dros hawliau dynol o dan rhai amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y bydd cyfrifoldeb cadarnhaol ar awdurdod lleol i atal achosion o dorri hawliau dynol preswylwyr mewn cartrefi gofal y cafodd eu gofal ei gomisiynu gan y sector preifat.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Cwestiynau a ofynnir yn aml

## Beth mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud?

Mae'n gwneud yr hawliau dynol sy'n cael eu cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhai y gellir eu gorfodi yng nghyfraith y DU. Mae'n cyflawni hynny drwy ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl yn y Confensiwn. Gall person sy'n credu bod awdurdod cyhoeddus yn torri un neu ragor o'i hawliau dynol godi'r mater yn y Llys neu'r Tribiwnlys priodol. Os yw'r person yn anfodlon â phenderfyniad y llys ac wedi codi'r mater cyn belled ag y gall fynd yn system llysoedd y DU, gall gymryd ei gŵyn i Lys Ewropeaidd Hawliau Dynol, sefydliad a gafodd ei sefydlu gan Gyngor Ewrop ac sy'n cyfarfod yn Strasbwrg, Ffrainc.

## A oes gan farnwyr bellach fwy o bŵer na gwleidyddion etholedig?

Prif effaith y Ddeddf Hawliau Dynol yw galluogi pobl i orfodi eu hawliau dynol yn y llysoedd domestig yn erbyn awdurdodau cyhoeddus. Dylai'r Ddeddf Hawliau Dynol olygu fod pobl ar draws cymdeithas yn cael eu trin â pharch am eu hawliau dynol, gan hyrwyddo gwerthoedd fel urddas, tegwch, cydraddoldeb a pharch.

## Pa wahaniaeth y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud?

Prif effaith y Ddeddf Hawliau Dynol yw galluogi pobl i orfodi eu hawliau dynol yn y llysoedd domestig yn erbyn awdurdodau cyhoeddus. Dylai'r Ddeddf Hawliau Dynol olygu fod pobl ar draws cymdeithas yn cael eu trin â pharch am eu hawliau dynol, gan hyrwyddo gwerthoedd fel urddas, tegwch, cydraddoldeb a pharch.

## A yw hawliau dynol yn berthnasol i bob un o'n penderfyniadau?

Yr ateb syml i hyn yw 'na'. Nid yw hawliau dynol yn effeithio ar lawer o benderfyniadau pob dydd yn y gweithle. Fodd bynnag, drwy ddeall hawliau dynol yn briodol byddwch yn fwy tebygol o wybod pryd y mae, ac nad ydyw, hawliau dynol yn berthnasol. Dylai hyn eich helpu chi i gymryd penderfyniadau'n fwy hyderus, a sicrhau bod eich penderfyniadau'n deg a chadarn.

## Beth yw awdurdod cyhoeddus?

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus (hynny yw, cyrff yn y sector cyhoeddus), gan gynnwys:

- llywodraeth ganolog
- llysoedd a thribiwnlysoedd
- llywodraeth leol
- arolygiaethau cynllunio
- asiantaethau gweithredol
- gwasanaethau heddlu, carchardai a mewnfudo
- cyrff rheoleiddio statudol
- ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Os ydych yn ansicr a ydych yn gweithio mewn awdurdod cyhoeddus dylech holi eich rheolwr llinell. Beth bynnag, bydd dilyn safonau hawliau dynol, hyd yn oed os mai prin fod y mater rydych yn ei drin yn dod o dan Ddeddf Hawliau Dynol, yn ymarfer da.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn dweud hefyd y bydd sefydliadau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus yn disgyn o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus. Mae'r llysoedd yn parhau i benderfynu union ystyr 'swyddogaethau o natur gyhoeddus'. Er enghraifft, yn *R (Weaver) v London & Quadrant Housing Trust (2009)*, canfu'r llys fod landlord cymdeithasol cofrestredig yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus wrth ddyrannu a rheoli tai cymdeithasol..

## A oes raid i bob deddf newydd fod yn gydnaws â'r Ddeddf Hawliau Dynol?

Pan fydd Gweinidog yn cyflwyno Bil i Senedd, mae'n rhaid iddo gadarnhau yn ysgrifenedig bod y Bil, yn ei farn, yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, neu nad yw'n gallu dweud ei fod yn gydnaws ond ei fod yn dymuno bwrw ymlaen â'r Bil beth bynnag.

## A yw holl hawliau'r Confensiwn wedi eu gwarantu, beth bynnag fo'r amgylchiadau?

Nid yw pob un o hawliau'r Confensiwn yn cael eu llunio yn yr un modd. Bydd rhai hawliau'n cael eu hamddiffyn yn absoliwt, fel yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith, mae eraill yn gyfyngedig mewn rhai sefyllfaoedd wedi eu diffinio, neu'n amodol er mwyn cymryd i ystyriaeth hawliau pobl eraill neu fuddiannau'r gymdeithas ehangach.

## Pwy sy'n gallu dwyn achos o dan y Ddeddf Hawliau Dynol?

Gall unrhyw 'ddioddefwr' y mae ei hawliau dynol wedi'u torri wneud hynny. Nid yw'n rhaid bod yn ddinesydd o'r DU. Rhaid i unrhyw un sy'n dwyn achos fod wedi cael ei effeithio'n uniongyrchol drwy weithred neu anweithred gan awdurdod cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bŵer arbennig sy'n caniatáu iddo ddwyn achos ar ran dioddefwyr er nad yw'n ddioddefwr ei hun.

## A oes unrhyw ganllawiau eraill ar y Ddeddf Hawliau Dynol ar gael?

Am wybodaeth bellach am hawliau dynol a'r Ddeddf, rydym yn argymell:

- *Canllaw ar y Ddeddf Hawliau Dynol* a gynhyrchir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gael i'w lawr lwytho ar eu gwefan: www.justice.gov.uk/ about/docs/ act-studyguide.pdf
- Tudalennau gwe Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar y Ddeddf Hawliau Dynol: http:// www.equalityhumanrights.com/ human-rights/what-are-human-rights/ the-human-rights-act/

Mae gwefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn cynnwys casgliad o ganllawiau ymarferol wedi eu cynllunio fel adnodd i'ch helpu chi i ganfod yr arweiniad angenrheidiol i fodloni eich cyfrifoldebau hawliau dynol ac i weithredu ymarfer da yn eich sector. Ar hyn o bryd mae'r adnodd yn cynnwys adolygiadau ar 39 o ddarnau ganllawiau. Rydym wedi dwyn ynghyd amrywiaeth o arferion da a deunydd dysgu ar hawliau dynol, yn rhai cyffredinol ac yn rhai ar draws y sector cyhoeddus – addysg, gwasanaethau plant, plismona a chyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol – a hefyd ddeunydd ar gefnogi hawliau dynol grwpiau penodol, megis pobl hŷn a phobl anabl a ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae rhestr ar dudalen 102 o rai cysylltiadau a sefydliadau defnyddiol lle mae rhagor o gyngor ac arweiniad ar gael.

# Deall y jargon

## Deddf Hawliau Dynol:

Deddf Hawliau Dynol 1998. Daeth i rym ar 2 Hydref 2000. Mae'n gwneud rhai hawliau a gynhwysir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol yn rhai y gellir eu gorfodi drwy gyfraith y DU. Gelwir yr hawliau hyn yn 'hawliau'r Confensiwn' sydd yn Rhan 2 y llawlyfr hwn.

## Y Confensiwn:

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol. Cytundeb gan Gyngor Ewrop a ddaeth i rym ar 3 Medi 1953. Fe'i llofnodwyd gan y DU ar 4 Tachwedd 1950. Cadarnhawyd gan y DU ar 8 Mawrth 1951.

## Erthyglau:

Rhennir y Confensiwn yn Erthyglau. Mae Erthygl 1 yn rhagarweiniol tra bod pob un o'r erthyglau o 2 i 12 ac Erthygl 14 yn manylu ar hawl ddynol wahanol neu ryddid gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o erthyglau eraill y Confensiwn yn ymdrin â materion gweithdrefnol. Rhennir pob un o'r protocolau hefyd yn Erthyglau.

## Protocol:

Mae'r rhain yn ychwanegiadau neu'n welliannau i'r Confensiwn gwreiddiol. Gallant fod wedi eu llofnodi a'u cadarnhau gan bartïon i'r Confensiwn ac maent mewn gwirionedd yn gweithredu fel rhan o'r Confensiwn gwreiddiol. Nid yw'r DU wedi llofnodi pob un o'r protocolau.

## Nod cyfreithlon:

Unrhyw ymyrraeth â hawl amodol at y diben perthnasol sy'n diogelu buddiant a nodir yn yr Erthygl ac yn dilyn nod cyfreithlon.

## Cymesuredd:

Diffinnir hyn orau fel peidio â defnyddio gordd i dorri cneuen. Rhaid i unrhyw gyfyngiad beidio â mynd ymhellach nag sydd raid mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn cyflawni nod cyfreithlon.

## Ymyl gwerthfawrogiad:

Dyma yw'r graddau o ryddid a ganiateir i'r wladwriaeth gan Lys Ewropeaidd Hawliau Dynol wrth ddehongli a chymhwyso hawliau'r Confensiwn.

## Awdurdod cyhoeddus:

Mae hyn yn cynnwys holl adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus 'craidd' eraill fel:

- Y llywodraeth ganolog
- Y llysoedd a'r tribiwnlysoedd
- Llywodraeth leol
- Arolygiaeth gynllunio
- Asiantaethau gweithredol
- gwasanaethau heddlu, carcharau a mewnfudo
- Cyrff rheoleiddio statudol
- Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Y tu allan i hyn, cynhwysir sefydliadau preifat y mae eu swyddogaethau o natur gyhoeddus mewn perthynas â'r swyddogaethau cyhoeddus hynny.

## Cadarnhau:

Cadarnhau yw'r broses a ddefnyddir gan aelod-wladwriaeth i fabwysiadu a chytuno i gael ei rhwymo gan gytuniad rhyngwladol.

## Dioddefwr:

Mae dioddefwr yn rhywun sydd neu a fyddai yn cael ei effeithio'n uniongyrchol drwy weithred neu anweithred corff cyhoeddus.

# Sefydliadau a chysylltiadau perthnasol

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Manceinion)
2nd Floor
Arndale House
The Arndale Centre
Manceinion
M4 3AQ

Ffôn: 0161 829 8100

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Llundain)
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
Llundain
EC4Y 8JX

Ffôn: 020 7832 7800

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Caerdydd)
Y Llawr Gwaelod
1 Caspian Point
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 4DQ

Ffôn: 02920 447710

### Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Glasgow)
2nd Floor
151 West George Street
Glasgow
G2 2JJ

Ffôn: 0141 228 5910

### Y Gwasanaethau Cymorth Cyngor Cydraddoldeb
RHADBOST
Equality Advisory Support Service
FPN4431

Ffôn: 0800 800 0082
Ffôn testun: 0800 800 0084

### Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Human Rights and Security Policy
Area 6.16
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3734
Ebost: humanrights@justice.gsi.gov.uk

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon
Temple Court
39 North Street
Belfast
BT1 1NA

Ffôn: 028 9024 3987
Ebost: info@nihrc.org

### Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban
4 Melville Street
Caeredin
EH3 7NS

Ffôn: 0131 240 2989
Ebost: hello@scottishhumanrights.com

### Sefydliad Hawliau Dynol Prydain
School of Law
Queen Mary University of London
Mile End Road
Llundain
E1 4NS

Ffôn: 020 7882 5850
Ebost: info@bihr.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad GD.13.401 | Cyhoeddwyd Mai 2014

# Gwefannau defnyddiol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:
www.equalityhumanrights.com/human-rights/

Sefydliad Hawliau Dynol Prydain:
www.bihr.org/

Llys Hawliau Dynol Ewrop:
www.echr.coe.int/echr/
Gallwch ddefnyddio basdata HUDOC i chwilio am gyfraith achos y llys hwn.

Y cydbwyllgor Hawliau Dynol (Senedd San Steffan):
www.parliament.uk/business/committees/committees-archive/joint-committee-on-human-rights/

Liberty:
www.liberty-human-rights.org.uk/

Justice:
www.justice.org.uk/

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder:
www.justice.gov.uk/human-rights

Awdurdod Cyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol :
www.nhsla.com/HumanRights/
Mae cyfres o ddalenni achos ar gael yn amlygu achosion allweddol mewn cyfraith gofal iechyd.

Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon:
www.nihrc.org/

Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban:
www.scottishhumanrights.com/

Blog Hawliau Dynol y DU:
www.ukhumanrightsblog.com/

Y Cenhedloedd Unedig:
www.un.org/

*Cyhoeddwyd Human Rights: Human Lives – A Guide to the Human Rights Act for Public Authorities (Hawliau Dynol: Bywydau Dynol – Canllaw i'r Deddf Hawliau Dynol ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus)* gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol ar gael o wefan y Comisiwn (www.equalityhumanrights.com).

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar gydraddoldeb, camwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r *Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb*, sy'n wasanaeth am ddim ac yn annibynnol.

| | |
|---|---|
| Gwefan | www.equalityadvisoryservice.com |
| Ffôn | 0808 800 0082 |
| Ffôn testun | 0808 800 0084 |
| Oriau | 09:00 tan 20:00 (Dydd Llun tan ddydd Gwener)<br>10:00 tan 14:00 (Dydd Sadwrn) |
| Post | FREEPOST Equality Advisory Support Service<br>FPN4431 |

Dylid anfon unrhyw gwestiwn neu sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

© 2014 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

ISBN 978-1-84206-528-0

Cyhoeddwyd 05/2014

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
ISBN 978-1-84206-528-0
Cyhoeddwyd 05/2014.

Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Equality and Human Rights**
Commission